Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 11/2013

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad CLIC

# Gwerthusiad CLIC

**Shane Beadle a Julie Farrell, ICF GHK**

Barn yr ymchwilydd yr hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:
Joanne Starkey
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
0300 025 0377
joanne.starkey@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, blwyddyn
978-0-7504-8790-0
© Hawlfraint y Goron blwyddyn

# Tabl Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Rhagarweiniad** | **1** |
| 1.1 | Cefndir yr astudiaeth | 1 |
| 1.2 | Gwerthuso | 1 |
| 1.3 | Yr adroddiad hwn | 13 |
| **2** | **Contract a Pherfformiad CLIC Ar-lein** | **14** |
| 2.1 | Contract CLIC Ar-lein | 14 |
| 2.2 | Mewnbynnau | 19 |
| 2.3 | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma | 21 |
| 2.4 | Cyflawniadau disgwyliedig | 30 |
| 2.5 | Pwyntiau allweddol i grynhoi | 30 |
| **3** | **Gwybodaeth Rheoli Allbynnau a Deilliannau** | **32** |
| 3.1 | Defnyddio o adnoddau gwe CLIC | 32 |
| 3.2 | Cynhyrchu, diweddaru a darparu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed | 38 |
| 3.3 | Cynnwys pobl ifanc a gweithio gyda nhw | 39 |
| 3.4 | Meincnodi | 48 |
| 3.5 | Pwyntiau allweddol i grynhoi | 51 |
| **4** | **Gweithredu Gweithgareddau'r Contract** | **54** |
| 4.1 | Proffil ardaloedd yr astudiaethau achos | 54 |
| 4.2 | Sail Resymegol CLIC | 55 |
| 4.3 | Datblygu gwefannau CLIC lleol | 57 |
| 4.4 | Strategaethau ar gyfer ymgysylltu pobl ifanc ac ymarferwyr | 59 |
| 4.5 | Gweithredu CLIC: ei symud ymlaen | 63 |
| 4.6 | Darpariaeth yn y dyfodol | 67 |
| 4.7 | Pwyntiau allweddol i grynhoi | 68 |
| **5** | **Defnydd o Adnoddau CLIC Ar-lein** | **70** |
| 5.1 | Y prif ganfyddiadau: pobl ifanc | 70 |
| 5.2 | Y bobl ifanc sy'n defnyddio CLIC ar-lein | 71 |
| 5.3 | Pobl ifanc nad oeddent yn defnyddio CLIC Ar-lein | 92 |
| 5.4 | Defnydd ymarferwyr o CLIC Ar-lein | 100 |
| 5.5 | Pwyntiau allweddol i grynhoi | 102 |
| **6** | **Ystyriaethau a Chasgliadau** | **106** |
| 6.1 | Deilliannau a pherfformiad | 106 |

6.2 Ystyriaethau at y dyfodol 108
6.3 Gofynion at y dyfodol 113
6.4 Casgliadau 116

**Atodiad 1 Atodiadau**

**Atodiad 1** **Staff Rheoli CLIC a'r Rhanddeiliaid Cenedlaethol** **118**

**Atodiad 2** **Llwybrau Holi Allweddol: Staff Comisiynu a Rheoli, y Rhanddeiliaid Cenedlaethol a'r ALlau lle cyflawnwyd yr Astudiaethau Achos** **121**

**Atodiad 3** **Arolwg CLIC Ar-lein - defnyddwyr a phobl ifanc nad ydynt yn defnyddio'r gwefannau** **123**

## Tabl Ffigyrau

Ffigwr 1.1 Model rhesymeg a ddefnyddiwyd ar gyfer gwerthusiad CLIC Ar-lein 4
Ffigwr 3.1 Nifer yr ymweliadau â CLIC Ar-lein, Ionawr 2009 – Mawrth 2012 33
Ffigwr 3.2 Nifer yr ymwelwyr unigryw i CLIC Ar-lein, Ionawr 2009 – Mawrth 2012 34
Ffigwr 3.3 Ymwelwyr unigryw i CLIC Ar-lein fesul gwefan, Ionawr 2009 – Ionawr 2012 37
Ffigwr 3.4 Pynciau gwybodaeth a gyrchwyd ar CLIC Ar-lein yn ystod chwarter cyntaf 2010 a 2012 39
Ffigwr 3.5 Defnyddwyr cofrestredig rhwydwaith CLIC, Ionawr 2009 – Mawrth 2012 40
Ffigwr 3.6 Canran y defnyddwyr cofrestredig a roddodd eu hoedran 43
Ffigwr 3.7 Aelodau grwpiau golygyddol fesul math o grŵp golygyddol 45
Ffigwr 5.1 Proffil oedran y bobl ifanc sy'n defnyddio CLIC a ymatebodd i'r holiadur 72
Ffigwr 5.2 Lleoliad preswyl defnyddwyr CLIC 73
Ffigwr 5.3 Sut ddaeth y defnyddwyr i glywed am y gwefannau CLIC 75
Ffigwr 5.4 Rhesymau dros ymweld â gwefan CLIC 76
Ffigwr 5.5 Pam mae'r gwefannau CLIC 'o gymorth' 79
Ffigwr 5.6 Nodweddion mwyaf deniadol gwefan CLIC 84
Ffigwr 5.7 Lleoliad preswyl y bobl nad ydynt yn defnyddio'r wefan 94
Ffigwr 5.8 Sut roedd y bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr wedi clywed am CLIC Ar-lein 95
Ffigwr 5.9 Safbwyntiau'r bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr am nodweddion CLIC a fyddai 'fwyaf defnyddiol' iddynt 99

## Tabl Tablau

Tabl 1.1 Ardaloedd awdurdodau lleol lle cyflawnwyd astudiaethau achos 9
Tabl 1.2 Cyfweliadau astudiaethau achos awdurdodau lleol 10
Tabl 1.3 Cymhariaeth amcangyfrifon y boblogaeth yn ôl oedran ymatebwyr 12
Tabl 2.2 Gwariant ar CLIC Ar-lein y flwyddyn 20
Tabl 2.3 Dosraniad y costau i'r gweithgareddau (£'000) 2008-12 20
Tabl 2.4 Trosolwg o gynnydd CLIC Ar-lein 2008 hyd at 30 Mehefin 2012 22
Tabl 3.1 Cronoleg lansio gwefannau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012 34
Tabl 3.2 Newid yn nifer yr ymweliadau â rhwydwaith CLIC yn dilyn lansio gwefannau lleol 35
Tabl 3.3 Nifer yr ymweliadau darllen tudalennau fesul math o gynnwys 38
Tabl 3.4 Defnyddwyr cofrestredig CLIC Ar-lein fesul Awdurdod Lleol 41
Tabl 3.6 Cyfranogwyr preswyl fesul awdurdod lleol 46
Tabl 3.7 Nodweddion allweddol gwefannau CLIC Ar-lein, Young Scot a Youthnet 51
Tabl 3.8 Hyfforddiant a chymwysterau/dyfarniadau a gyflawnwyd 53
Tabl 5.1 Amlder defnyddio CLIC yn ôl hyd y cysylltiad 80
Tabl 6.1 Asesu canlyniadau a pherfformiad contract CLIC 106

# 1 Rhagarweiniad

## 1.1 Cefndir yr astudiaeth

Ym mis Chwefror 2012 comisiynwyd GHK gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwerthusiad annibynnol o CLIC.

Mae CLIC Ar-lein (www.cliconline.co.uk) yn wefan gyffredinol sy'n darparu gwybodaeth, newyddion a chyngor i bobl ifanc yng Nghymru 11-25 oed. Caiff ei darparu ar ffurf amlgyfrwng ddwyieithog ac mae ar gael yn rhad ac am ddim. Mae'n dilyn model cyfryngau cymdeithasol, gydag elfennau rhyngweithiol gan ganiatáu i bobl ifanc gynnig sylwadau a mewnbwn uniongyrchol yn ogystal â sefydliadau ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Mae CLIC Ar-lein wedi'i ddylunio fel bod ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru yn llwyfannu gwefan sy'n cael ei datblygu'n lleol ac yn cynnwys set safonol o wybodaeth a chyngor cenedlaethol a chynnwys a gynhyrchwyd yn lleol. Darperir templed safonol. Mae gwahanol fodelau darparu wedi'u datblygu ar draws Cymru, gyda rhai awdurdodau lleol yn gweithredu fel y gwe-letywyr, ac eraill yn comisiynu'r gwasanaeth gan ddarparwyr annibynnol. Mae pobl ifanc hefyd yn cymryd rhan wrth ddylunio a darparu CLIC Ar-lein yn genedlaethol ac yn lleol. Mae grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol dan arweiniad pobl ifanc, gyda chefnogaeth golygyddion proffesiynol CLIC Ar-lein yn trafod ac yn diweddaru'r cynnwys. Yn rhan o hyn, caiff pobl ifanc gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymarferol, fel ysgrifennu creadigol, golygu a gwneud ffilmiau. Er y gall pob person ifanc gyrchu CLIC Ar-lein, mae'r rheiny sy'n cofrestru fel defnyddwyr yn darparu eu manylion i reolwr y wefan ac yn cael yr hawl i gyflwyno ymatebion, cwestiynau a chynnwys.

## 1.2 Gwerthuso

Dyfarnwyd y contract pum mlynedd i ddarparu CLIC Ar-lein i ProMo Cymru yn 2008[1]. Am y daw cyfnod y contract cyfredol i ben yn 2013, comisiynwyd y gwerthusiad i ddarparu adolygiad amserol a chynhwysfawr o wasanaeth

[1] Cyn hyn, cafodd ei ddarparu gan Yrfa Cymru.

CLIC, a'i weithgareddau ategol cysylltiedig, er mwyn llywio cyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol a bwydo penderfyniadau mewn perthynas ag ymagweddau cyllido a chyflwyno.

### *1.2.1 Nodau ac amcanion y gwerthusiad hwn*

Prif nod y gwerthusiad yw: ***"bwydo dull darparu gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc 11-25 oed yng Nghymru yn y dyfodol, yng nghyd-destun cyllid is"*** ac yn benodol i:

- Asesu effeithiolrwydd model darparu CLIC.
- Asesu effeithiolrwydd CLIC wrth gyflawni ei amcanion ac i ba raddau mae CLIC yn cyfrannu at amcanion polisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Asesu effeithiolrwydd y defnydd o adnoddau a chefnogaeth bresennol i wefannau lleol.

### *1.2.2 Y Fframwaith Gwerthuso*

Yn sail i'r astudiaeth mae fframwaith gwerthuso, sydd wedi'i gynllunio i ddarparu strwythur clir i'r ymagwedd. Defnyddiwyd model rhesymeg theori newid i ddarparu fframwaith gwerthuso ar gyfer y gwerthusiad hwn. Oherwydd bod yr wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan CLIC Ar-lein mor amrywiol, ond gydag ystod safonol ddisgwyliedig o allbynnau a deilliannau, rydym wedi addasu model Kirkpatrick  i lywio'r model rhesymeg. Mae model Kirkpatrick yn darparu pedair lefel o ddeilliannau i wahaniaethu'r hyn a gaiff eu hystyried yn ddeilliannau ac effeithiau: uniongyrchol; byrdymor; canolradd; a rhai mwy hirdymor a ddisgwylir gan wybodaeth, cyngor ac arweiniad mewn trefn gronolegol. Y disgwyl yw y dylai derbynwyr yn y lle cyntaf:

- Gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, wedyn...
- Nodi ble a sut gallant gymhwyso'r wybodaeth hon yn briodol, wedyn...
- Gwneud penderfyniad a chymryd camau, ac....
- Yn olaf, gweld buddiannau personol mewn meysydd lle cymerwyd camau a'u rhoi ar waith.

Mae'r model rhesymeg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Y sail resymegol - sef y broblem, yr angen neu'r cyfle y dylai'r rhaglen fynd i'r afael ag ef (e.e. yr angen i ateb hawliau pobl ifanc i gael gwybodaeth a chyngor i wella'u gallu i wneud penderfyniadau).
- Mewnbynnau - sef yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu a darparu'r rhaglen.
- Gweithgareddau - sef y gweithgareddau a ddarparwyd (h.y. dadansoddiad manwl o'r ffrydiau gwaith a gontractiwyd).
- Allbynnau - sef y 'cynnyrch' uniongyrchol a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r rhaglen (h.y. megis tystysgrifau a ddyfarnwyd am gymwysterau a enillwyd, gwefannau lleol a ddatblygwyd ac sydd ar waith).
- Deilliannau - sef y newidiadau penodol ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn grwpiau golygyddol a'r rhai sy'n defnyddio'r wybodaeth a'r cyngor, boed hynny yn y byrdymor neu'r tymor canolig (e.e. fel dewis cyrsiau neu weithgareddau cymdeithasol neu ffynonellau cyngor newydd ynghylch problem).
- Effeithiau – sef y newidiadau cynaliadwy hirdymor i unigolion a sefydliadau y gellid disgwyl i'r deilliannau effeithio arnynt (e.e. cwrs astudio, llwybr gyrfaol, diddordeb allanol newydd).

Mae'r model rhesymeg a ddefnyddiwyd ar gyfer CLIC Ar-lein i'w weld ar y dudalen nesaf.

### Ffigwr 1.1 Model rhesymeg a ddefnyddiwyd ar gyfer gwerthusiad CLIC Ar-lein

**Sail resymegol :** *Darparu gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i bobl ifanc ar draws Cymru mewn ffurfiau hygyrch pan fydd eu hangen arnynt [....] sy'n hanfodol i'w helpu i fod mewn sefyllfa i wneud dewisiadau gwybodus am eu bywydau*

| ⇨Mewnbynnau⇨ | ⇨Gweithgareddau⇨ | ⇨ Allbynnau⇨ | ⇨ Canlyniadau neu Ddeilliannau Uniongyrchol | ⇨Deilliannau Canolradd | ⇨Effeithiau⇨ |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheolaeth y rhaglen a chostau gweinyddu<br>Cyllid craidd o £2.4 miliwn<br>Amser, arbenigedd a gwybodaeth partneriaid i gyfrannu at ddatblygu a chynnal gwybodaeth genedlaethol a lleol<br>Amser pobl ifanc | Lot 1 – Cynhyrchu, diweddaru a darparu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed (h.y. sefydlu grwpiau golygyddol o bobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol)<br>Lot 2 – Gweithio gyda phartneriaid a'u cefnogi (h.y. gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu gwefannau CLIC lleol; hyfforddiant achredEdig i weithwyr proffesiynol)<br>Lot 3 – Cynnwys pobl ifanc a gweithio gyda nhw (h.y. cefnogi grwpiau golygyddol pobl ifanc yn genedlaethol/lleol; darparu cyrsiau preswyl; hyfforddiant achredEdig i bobl ifanc)<br>Lot 4 – Defnyddio technoleg newydd (h.y. hyrwyddo a chefnogi defnydd o wefannau CLIC; archwilio technoleg ar gyfer ymgysylltu yn y ffordd orau â grwpiau targed)<br>Lot 5 – Canolfan gydlynu 'hwb' CLIC (h.y. cydlynu a hyfforddi swyddogion datblygu CLIC) | Gwasanaeth cenedlaethol gweithredol, cyfoes a hygyrch<br>Gwasanaethau gwybodaeth lleol (mewn 17 ardal awdurdod lleol)<br>Gwefannau cenedlaethol a lleol yn cael 30,000 o ymwelwyr bob mis ac 20,000 o ymwelwyr unigryw<br>Ymgysylltu 300 o bobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol wrth ddatblygu a rheoli 17 grŵp golygyddol lleol a grŵp golygyddol cenedlaethol ar waith<br>Pobl ifanc wedi'u hymgysylltu mewn gwaith tuag at gyflawni cymwysterau a chydnabyddiaeth i'r sgiliau a enillwyd (11 cwrs preswyl, 700 o bobl ifanc wedi'u hymgysylltu, 155 yn cyflawni achrediad ar gyfer sgiliau, 200 yn gwella sgiliau meddal)<br>Gweithwyr gwybodaeth ieuenctid â'r gallu i ddatblygu a | Pobl ifanc sy'n defnyddio CLIC yn credu eu bod wedi magu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd maent yn bwriadu'u defnyddio<br>Pobl ifanc yn defnyddio CLIC uwchben ffynonellau eraill<br>Ymarferwyr sy'n defnyddio CLIC yn credu eu bod wedi magu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn rhoi cyngor i bobl ifanc neu eu trosglwyddo i swyddogion cyfeirio<br>Swyddogion cyfeirio'n credu eu bod wedi gwella'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i bobl ifanc yn eu hardal<br>Pobl ifanc a ymgysylltwyd wedi magu sgiliau at ddibenion ehangach yn eu dysgu a'u cyflogaeth | Pobl ifanc wedi defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a fagwyd gan CLIC i gymryd camau<br>Ymarferwyr wedi defnyddio CLIC i roi cyngor i bobl ifanc neu i'w trosglwyddo i swyddogion cyfeirio neu roi arweiniad iddynt<br>Ymarferwyr yn dod o hyd i wybodaeth yn gyflymach ac yn haws<br>Swyddogion cyfeirio â ffynhonnell fwy dibynadwy o wybodaeth a chefnogaeth genedlaethol i gynnal gwybodaeth leol i bobl ifanc<br>Pobl ifanc a ymgysylltwyd yn credu eu bod wedi gwneud gwahaniaeth i ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor | Pobl ifanc yn defnyddio'r wybodaeth i gymryd camau cadarnhaol ynghylch cyflogaeth, dysgu, gweithgareddau hamdden ac iechyd<br>Gwybodaeth a chyngor ar gael yn haws i bobl ifanc a chwilir amdanynt yn frwd<br>Ymarferwyr a swyddogion cyfeirio'n fwy effeithlon ac effeithiol<br>Gwybodaeth leol a chenedlaethol i bobl ifanc yn symlach ac arbedion wedi'u hadnabod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | chynnal gwefannau lleol (162 wedi'u cymhwyso) | | sydd ar gael ac yn defnyddio'r sgiliau maent wedi'u magu | |

### *1.2.3 Methodoleg y gwerthusiad*

Roedd pum rhan allweddol i'r ymchwil:

- **Cwmpasu** - er mwyn sefydlu cefndir a chyd-destun y rhaglen, yr wybodaeth a oedd ar gael a'r wybodaeth i'w chasglu. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennau allweddol er mwyn canfod y cyd-destun strategol, polisi a darparu; cyfweliadau cwmpasu gyda phartneriaid strategol a rhanddeiliaid polisi cenedlaethol allweddol o fewn Llywodraeth Cymru. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth er mwyn nodi modelau gwledydd eraill o ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc ac ystod yr wybodaeth, cyngor ac arweiniad arall i bobl ifanc yng Nghymru.
- **Dadansoddi gwybodaeth reoli (GR)** - er mwyn mapio gweithredu a chynnydd CLIC, buddiolwyr, allbynnau a deilliannau (rhai disgwyliedig a rhai a gyflawnwyd), a meysydd ffocws (effaith a daearyddiaeth).
- **Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol** – er mwyn archwilio'r sail resymegol ar gyfer CLIC Ar-lein, y gweithredu hyd yma, datblygu at y dyfodol a'r dull darparu tan ddiwedd y contract cyfredol. Ymhlith y rhanddeiliaid cenedlaethol roedd staff Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisïau'n ymwneud â gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc; staff Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r contract a'r cyllid; a staff allweddol mewn asiantaethau a sefydliadau yng Nghymru sydd â diddordeb brwd yn natblygiad a goruchwyliaeth CLIC Ar-lein.
- **Cyfweliadau gyda phobl ifanc ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn ardaloedd awdurdodau lleol** - cynhaliwyd pum astudiaeth awdurdod lleol (ALl), a oedd yn cynnwys: cyfweliadau a thrafodaethau ansoddol gyda phobl ifanc (yn ddefnyddwyr CLIC Ar-lein ac yn rhai nad oeddent yn ei ddefnyddio), ymarferwyr a staff ALlau sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu templed lleol CLIC Ar-lein. Er mwyn sicrhau cynnwys ystod y profiad yng Nghymru ac ymgysylltiad o ran datblygu gwefannau lleol, roedd y pum ALl yn cynnwys: dau lle roedd gwefan leol sefydledig; dau oedd yn cael eu datblygu/a oedd wedi'u sefydlu'n ddiweddar; ac un nad oedd yn cael ei ddatblygu/newydd ddechrau.

- **Arolwg ar-lein ymysg pobl ifanc a oedd yn defnyddio CLIC Ar-lein a rhai nad oeddent yn ei ddefnyddio** - er mwyn casglu gwybodaeth ffeithiol fwy strwythuredig a barn gymaradwy ynghylch effeithiolrwydd CLIC Ar-lein gan bobl ifanc sy'n ei ddefnyddio a rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio. Roedd arolwg defnyddwyr CLIC ar gael i ddefnyddwyr drwy'r gwefannau cenedlaethol a lleol. Roedd arolwg cyfun ar gyfer defnyddwyr a rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr hefyd ar gael ac wedi'i gyrchu drwy wefannau heblaw CLIC Ar-lein gan gynnwys Meic, Llais Disgyblion Cymru, a'r Ddraig Ffynci. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo gan ddefnyddio'r cymhelliad i ennill £50 mewn raffl. Yn sgil gwybodaeth o'r ymatebion a sbardunwyd gan yr arolwg, casglwyd gwybodaeth er mwyn dadansoddi hwylustod defnyddio'r platfform, ansawdd yr wybodaeth a'r cyngor, a'r deilliannau uniongyrchol yn sgil defnyddio CLIC Ar-lein.

### *1.2.4 Manylion pellach ynghylch methodoleg y gwerthusiad*

Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn tynnu ar y gweithgareddau ymchwil canlynol:

<u>Adolygiad dogfennaeth</u>

Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennau allweddol er mwyn canfod y cyd-destun strategol, polisi a chyflwyno: cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer CLIC Ar-lein (rhwng ProMo Cymru a Llywodraeth Cymru a ProMo Cymru a'i isgontractwyr), ymchwil a gomisiynwyd gan ProMo Cymru i gefnogi darparu CLIC Ar-lein - a gynhaliwyd gan gwmni Ymchwil Arad, a dogfennaeth dendro. Roedd hefyd yn cynnwys chwiliad ar draws gwefannau i ganfod ystod yr wybodaeth, cyngor ac arweiniad arall ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru ac adolygiad llenyddiaeth er mwyn nodi modelau darparu eraill a chymaryddion posibl. Cafwyd hyd i ddeunyddiau cyfweliadau a dogfennau ynghylch dau blatfform cymaradwy, sef Young Scot a The Site (Youthnet).

<u>Dadansoddi gwybodaeth reoli</u>

Darparodd dadansoddiad o wybodaeth reoli (GR) ddeunydd er mwyn asesu graddau cyrchu a defnyddio CLIC Ar-lein. Tynnodd hyn ar ddata manwl hyd at ddiwedd Mawrth 2012 gan gynnwys:

- Ymweliadau â'r gwefannau cenedlaethol a lleol; graddau'r defnydd (cymhareb yr ymwelwyr unigryw i gyfanswm nifer yr ymweliadau) a'r tueddiadau mewn perthynas â datblygu gwefannau lleol;
- Data defnydd (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012) er mwyn archwilio'r cynnwys sy'n denu'r nifer mwyaf o ddefnyddwyr;
- Graddau cyflwyno cynnwys ymysg defnyddwyr cofrestredig a faint sydd wedi cyfranogi y tu mewn i'r grwpiau golygyddol a'r tu allan iddynt;
- Nodweddion defnyddwyr cofrestredig (oedran, lleoliad) ar ddiwedd mis Mawrth 2012, lle mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu, a sut mae eu nodweddion yn cymharu â'r boblogaeth;
- Cyfrannau'r defnyddwyr posibl sy'n ddefnyddwyr cofrestredig yn y cyfnod tri mis diweddaraf (ar draws Cymru ac yn ôl ardal awdurdod lleol); a
- Nodweddion y bobl ifanc a ymgysylltwyd (mewn grwpiau golygyddol) ac ymarferwyr (mewn hyfforddiant) yn erbyn nodweddion y boblogaeth.

Yn y tablau mae canrannau wedi'u talgrynnu i un lle degol felly mae'n bosibl nad yw'r cyfansymiau bob amser yn rhoi 100.

Cyfweliadau gyda'r contractwr a phartneriaid cenedlaethol

Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn gyda:

- Staff Llywodraeth Cymru a gomisiynodd ac a oedd yn rheoli'r contract gyda ProMo;
- Staff ProMo a staff allweddol ymysg eu his-gontracwyr, Burning Red (is-gontractwr technegol) a chwmni Ymchwil Arad (yr is-gontractwr sy'n gyfrifol am ymchwil);
- Staff o fewn Llywodraeth Cymru gyda diddordeb yn y contract cyfredol ar gyfer CLIC Ar-lein a'r contract posibl yn y dyfodol, gan gynnwys swyddogion o'r meysydd polisi canlynol: gwasanaethau cymorth ieuenctid, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, CCUHP, cyfranogiad pobl ifanc, marchnata a chyfathrebu; a,
- Staff allweddol o asiantaethau a grwpiau sy'n gysylltiedig â datblygu a goruchwylio CLIC Ar-lein.

Cynhaliwyd cyfanswm o 26 cyfweliad, sef mwy na'r nifer targed o 20. Mae rhestr lawn o’r rhai y cyfwelwyd â nhw wedi'i darparu yn Atodiad 2. Mae'r llinellau ymholi allweddol ar gyfer y cyfweliadau wedi'u darparu yn Atodiad 3.

Darparodd hyn wybodaeth am y sail resymegol ar gyfer CLIC Ar-lein a'r cyd-destun strategol, gweithredu hyd yma, datblygiad yn y dyfodol a’r dull darparu tan ddiwedd y contract cyfredol, ynghyd ag anghenion posibl ar gyfer CLIC Ar-lein y tu hwnt i gyfnod y contract cyfredol.

<u>Ardaloedd Awdurdodau Lleol lle cyflawnwyd Astudiaethau Achos</u>

Detholwyd pum ardal ALl ar y cyd â Llywodraeth Cymru i adlewyrchu daearyddiaeth Cymru a chyfranogiad ALlau â model darparu CLIC Ar-lein. Mae Tabl 1.1 isod yn nodi pum ardal yr astudiaethau achos.

**Tabl 1.1 Ardaloedd awdurdodau lleol lle cyflawnwyd astudiaethau achos**

| | |
|---|---|
| Sefydledig | Caerdydd (yn fyw ers dros 3 blynedd)<br>Ynys Môn (yn fyw ers dros 1 flwyddyn) |
| Yn datblygu/wedi'u sefydlu'n fwy diweddar | Wrecsam (datblygwyd gwefan CLIC leol; ail-lansio gyda phobl ifanc ym mis Medi 2012)<br><br>Blaenau Gwent (yn fyw ers tua blwyddyn) |
| Heb ddatblygu gwefan | Sir Ddinbych (camau cynnar datblygu gwefan CLIC leol) |

Roedd pob astudiaeth achos ALl yn cynnwys cyfweliadau trylwyr, wyneb yn wyneb gyda:

- *Rheolwyr/staff ALlau sy'n gyfarwydd ag adnoddau CLIC Ar-lein:* yn arbennig y rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig ag adolygu, datblygu a/neu weithredu templed CLIC ar gyfer ALlau ac a oedd wedi defnyddio templed CLIC Ar-lein ar gyfer cyfeirio gwasanaethau i bobl ifanc yn yr ardal.
- *Ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad:* fel athrawon mewn ysgolion a darlithwyr mewn colegau a darparwyr hyfforddiant eraill, hyfforddwyr dysgu a gweithwyr

ieuenctid, ymgynghorwyr gyrfaoedd, staff rheoli troseddwyr ifanc, ymgynghorwyr canolfannau gwaith a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, fel gwasanaethau ieuenctid arbenigol a sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau cadarnhaol i bobl ifanc sy'n tynnu ar yr un ffynonellau ar gyfer arweiniad a help un i un ar gyfer plant a phobl ifanc; a

- *Grwpiau ffocws a/neu gyfweliadau gyda phobl ifanc 11-25 oed:* pobl ifanc sy'n ddefnyddwyr 'rheolaidd' o CLIC Ar-lein yn ogystal â'r rheiny nad ydynt wedi'i ddefnyddio o gwbl neu ddim llawer. Ymgymerwyd â nhw gyda phobl ifanc mewn amrywiol leoliadau, fel clybiau ieuenctid, ysgolion, a chanolfannau gwybodaeth galw i mewn; naill ai wedi'u cynnull yn benodol ar gyfer y gwerthusiad (gyda help naill ai staff rheoli neu gysylltiadau ymarferwyr yn yr ardal) neu wedi'u 'hychwanegu' i ddigwyddiadau, gweithgareddau neu gyfarfodydd a oedd eisoes yn cael eu cynnal, fel cyfarfod grŵp golygyddol CLIC lleol.

Darparodd cyfweliadau'r astudiaethau achos wybodaeth er mwyn triongli gyda chanlyniadau'r arolwg a'r cyfweliadau gyda staff y contractwr. Darparont hefyd ymatebion i gwestiynau er mwyn helpu i asesu deilliannau net, llwyddiant gweithgareddau gweithredol, a phriodoldeb trefniadau darparu. Oherwydd bod nifer y rhai y cyfwelwyd â nhw yn fach ac oherwydd bod y cyfranogwyr yn rhai a wirfoddolodd eu hunain yn bennaf, tystiolaeth ansoddol ategol yn unig mae'r cyfweliadau hyn yn ei darparu.

Mae llinellau ymholi ar gyfer pob set o gyfweliadau wedi'u darparu yn Atodiad 3.

**Tabl 1.2 Cyfweliadau astudiaethau achos awdurdodau lleol**

| *Rhanddeiliad* | **Staff Rheoli** | | **Ymarferwyr** | | **Pobl Ifanc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Targed / cyflawnwyd* | Targed | Cyflawnwyd | Targed | Cyflawnwyd | Targed | Cyflawnwyd |
| ***Cyfanswm (holl ardaloedd astudiaethau achos)*** | 20 | 15[2] | 20 | 20 | 100 | 96[3] |

[2]Mae hyn oherwydd mai dim ond dau neu dri aelod o staff rheoli oedd mewn rhai ardaloedd ALl. Ymgynghorwyd â holl staff rheoli ALl CLIC Ar-lein ar draws pum ardal yr astudiaethau achos.

Arolwg pobl ifanc

Ar 18fed Mai 2012 lansiwyd arolwg defnyddwyr CLIC ar wefannau cenedlaethol a lleol CLIC yn Gymraeg a Saesneg. Ymddangosodd yr arolwg fel 'hysbyseb naid' i bob un a gyrchodd wefannau CLIC. Dyluniwyd yr arolwg 'defnyddwyr' yn bennaf ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed a oedd yn defnyddio CLIC Ar-lein - diffiniwyd 'defnyddio' fel y rhai a oedd wedi defnyddio adnoddau CLIC Ar-lein o leiaf unwaith neu fwy. Bu'r arolwg yn trafod: ymwybyddiaeth am CLIC Ar-lein; amlder defnyddio'r wefan; adnoddau CLIC Ar-lein y gwnaed defnydd ohonynt; gwerth canfyddedig CLIC Ar-lein; a ffynonellau gwybodaeth Ar-lein eraill a ddefnyddiwyd gan bobl ifanc.

Ar yr un pryd, lansiwyd arolwg cyfunol ar gyfer defnyddwyr a'r rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr ar Facebook. Ychwanegwyd hwn yn ddiweddarach i wefannau gwybodaeth ac arweiniad cenedlaethol eraill drwy Lywodraeth Cymru gan gynnwys: Gyrfa Cymru, Llais Disgyblion Cymru a Phlant yng Nghymru. Hefyd, dosbarthwyd yr arolwg drwy restrau e-bost i Rwydwaith Ymarferwyr Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) a thrwy eGylchgrawn ar gyfer gweithwyr ieuenctid fel y gallai ymarferwyr gyfeirio pobl ifanc at yr arolwg. Dyluniwyd yr arolwg cyfunol 'ar gyfer defnyddwyr a'r rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr' er mwyn targedu pobl ifanc 11-25 oed a oedd wedi clywed neu heb glywed am CLIC Ar-lein a/neu wedi defnyddio gwasanaeth CLIC Ar-lein. Roedd cwestiynau o'r arolwg 'defnyddwyr' wedi'u gwreiddio yn yr arolwg hwn ochr yn ochr â chyfeirio at gwestiynau ychwanegol ar gyfer y bobl ifanc hynny nad oeddent wedi defnyddio CLIC Ar-lein; bu'r cwestiynau ychwanegol hyn yn trafod: defnydd o ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad ar-lein eraill; defnydd o ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad wyneb yn wyneb; a rhwystrau gwirioneddol/posibl mewn perthynas â defnyddio adnoddau CLIC Ar-lein (h.y. heblaw diffyg ymwybyddiaeth amdanynt - materion yn ymwneud â mynediad i fathau o wybodaeth ac arweiniad ar-lein, ffafrio cefnogaeth wyneb yn wyneb). Mae copi o'r arolwg ar gael yn Atodiad 4.

[3] Ychydig yn is na'r targed oherwydd anawsterau yn cael mynediad i bobl ifanc ar Ynys Môn. O'r 96 a gyfranogodd mewn grwpiau ffocws, gellid categoreiddio 34 fel 'defnyddwyr' eu gwefan CLIC leol a 62 fel pobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr.

Roedd yr arolwg yn fyw am gyfnod o saith wythnos (gan ddod i ben ganol nos ar 8fed Gorffennaf 2012). Yn ystod cyfnod yr arolwg, derbyniwyd cyfanswm o 622 o ymatebion[4] - gan drechu'r nifer targed o 500 o ymatebion. O'r rhain, gellid categoreiddio 549 fel 'defnyddwyr' CLIC Ar-lein a 73 fel 'pobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr'.

Defnyddiwyd yr ymagwedd hon oherwydd nad oedd yn bosibl cysylltu â defnyddwyr cofrestredig yn uniongyrchol na'u dethol i gyfranogi mewn arolwg[5] nac, gyda'r adnoddau a oedd ar gael, nodi ac arolygu sampl cynrychioliadol o bobl ifanc a fyddai'n cynnwys defnyddwyr a rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr fel ei gilydd. Mae'r ymateb yn rhoi rhai cyfyngiadau ar y gallu i'w ddadansoddi a'i ddehongli, sef:

- Mae'r ymatebwyr sy'n ddefnyddwyr yn gyfran fach yn unig o'r rheiny sy'n debygol o fod wedi bod yn ymwelwyr unigryw yn ystod y cyfnod roedd yr arolwg ar agor. Amcangyfrifir bod hyn yn 2.6%[6]. Mae hyn yn golygu bod cyfwng o ±3.9% ar gyfer lefel hyder o 95%, sy'n fawr.
- Er nad yw bandiau oedran y boblogaeth yn uniongyrchol gymaradwy â'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr arolwg, mae'n awgrymu bod cyfran uwch o ymatebion wedi'u derbyn gan bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed na'r disgwyl.
- Mae'r ymateb gan bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr yn rhy fach i'w ddadansoddi'n ystadegol.

**Tabl 1.3 Cymhariaeth amcangyfrifon y boblogaeth yn ôl oedran ymatebwyr**

| Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (2010) | | | Ymatebion Arolwg CLIC | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | | Nifer | % |
| 10 - 14 oed | 176,400 | 23% | Hyd at 13 oed | 107 | 17% |
| 15 - 19 oed | 198,600 | 26% | 14 - 19 oed | 279 | 46% |

[4] Derbyniwyd 494 o ymatebion drwy'r arolwg defnyddwyr a 128 drwy'r arolwg cyfunol ar gyfer defnyddwyr a rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr.

[5] Mae hyn oherwydd na ofynnwyd iddynt am eu caniatâd i ddarparu eu manylion cyswllt at y diben hwn.

[6] Mae hyn wedi'i seilio ar 549 o ymatebion i'r arolwg defnyddwyr a nifer amcangyfrifedig o ymwelwyr unigryw i CLIC Online o 20,717 – sef nifer cyfartalog yr ymwelwyr unigryw y mis ar gyfer Ionawr – Mawrth 2012.

| Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (2010) | | | Ymatebion Arolwg CLIC | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | | Nifer | % |
| 20 - 24 oed | 213,300 | 28% | 20 - 25 oed | 102 | 17% |
| 25 - 29 oed | 181,300 | 24% | Dros 25 oed | 124 | 20% |
| Cyfanswm | 769,600 | 100% | Cyfanswm[7] | 612 | 100% |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn Nomis 2010, Ymatebion Arolwg Gwerthuso CLIC*

O ganlyniad, mae hyn yn golygu bod angen trin canlyniadau'r arolwg a'r modd y cânt eu dehongli'n ofalus iawn er eu bod yn cynrychioli barn niferoedd mawr o ddefnyddwyr.

### 1.3 Yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- **Pennod 2** - sy'n disgrifio'r contract cyfredol i ddarparu system wybodaeth genedlaethol i bobl ifanc, y mewnbynnau hyd yma i gyflawni'r contract, a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a'r hyn y gellir ei ddisgwyl erbyn diwedd y contract.
- **Pennod 3** - sy'n cyflwyno dadansoddiad o wybodaeth reoli sydd wedi'i darparu gan dîm CLIC Ar-lein ProMo Cymru i asesu allbynnau a deilliannau CLIC Ar-lein o ran: defnydd o'r gwasanaeth, buddiolwyr, a'i gyrraedd. Mae hefyd yn cynnwys data cymharol o ddwy wefan arall sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc.
- **Pennod 4** - sy'n darparu dadansoddiad o farn rhanddeiliaid ac ymarferwyr ynghylch datblygu, gweithredu a gwerth ychwanegol CLIC Ar-lein.
- **Pennod 5** – sy'n darparu dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau CLIC Ar-lein ar sail canfyddiadau'r arolwg ar-lein ymysg pobl ifanc a'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan y bobl ifanc yn rhan o'r astudiaethau achos ALlau.
- **Pennod 6** – sy'n darparu dadansoddiad o ddeilliannau a chyflawniadau CLIC.

[7] Noder: ni nododd 10 ymatebydd eu hoedran.

# 2 Contract a Pherfformiad CLIC Ar-lein

Mae'r bennod hon yn disgrifio gweithgareddau'r contract cyfredol i ddarparu system wybodaeth genedlaethol i bobl ifanc, costau'r gweithgareddau hyn, yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, a'r hyn y gellir disgwyl iddo gael ei gyflawni erbyn diwedd y contract. Felly, mae'n tynnu ar gyfweliadau gyda rheolwyr y rhaglen a chontractwyr (gyda ProMo, Burning Red a chwmni Ymchwil Arad), deunydd dogfennol am y contract, adroddiad perfformiad gan ProMo (hyd at ddiwedd Mehefin 2012), a data a gwybodaeth reoli ychwanegol a ddarparwyd gan ProMo.

## 2.1 Contract CLIC Ar-lein

### *2.1.1 Tarddiad y contract cyfredol*

Datblygwyd CLIC Ar-lein yn y lle cyntaf fel adnodd gwybodaeth ar y we ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Ffurfiwyd contract gyda Gyrfa Cymru i ddarparu hyn o 2004 i 2008. Yn bennaf, set sefydlog ydoedd o dudalennau gwe yn Gymraeg a Saesneg ar ystod o bynciau a gafodd eu diweddaru'n ganolog. Nifer cymharol fach o ddefnyddwyr oedd i'r wefan (800 o ymwelwyr y mis).[8] Amlygodd adolygiad gan Estyn bod ymwybyddiaeth gymharol isel am CLIC Ar-lein ymysg pobl ifanc, er bod yr wybodaeth yn hawdd i'w chyrchu, nid oedd yr wybodaeth yn cael ei diweddaru'n ddigonol na'i hansawdd ei sicrhau, nid oedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys ddigon wrth ei datblygu ac na allent roi adborth, ac nid oedd y gwaith yn ategu nac yn digwydd ochr yn ochr â phartneriaethau pobl ifanc ar draws Cymru.[9]

Lluniwyd y contract cyfredol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a sicrhau bod yr adnodd gwybodaeth yn ddeniadol i'r defnyddwyr targed allweddol ac yn ateb eu hanghenion.

Llywiwyd y contract hefyd gan:

[8] Dogfen gronoleg ProMo CLIC.

[9] Estyn - Adolygiad o reolaeth a chyflwyniad y prosiect gwybodaeth a chyngor cenedlaethol – CLIC Ar-lein gan Gymdeithas Gyrfa Cymru (Mai 2007).

- Y gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu, sicrhau neu gyfranogi mewn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid sy'n annog, yn galluogi ac yn cynorthwyo pobl ifanc 11-25 oed i gyfranogi'n effeithiol mewn addysg a hyfforddiant, manteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth a chyfranogi ym mywyd eu cymunedau.[10]
- Penderfyniad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail ei holl bolisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yn 2004 (a gafodd ei gynnwys yn llawn mewn cyfraith ddomestig yn 2011).[11] Yn arbennig, mae CCUHP yn pwysleisio pwysigrwydd y canlynol:

  *“Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, ac i’w barn gael ei hystyried.”* (Erthygl 12)[12]

  *“Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth onid yw’r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill”* (Erthygl 13)[13]

  *“Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol”* (Erthygl 17)[14]

- Y rôl y gallai gwybodaeth ei chwarae wrth helpu pobl ifanc ar wahanol gyfnodau yn eu bywydau i fynd i'r afael â materion personol sy'n gysylltiedig â'u hiechyd, eu dysgu, eu camau cyntaf tuag at gyflogaeth, a'u bywyd cymdeithasol, er enghraifft. Mae pobl ifanc yng Nghymru yn wynebu nifer o heriau gyda chyfrannau cymharol uchel (bron 15%) yn byw mewn tlodi o gymharu â rhannau eraill o'r DU;[15] cyfrannau sylweddol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET),

---

[10] Cyfarwyddyd o dan Adran 123(2) Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

[11] Plant yng Nghymru: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents/enacted

[12]http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/documents/Summary%20UNCRC%20articles%20leaflet_Cy.pdf, tud 1

[13]http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/documents/Summary%20UNCRC%20articles%20leaflet_Cy.pdf, tud 1

[14]http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/documents/Summary%20UNCRC%20articles%20leaflet_Cy.pdf, tud 1

[15] Achub y Plant, y DU: http://www.savethechildren.org.uk/where-we-work/united-kingdom/wales

a diweithdra ieuenctid yn cynyddu'n sylweddol.[16] Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET) fel y cyhoeddwyd yn y ddogfen *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (2009).[17]

- Tystiolaeth y gallai dysgu gan gymheiriaid i bobl ifanc fod yr un mor ddylanwadol i lawer â'r dysgu a gânt gan eu teuluoedd ac athrawon, er enghraifft.
- Profiad yng Nghaerdydd a rhai ardaloedd eraill lle roedd gwefannau gwybodaeth a chyngor wedi'u datblygu i ymgysylltu pobl ifanc yn y broses.

O ganlyniad rhagwelwyd y dylai CLIC Ar-lein:

- Gael ei arwain gan bobl ifanc ar lefelau cenedlaethol a lleol;
- Cael ei deilwra yn ôl anghenion pobl ifanc yng Nghymru yn eu dewis iaith;
- Defnyddio cyfrwng sy'n berthnasol iddyn nhw;
- Darparu platfform ar gyfer rhannu gwybodaeth a chefnogaeth ymysg cymheiriaid;
- Cysylltu â gwefannau lleol a'u cefnogi i ddarparu gwybodaeth o dan frandio lleol y dylai fod disgwyl i awdurdodau lleol/PPPhI eu darparu er mwyn bodoli eu rhwymedigaethau i bobl ifanc;
- Darparu templed cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth fel bod gan wefannau lleol lefel gyson o gynnwys a’r gallu i fod yn siop un cam ar gyfer gwybodaeth i bobl ifanc 11-25 oed a’r rhai sy'n gweithio gyda nhw yn y sectorau statudol a gwirfoddol; a,
- Thynnu gwasanaethau'r sector statudol a gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc ynghyd wrth weithio ar CLIC (yn genedlaethol ac yn lleol).

O ganlyniad, prif ddiben CLIC Ar-lein yw:

---

[16] Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn amcangyfrif bod 12.0 y cant o bobl ifanc 16 i 18 oed a 22.2 y cant o bobl ifanc 19 i 24 oed yng Nghymru yn NEET ddiwedd 2011. Llywodraeth Cymru, (2012), 'Pobl Ifanc heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET), Y flwyddyn hyd at 30 Mehefin 2012'. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/121010/;jsessionid=76AF4F9ECE589E97E492E514D1F1074E?lang=en

[17] NSPCC (2011), Grŵp Polisi Plant Cyrff Anllywodraethol Cymru Gyfan - Paur Briffio Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011, Pobl Ifanc Heb Fod mewn Addysg na Hyfforddiant

*“darparu gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i bobl ifanc ar draws Cymru mewn ffurfiau hygyrch pan fydd eu hangen arnynt [....] sy'n hanfodol i'w helpu i fod mewn sefyllfa i wneud dewisiadau gwybodus am eu bywydau.”* [18]

### *2.1.2 Siâp y contract cyfredol*

Roedd pum rhan i'r contract a oedd yn destun proses dendro ym 2008:

**LOT 1 – Cynhyrchu, Diweddaru a Darparu gwybodaeth ar gyfer Pobl Ifanc 11-25 oed**

Hanfon hyn, yn y bôn, yw darparu gwybodaeth i bobl ifanc 11-25 oed ar wefan genedlaethol CLIC Ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu pobl ifanc yn y broses o gynhyrchu a diweddaru gwybodaeth genedlaethol a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn berthnasol i'r grŵp oedran ac yn gyfoes. Mae'r tîm sy'n gwneud hyn hefyd yn cymedroli'r cynnwys a gyflwynir gan bobl ifanc ac yn rheoli'r broses gofrestru. Maent hefyd yn galluogi pobl ifanc i gyfranogi mewn grŵp golygyddol cenedlaethol sy'n cynghori ar y cynnwys cenedlaethol ac ar ddylunio’r wefan.

**LOT 2 – Gweithio gyda Phartneriaid a'u Cefnogi**

Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chynrychiolwyr Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) neu staff y gwasanaethau cymorth ieuenctid yn ardal pob awdurdod lleol i ddatblygu templed sy'n cynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu'r brand, y cynnwys a dylunio’r wefan. Rhoddir cymorth i staff gwefannau lleol i boblogi'r templed, datblygu a lansio'r wefan leol a'i rheoli'n effeithiol. Mae hefyd yn cynnwys adeiladu cymhwysedd staff lleol i ddatblygu a defnyddio'r wefan leol a chodi ymwybyddiaeth amdani. Datblygwyd hyfforddiant i lefel cymhwyster gyda sefydliad dyfarnu a darparwr hyfforddiant (Agored a Choleg yr YMCA) ar gyfer ymarferwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid sy'n gweithio ym maes gwybodaeth i bobl ifanc. Cymwysterau yw'r rhain mewn gwasanaethau gwybodaeth ar-lein ar gyfer pobl ifanc ar lefelau 1-3 a chwrs 'Y

---

[18] Manyleb ar gyfer Gwerthuso CLIC, y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ifanc 11-25 oed yng Nghymru

Intro' ar gyfer y rhai nad oes angen hyfforddiant mor fanwl arnynt. Mae safonau Gwybodaeth Ieuenctid Cenedlaethol wedi'u llunio ac mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn yr hyfforddiant.

**LOT 3 - Cynnwys Pobl Ifanc a Gweithio gyda Nhw**

Mae hyn yn cynnwys adeiladu sgiliau a chymwyseddau pobl ifanc sy'n cyfranogi mewn grwpiau golygyddol sy'n ymwneud â datblygu gwefannau cenedlaethol a lleol a chydnabod y sgiliau a fagwyd. Mae gweithgareddau'n cynnwys cyrsiau penwythnos preswyl ar gyfer grwpiau o hyd at 40 o bobl ifanc a dynnwyd at ei gilydd o bob rhan o Gymru i drafod agweddau ar ddylunio a chynnwys CLIC Ar-lein. Caiff sgiliau meddal a fegir yn ystod penwythnosau preswyl eu profi gan ddefnyddio 'Dangos Llwyddiant'.[19] Gall sgiliau eraill a enillir gan bobl ifanc sy'n cyfranogi mewn grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol, sy'n helpu ProMo a staff lleol i ddylunio'r gwefannau a theilwra'r cynnwys yn ôl anghenion pobl ifanc, gael eu hachredu'n ffurfiol drwy gwblhau unedau cymwysterau Agored (UACau). Mae'r rhain yn cynnwys dyfarniadau ar gyfer ysgrifennu creadigol, ffotograffiaeth a chynhyrchu straeon fideo ar lefel 1. Mae rhai pobl ifanc hefyd wedi dilyn y cwrs lefel 1 ar wasanaethau gwybodaeth ar-lein ac wedi defnyddio'r profiad yn rhan o'u dyfarniadau Dug Caeredin.

**LOT 4 – Defnyddio Technoleg Newydd**

Mae hyn yn cynnwys datblygu ffyrdd newydd i ddefnyddwyr gyrchu'r gwefannau a'r wybodaeth sydd ar gael arnynt i adlewyrchu datblygiadau yn y cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ffonau symudol. Yn ogystal â hyrwyddo'r gwefannau drwy ddigwyddiadau (gwobrau CLIC, nawdd) a deunyddiau marchnata (cylchgrawn), mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi'u datblygu i alluogi mynediad drwy'r dulliau cyfnewidiol a ddefnyddir gan bobl ifanc i gyrchu gwybodaeth.

**LOT 5 – Canolfan Gydlynu CLIC ('Hwb')**

[19] http://demonstratingsuccess.co.uk/

Mae hyn yn cynnwys cydlynu'r gwaith ar bob lot er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd a gellir defnyddio adroddiadau cyfansawdd i'r cleient ynghylch cynnydd ar y contract.

### *2.1.3 Dyfarnu'r Contract*

Enillodd ProMo bob lot gyda'i isgontractwyr dynodedig: Burning Red i ddarparu cymorth technegol ar gyfer datblygu'r wefan genedlaethol a'r templed ar gyfer gwefannau lleol ac ymatebion i dechnoleg newydd, a chwmni Ymchwil Arad i ymgymryd ag ymchwil i ategu gweithredu a gwerthuso parhaus. O ganlyniad mae ProMo wedi darparu'r gwasanaeth gofynnol fel pecyn felly nid yw'r gweithgareddau o reidrwydd wedi'u gwahanu a'u cyflawni gan grwpiau staff ar wahân.

Cafodd y contract pedair blynedd o fis Medi 2008 estyniad o chwe mis fel ei fod erbyn hyn yn dod i ben ddiwedd Chwefror 2013. Roedd hyn er mwyn caniatáu adolygiad annibynnol llawn o CLIC Ar-lein er mwyn darparu sail dystiolaeth gadarn i lywio trafodaethau ynghylch cyfeiriad gwasanaeth gwybodaeth a chyngor cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc.

## 2.2 Mewnbynnau

Hyd at ddiwedd mis Mawrth eleni, mae ychydig dros £2 filiwn wedi'i wario ar weithgareddau'r contract. Mae hyn yn cyfateb yn fras i £1.02 miliwn ar staff darparu uniongyrchol, £416,500 ar reoli a gorbenion heblaw staff mewn perthynas â darparu, £209,500 ar farchnata a hyrwyddo uniongyrchol, a £360,000 ar wasanaethau gan is-gontractwyr.

Mae gwariant pob blwyddyn yn adlewyrchu graddau a natur y gwaith a wnaed i ddatblygu CLIC Ar-lein (gweler Tabl 2.2 isod). Yn y flwyddyn gyntaf canolbwyntiodd y gwaith ar ailddatblygu'r wefan genedlaethol *'fel bod cynnyrch i'w werthu i PPPhI' (cyfweliad ProMo)* ac i ddechrau ymgysylltu pobl ifanc yn y broses hon. Ar yr adeg hon dysgwyd hefyd gan ymchwil gyfoes ar ddiwylliant ieuenctid ar y we a defnydd pobl ifanc o wybodaeth a chyngor i lywio'r gwaith ail-ddylunio. Yn 2009, ehangwyd ymgysylltiad pobl ifanc a

dechreuodd gwaith ar ddenu gwefannau lleol. Cynhaliwyd y penwythnos preswyl cyntaf ar gyfer grŵp o bobl ifanc o bob rhan o Gymru ym mis Mehefin 2009. Lansiwyd y wefan leol gyntaf ym mis Hydref 2009. Yn 2010 dechreuodd gwaith ar ddatblygu hyfforddiant achrededig (roedd yr hyfforddiant achrededig cyntaf ar gael ym mis Hydref 2010).

**Tabl 2.1 Gwariant ar CLIC Ar-lein y flwyddyn**

| **Cyfnod** | **£'000** |
|---|---|
| Medi 2008-Mawrth 2009 | 241 |
| Ebrill 2009-Mawrth 2010 | 499 |
| Ebrill 2010-Mawrth 2011 | 575 |
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | 728 |
| Ebrill 2012-Chwefror 2013 | 674 (amcangyfrif) |

*Ffynhonnell: ProMo*

Amcangyfrifir dosraniad y costau hyn i'r gwahanol weithgareddau (fel y diffinnir gan y lotiau) dros gyfnod y contract yn Nhabl 2.3 isod.[20]

**Tabl 2.2 Dosraniad y costau i'r gweithgareddau (£'000) 2008-12**

| **Math o gost** | **Lot 1 Gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc** | **Lot 2 Gweithio gyda phartneriaid** | **Lot 3 Gweithio gyda phobl ifanc** | **Lot 4 Defnyddio technoleg newydd** | **Lot 5 Cydlynu** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 173.1 | 346.4 | 213.9 | 40.7 | 244.5 |
| Gorbenion staff a gorbenion eraill | 53.1 | 80.6 | 64.5 | 12.4 | 77.9 |
| Marchnata | | | | 209.5 | |
| Ymgynghori | 7.7 | 15.3 | 9.5 | 395.3 | 10.8 |
| Costau'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol | | 25.8 | 65.5 | | |

[20] Mae hyn yn cymryd amcangyfrifon o faint o amser mae pob aelod o staff, gan gynnwys staff rheoli a staff cynnal, a chontractwyr, wedi'i dreulio ar bob gweithgaredd dros gyfnod y contract hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012.

| Math o gost | Lot 1 Gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc | Lot 2 Gweithio gyda phartneriaid | Lot 3 Gweithio gyda phobl ifanc | Lot 4 Defnyddio technoleg newydd | Lot 5 Cydlynu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **233.9** | **468.1** | **353.4** | **657.9** | **333.2** |

Yn ogystal â chyllid y contract, pan fydd ardaloedd awdurdodau lleol yn cytuno i ddatblygu gwefan leol wedi'i llwyfannu gan CLIC Ar-lein, mae disgwyl iddynt gytuno y byddant yn darparu gwybodaeth leol ar gyfer y templed, yn recriwtio ac yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu grŵp golygyddol lleol, ac yn darparu adnoddau ar gyfer diweddaru a chynnal a chadw’r wefan leol. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd staff yn yr awdurdod lleol neu bartner sy'n gyfrifol am wybodaeth a chyngor ieuenctid sy'n gwneud hyn. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol wedi contractio ProMo i wneud rhywfaint o'r gwaith hwn neu'r cyfan.

## 2.3 Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Cytunwyd i allbynnau, deilliannau a thargedau mesuradwy ar gyfer pob lot ar ôl i'r contract ddechrau, ar sail asesiad o ofynion y contract a'r GR y gallai ProMo ei chasglu. Sefydlwyd adroddiadau monitro yn erbyn set fwy cyfyngedig o'r dangosyddion a'r targedau yn gynnar yn 2011 a'u cytuno gyda rheolwr y contract i ddarparu dull mwy effeithiol o fonitro cynnydd. Er bod rhai targedau wedi'u hailosod o ganlyniad i gyd-drafod, yr adroddiadau chwarterol hyn sy'n dangos cynnydd yn erbyn targedau a chyflawniadau'r contract.

### *2.3.1 Allbynnau a deilliannau*

Mae Tabl 2.3 isod yn darparu trosolwg o gynnydd ac yn darparu'n fras y gweithgareddau allweddol, y cyflawniadau hyd yma a'r targed a osodwyd (ar gyfer y gweithgareddau hynny roedd targedau ar eu cyfer).

**Tabl 2.3 Trosolwg o gynnydd CLIC Ar-lein 2008 hyd at 30 Mehefin 2012**

| Awdurdod Lleol | Cytundeb gwasanaeth | Grŵp golygyddol[21] | Gwefan CLIC leol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | ✓ | ✓ | ✓ 2011 |
| Blaenau Gwent | ✓ | ✓ | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | ✓ | ✓ | ✓ 2011 |
| Caerffili | ✓ | | ✓ 2012 |
| Caerdydd | ✓ | ✓ | ✓ 2009 |
| Sir Gaerfyrddin | ✓ | | ✓ 2011 |
| Ceredigion | | | |
| Conwy | ✓ | ✓ | ✓ 2012 |
| Sir Ddinbych | ✓ | | |
| Sir y Fflint | ✓ | ✓ | v 2010 |
| Gwynedd | | ✓ | |
| Merthyr Tudful | ✓ | ✓ | ✓ 2012 |
| Sir Fynwy | ✓ | | |
| Castell-nedd Port Talbot | ✓ | ✓ | |
| Casnewydd | ✓ | ✓ | ✓ 2010 |
| Sir Benfro | ✓ | | |
| Powys | ✓ | | ✓ 2012 |
| Rhondda Cynon Taf | ✓ | ✓ | ✓ 2010 |
| Abertawe | | | ✓ 2010 |
| Tor-faen | ✓ | ✓ | |
| Bro Morgannwg | ✓ | ✓ | ✓ 2010 |
| Wrecsam | ✓ | ✓ | ✓ 2011 |

[21] O leiaf bum aelod

Error! Reference source not found. **Gweithgareddau a chyflawniadau**

| Lot | Gweithgareddau | Cyflawniadau (hyd at 30 June 2012)[22] | Targedau |
|---|---|---|---|
| **LOT 1 – cynhyrchu, diweddaru a darparu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed** | Cynnal a chadw gwybodaeth a chysylltiadau'r wefan<br><br>Creu newyddion, digwyddiadau a llyfrgell luniau/fideos | Safle datblygu newydd CLIC wedi'i lansio ym mis Rhagfyr 2008; lansiwyd y wefan newydd ym mis Hydref 2009 | |
| | Creu grŵp golygyddol cenedlaethol gweithgar i gynnig sylwadau ar y dylunio a’r cynnwys presennol ac arfaethedig a drafftio cynnwys newydd | Grŵp golygyddol cenedlaethol yn weithredol ers mis Mehefin 2009; 103 o bobl ifanc wedi’u hymgysylltu ynddo | |
| | Ymgysylltiad pobl ifanc o bob oedran gan gynnwys pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn anodd eu cyrraedd i gynnig sylwadau ar y dylunio a'r cynnwys presennol | 305 o bobl ifanc wedi'u hymgysylltu[23]<br><br>35 o bobl ifanc o grwpiau penodol wedi’u hymgysylltwyd (pobl fyddar; pobl lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LHDT) | 300 o bobl ifanc i'w cynnwys wrth ddatblygu dylunio’r wefan a chynnwys yr wybodaeth erbyn mis Awst 2012<br><br>O leiaf 100 o'r bobl ifanc yn rhai 'anodd eu cyrraedd’ |
| **LOT 2 – gweithio gyda phartneriaid a'u cefnogi** | Gweithio gydag ardaloedd awdurdodau lleol i ddatblygu gwefannau lleol gan ddefnyddio templed | Cytundebau lefel gwasanaeth gyda 19 o ardaloedd awdurdodau lleol[24] | 17 o gytundebau lefel gwasanaeth i'w llofnodi erbyn mis Medi 2012 |
| | Gwefannau lleol wedi'u lansio ac ar | Gwefannau lleol ar waith mewn 15 o | 17 gwefan leol i fod ar waith erbyn mis |

[22] Mae hyn yn tynnu ar yr adroddiad monitro Chwarterol gan nodi'r sefyllfa ddiwedd Mehefin 2012 oni nodir fel arall.

[23] Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys y rhai a ymgysylltwyd yn y grŵp golygyddol cenedlaethol (103) a rhai a gymerodd ran mewn cynhadledd (25) ac arolwg (47).

[24] Nid oes cytundeb gydag un o'r awdurdodau lleol gyda'r gwefannau lleol cynharach (Abertawe) ac mae Sir Benfro wedi cytuno i weithio gyda CLIC a sefydlu grŵp golygyddol lleol tra'n parhau i ddatblygu ei gwefan leol ei hun.

| Lot | Gweithgareddau | Cyflawniadau (hyd at 30 June 2012)[22] | Targedau |
|---|---|---|---|
| | waith | awdurdodau lleol<br><br>Grwpiau golygyddol lleol yn gweithredu mewn 14 o ardaloedd awdurdodau lleol[25] | Chwefror 2012<br><br>17 o grwpiau golygyddol lleol i fod yn gweithredu erbyn mis Chwefror 2012 |
| | Hyfforddiant a chymorth i weithwyr gwybodaeth ieuenctid<br><br>Datblygu a darparu hyfforddiant achrededig ar gyfer gwaith gwybodaeth ieuenctid | Hyfforddiant achrededig ar gael i weithwyr proffesiynol erbyn mis Mehefin 2011<br><br>61 o ymarferwyr wedi cyflawni hyfforddiant achrededig [26] | 162 o ymarferwyr i fod wedi cyflawni hyfforddiant achrededig erbyn mis Medi 2012 |
| | Datblygu safonau gwybodaeth ac ansawdd cenedlaethol | Lansiwyd safonau ansawdd ym mis Ebrill 2012 gan y grŵp llywio cenedlaethol | |
| **Lot 3 - Cynnwys pobl ifanc 11-25 oed a gweithio gyda nhw** | Trefnwyd cyrsiau penwythnos preswyl i bobl ifanc gael dod ynghyd a chyfrannu at ddatblygu CLIC Ar-lein | Sefydlwyd rhith-grŵp cynllunio ar gyfer cynllunio'r cyrsiau penwythnos preswyl<br><br>8 cwrs penwythnos preswyl wedi'u cynnal gyda 182 o gyfranogwyr (103 o gyfranogwyr unigryw); grŵp craidd o 18 o bobl ifanc | 11 cwrs penwythnos preswyl i'w cynnal erbyn mis Medi 2012 gyda grŵp craidd o 20 |

[25] Er bod gan ddau, sef Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, lai na phump o aelodau. Mae'n bosibl nad yw hyn yn cynrychioli'r union aelodaeth.

[26] Roedd yr wybodaeth hon yn wahanol i'r GR a ddarparwyd gan dîm CLIC ar gyfer y dadansoddiad ym mhennod 3, a nododd fod 46 o ymarferwyr wedi cyflawni hyfforddiant achrededig.

| Lot | Gweithgareddau | Cyflawniadau (hyd at 30 June 2012)[22] | Targedau |
|---|---|---|---|
| | Annog pobl ifanc i ennill sgiliau mewn ysgrifennu creadigol, golygu, gwneud ffilmiau ayyb<br><br>Datblygu a chymhwyso profion / cymwysterau achrededig | 464 o bobl ifanc wedi'u hymgysylltu<br><br>Hyfforddiant achrededig wedi'i achredu a'i nodi gydag Agored a Choleg yr YMCA ym mis Hydref 2010<br><br>64 o bobl ifanc wedi cyflawni achrediad sgiliau[27]<br><br>105 o bobl ifanc wedi dangos gwelliant mewn sgiliau meddal | 700 o bobl ifanc i fod wedi'u hymgysylltu mewn gweithgaredd (hyfforddiant, sesiynau i ystyried dylunio a chynnwys) gan gynnwys 200 o bobl ifanc anodd eu cyrraedd, erbyn mis Medi 2012<br><br>155 o bobl ifanc i gyflawni achrediad ar gyfer sgiliau a enillwyd erbyn mis Medi 2012<br><br>200 o bobl ifanc sy'n cyfranogi i fod wedi gwella'u sgiliau meddal (gan fesur hyn gyda'r teclyn Dangos Llwyddiant) erbyn mis Medi 2012 |
| **Lot 4 - defnyddio technoleg newydd i ymgysylltu pobl ifanc** | Datblygu nodweddion rhyngweithiol (sylwadau, storïau, chwarae CLIC) | 30,652 o ymweliadau y mis (Ebrill i Fehefin 2012)[28]<br><br>24,314 o ymweliadau y mis (Ebrill i Fehefin 2012) | 30,000 o ymweliadau y mis erbyn mis Medi 2012 |
| | Galluogwyd defnyddwyr cofrestredig i gynnig sylwadau a phostio storïau, lluniau a fideos<br><br>Cymedroli deunydd defnyddwyr | 628 o ddefnyddwyr cofrestredig newydd (Ionawr – Mawrth 2012)<br><br>850 o erthyglau wedi'u llwytho, 1,316 o sylwadau wedi'u cynnig (Ionawr – Mawrth 2012)<br><br>Argaeledd drwy'r cyfryngau | |

[27] Mae hyn yn anghyson â'r GR a ddarparwyd gan dîm CLIC ar gyfer y dadansoddiad ym mhennod 3, a nododd fod 59 o bobl ifanc wedi cyflawni achrediad sgiliau. Mae pobl ifanc eraill yn gweithio tuag at achrediad..

[28] Ymweliadau â gwefannau cenedlaethol a lleol yw'r rhain; ni ellir priodoli hyn i gyd i'r contractwr am fod rhai o'r gwefannau lleol yn bodoli o'r blaen ac roedd ganddynt rai defnyddwyr fel oedd gan wefan CLIC.

| Lot | Gweithgareddau | Cyflawniadau (hyd at 30 June 2012)[22] | Targedau |
|---|---|---|---|
| | | cymdeithasol | |
| **Lot 5 - cydlynu CLIC Ar-lein** | Marchnata CLIC Ar-lein | Datblygu deunyddiau gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4 sy'n mynnu defnyddio CLIC Ar-lein (Mehefin 2011)<br><br>Rhwydwaith Gweithwyr Gwybodaeth Ieuenctid wedi'i gefnogi gyda chynhadledd ieuenctid<br><br>Cylchgrawn CLICzine wedi'i gyhoeddi ers mis Tachwedd (chwe rhifyn) | |
| | Monitro ac adrodd i Lywodraeth Cymru<br><br>Ymchwil i wella gweithredu a monitro perfformiad | Ymchwil i weithio gyda phartneriaid lleol a grwpiau golygyddol lleol | |

Mae'r tabl yn dangos y canlynol:

- Ers ail-lansio CLIC Ar-lein, mae nifer yr ymweliadau bob mis i'r gwefannau cenedlaethol a lleol wedi cynyddu o ryw 8,800 i ryw 30,000.[29]
- Mae pymtheg gwefan wedi'u lansio gyda phump arall ar y gweill;
- Ymgysylltwyd â mwy na 300 o bobl ifanc mewn rhyw ffordd wrth ddatblygu'r wefan genedlaethol gyda mwy na 350 wedi'u hymgysylltu mewn grwpiau lleol.
- Mae grŵp golygyddol cenedlaethol wedi ffynnu ac mae grwpiau golygyddol lleol wedi'u sefydlu mewn 14 o ardaloedd; mae mwy na 100 o bobl ifanc wedi cyfrannu at y grŵp golygyddol cenedlaethol.

[29] Ar sail cyfartaleddau'r tri mis rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2011 a mis Ebrill a mis Mehefin 2012.

- Mae cymwysterau newydd wedi'u datblygu gyda sefydliad dyfarnu/darparwr, Agored Cymru a Choleg yr YMCA; mae mwy na 50 o ymarferwyr wedi ennill cymwysterau ar lefelau 1-3 mewn gwasanaethau gwybodaeth ar-lein i bobl ifanc.
- Mae mwy na chant o bobl ifanc wedi mynychu o leiaf un o wyth cwrs penwythnos preswyl.
- Mae mwy na 60 o bobl ifanc wedi ennill dyfarniad i gydnabod y dysgu a gawsant yn sgil cyfranogi yn y grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol, fel mewn ysgrifennu creadigol, adrodd storïau ar fideo a ffotograffiaeth.

Nid yw targedau ar gyfer gwefannau lleol, cyfranogiad pobl ifanc, a chydnabod hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ac ymarferwyr wedi'u cyrraedd eto.

### *2.3.2 Ffactorau sy'n effeithio ar gynnydd*

Mae staff ProMo yn credu mai'r hyn sydd wedi cynyddu defnydd o CLIC Ar-lein yn sylweddol yw ymgysylltiad pobl ifanc wrth ei ail-ddylunio a'i ddatblygu dros y pedair blynedd diwethaf. *'Y prif newid yw cynnwys pobl ifanc'* a *'gwneud y wefan yn rhyngweithiol ac ar gael mewn ffyrdd sy'n cyfateb i'r hyn mae pobl ifanc yn dweud wrthym maen nhw am ei gael' (aelod o staff ProMo)*. Mae ProMo wedi adrodd heriau wrth gyflawni eu nodau a'u targedau.

Mewn perthynas â gweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol a'u cefnogi, i ddechrau roedd *'rhywfaint o wrthwynebiad i fod yn gysylltiedig â CLIC oherwydd nad oedd yn frand oedd yn werth bod yn gysylltiedig ag ef'* ac *'nid oedd unrhyw gymhelliad i weithio gyda ni' (staff ProMo).* Unwaith i'r gwrthwynebiad gael ei oresgyn ac ar ôl iddyn nhw weld y cynnyrch, nid yw awdurdodau lleol wedi bod yn barod bob amser i gymryd rhan, hyd yn oed os oedd yr awydd yna. Mae cynnydd wedi dibynnu ar amseru, cyfle a'r gallu i ddarparu gwybodaeth leol yn y ffurf ofynnol i boblogi'r templed. Hyd yn oed gyda chefnogaeth a rhywfaint o hyblygrwydd, mae'r cyflymder wedi'i bennu gan ffactorau lleol. Er enghraifft, mae sawl awdurdod lleol wedi newid eu staffio a'u hadnoddau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid sydd wedi golygu cynnydd ysbeidiol tra bod rhai wedi cael anawsterau'n codi gwybodaeth o'u systemau gwybodaeth a chyngor cyfredol ar ffurf TGCh a phapur i boblogi

templed y wefan leol. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol wedi talu ProMo i ymgymryd â'r gwaith hwn ar eu rhan.

Er bod gwaith wedi mynd yn ei flaen yn datblygu'r safonau ansawdd gwybodaeth cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth ieuenctid, mae ProMo yn cydnabod bod eu ffocws nhw wedi bod ar ymgysylltu'r partneriaid yn ardaloedd yr awdurdodau lleol. Maent yn cydnabod eu bod wedi gwneud llai o waith gyda phartneriaid lleol (fel swyddogion polisi mewn rhannau o Lywodraeth Cymru y mae angen iddynt gyfathrebu â phobl ifanc, sefydliadau ac asiantaethau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc yng Nghymru, ac elusennau sy'n gweithio gyda phobl ifanc). Mae hyn oherwydd eu bod wedi blaenoriaethu datblygu a lansio gwefannau CLIC Ar-lein yn lleol ac wedi wynebu anawsterau'n llunio cytundebau lleol i symud y rhain yn eu blaen. Maent hefyd yn cydnabod nad ydynt wedi gwneud llawer o gynnydd i sicrhau bod ysgolion yn bartneriaid wrth hyrwyddo CLIC Ar-lein. Mae'r deunyddiau ar gyfer gwersi ABCh a ddatblygwyd ganddynt yn ddechrau oherwydd eu bod yn cyflwyno'r defnydd o CLIC Ar-lein gyda gofyniad dysgu cwricwlaidd.

Yn yr un modd, tra bod gwaith wedi mynd yn ei flaen yn llwyddiannus i ddatblygu cymwysterau wedi'u teilwra ar gyfer ymarferwyr (gan gynnwys gwirfoddolwyr) sy'n gweithio ym maes gwybodaeth ieuenctid, ni allai hyn ddigwydd hyd nes i aelod addas o staff gael ei recriwtio.

Mae ProMo yn credu bod y canlynol wedi cynorthwyo i gyflawni'r allbynnau a'r deilliannau a gyflawnwyd hyd yma:

- Mae'r cyrsiau penwythnos preswyl wedi helpu i recriwtio a chynnal diddordeb aelodau grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol. Mae rhai nad oeddent yn gysylltiedig *‘wedi'u cymell yn fawr i gymryd rhan a hyrwyddo CLIC’* ar ôl bod i ffwrdd tra bod y rhai sy'n gysylltiedig yn tueddu i gael eu cymell a *‘mynd nôl i'w grŵp lleol gyda syniadau ar gyfer gwella a hyrwyddo’ (staff ProMo).*
- Dylai datblygu'r hyfforddiant ymarferwyr gydag Agored Cymru roi sicrwydd i'w argaeledd a'i ddatblygiad yn y dyfodol, tra bod ymgysylltu Coleg Cymunedol yr YMCA ac Agored i ddarparu unedau i achredu

dysgu pobl ifanc yn darparu dysgu achrededig y gellir ei gronni a'i ddefnyddio i ennill cymwysterau mwy.

- Gwneud cyfraniad ariannol tuag at gostau achredu ymarferwyr i'w helpu i ymgymryd â'r hyfforddiant.
- Marchnata i gynyddu ymwybyddiaeth am frand CLIC ymysg pobl ifanc ac ymarferwyr sydd *'wedi bod yn ofalus wrth ddewis gweithgareddau, digwyddiadau a deunyddiau hyrwyddo i gyrraedd y grwpiau targed' (staff ProMo)*, er nad yw effeithiau gweithgareddau penodol yn hysbys. Defnyddiwyd gweithgareddau hyrwyddo i gyd-fynd ag achosion lansio gwefannau lleol CLIC Ar-lein.

### *2.3.3 Costau Unedau*

Mae cryn dipyn o'r contract wedi'i ddyrannu i weithgareddau datblygu a allai fod yn eitemau gwariant unigol na ddylid eu cynnwys mewn cymariaethau costau unedau o'r costau rhedeg. Mae'n anodd amlygu'r rhain ond nid yw'n bosibl ychwaith cynnwys costau rhedeg ALlau sy'n cynnal y gwefannau lleol. Ar lefel gymharol grai gan gymryd y ffigyrau a grynhoir yn Nhabl 2.2 gellid amcangyfrif:

- Mai'r gost fesul ymweliad i CLIC Ar-lein yw £3.74.[30]
- Mai'r gost o ddatblygu gwefannau lleol ychydig o dan £32,000 er y bydd hyn yn gostwng wrth i'r gwefannau sy'n weddill gael eu lansio.[31]
- Mai'r gost uniongyrchol fesul person ifanc sy'n cyfranogi yw bron £2,700. Cost uniongyrchol y penwythnosau preswyl yw £218 fesul mynychwr.[32]

O gymharu â gwasanaethau gwybodaeth wyneb yn wyneb, sy'n costio £25-50 yr awr, mae'r costau, yn ôl y disgwyl, yn isel.[33] Bydd y costau unedau hyn

[30] Cyfrifir y gwerth hwn gan ddefnyddio cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r gwefannau cenedlaethol a lleol (546,500) ers yr ail-lansio ym mis Hydref 2009 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012, a chyfanswm cost o ychydig dros £2m wedi'i wario ar gontract CLIC hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012.

[31] Mae hyn yn eithrio rhai costau'n gysylltiedig â datblygu gwefannau lleol o fewn ffi Burning Red na ellir ei wahanu.

[32] Tynnir y gost fesul person ifanc sy'n cyfranogi o'r gwariant a ddyrannwyd i Lotiau 1 a 3 ar gontract CLIC wedi'i rhannu wrth nifer y bobl ifanc sy'n cyfranogi (yn mynychu penwythnosau preswyl, yn cyfranogi mewn grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol) a adroddwyd gan ProMo hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012.

[33] Mae hyn wedi'i seilio ar ystod cyflog ymgynghorydd gyrfaoedd gan ychwanegu gorbenion a lefel gyswllt flynyddol ragdybiedig.

hefyd yn gostwng os bydd niferoedd ymwelwyr yn cynyddu ac os didynnir costau datblygu.

## 2.4 Cyflawniadau disgwyliedig

Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r targedau wedi'u cyflawni erbyn mis Chwefror 2013. Er na fydd 22 o wefannau lleol, dylai fod 19 neu 20 a gwefan leol bresennol Sir Benfro felly dylai'r targed diwygiedig o 17 gwefan leol , 17 cytundeb lefel gwasanaeth a 17 grŵp golygyddol cenedlaethol gael ei gyflawni. Mae mwy o ymarferwyr a phobl ifanc wedi cwblhau hyfforddiant ond nid yw hwn wedi'i achredu eto felly dylai'r niferoedd sy'n ennill achrediad dyfu'n sylweddol dros yr ychydig fisoedd nesaf. Fodd bynnag, nid yw'n glir a gaiff y nifer targed sy'n ennill achrediad ei gyflawni o ystyried y niferoedd sydd ar y gweill. Bydd ymgysylltu 700 o bobl ifanc yn dibynnu ar gynnydd gyda grwpiau lleol newydd a phresenoldeb ar y cyrsiau penwythnos preswyl sy'n weddill ymysg pobl ifanc nad ydynt wedi mynychu un eto. Gallai hyn fod ychydig yn brin o'r targed. Er hynny, os yw tueddiadau defnydd presennol yn parhau, dylai nifer yr ymweliadau â CLIC Ar-lein godi'n gyson uwchlaw 30,000.

## 2.5 Pwyntiau allweddol i grynhoi

Am ychydig dros £2 filiwn, mae'r contractwr wedi ail-lansio CLIC Ar-lein, gan gynnwys nodweddion a ffyrdd newydd o'i chyrchu. Yn y broses mae hefyd wedi:

- Gwneud cynnydd sylweddol tuag at sefydlu rhwydwaith o wefannau lleol gweithredol gyda grwpiau golygyddol lleol - mae gan ddwy ran o dair o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru wefan CLIC leol - a gosod safonau ar gyfer gwybodaeth ieuenctid ac uwchsgilio'r gweithlu mewn gwybodaeth ieuenctid drwy'r hyfforddiant a'r achrediad sydd ar gael.
- Ymgysylltu mwy na 300 o bobl ifanc wrth ddatblygu brand, cynnwys a dylunio'r wefan genedlaethol gyda mwy nag 100 wedi'u hymgysylltu ar ryw adeg yn y grŵp golygyddol cenedlaethol.
- Wth wneud hynny, wedi ceisio barn pobl ifanc o ystod o gefndiroedd a diddordebau a chyfranogiad gweithgar nifer bach o ymarferwyr yn

gysylltiedig â datblygiadau cenedlaethol a lleol ym maes gwybodaeth ieuenctid.

- Cynyddu defnydd o CLIC Ar-lein i ryw 30,000 ymweliad y mis.
- Hyrwyddo CLIC i bobl ifanc ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru.

Er nad yw'r cynnydd tuag at y targedau a osodwyd fel y disgwyliwyd, dylai'r rhan fwyaf o'r targedau gael eu cyflawni neu bron eu cyflawni erbyn diwedd diwygiedig y contract ym mis Chwefror 2013.

Ymysg rhai o'r rhesymau dros hyn mae’r:

- Gan etifeddu gwefan flaenorol CLIC Ar-lein, bu'n rhaid i ProMo ganolbwyntio ar y wefan genedlaethol yn y lle cyntaf yn ogystal â sefydlu modd o ymgysylltu pobl ifanc o'r newydd.
- Mewn rhai achosion, cafwyd gwrthwynebiad gan awdurdodau lleol i gyfranogi, a bu'n rhaid goresgyn hyn gyda gwaith ychwanegol i esbonio sut byddai'r wefan leol yn gweithio.
- Anawsterau'n cynnal momentwm gyda dibyniaeth ar adnoddau awdurdodau lleol i gymryd y cam trosiannol.

Yn sgil hyn bu oedi rhag gwneud cynnydd gyda gweithgareddau eraill, fel datblygu cymhwysedd a gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol, i ddatblygu CLIC Ar-lein.


# 3 Gwybodaeth Rheoli Allbynnau a Deilliannau

Mae'r bennod hon yn cyflwyno dadansoddiad o Wybodaeth Rheoli (GR) a ddarparwyd gan ProMo i asesu allbynnau a deilliannau CLIC o ran: defnydd o'r gwasanaeth, buddiolwyr, a'i gyrraedd. Yna mae'n disgrifio nodweddion dau wasanaeth tebyg: Young Scot a The Site (Youthnet) i alluogi rhai cymariaethau gyda dull darparu a chyflawniadau CLIC Ar-lein.

## 3.1 Defnyddio o adnoddau gwe CLIC

Mae'r defnydd o CLIC Ar-lein wedi bod yn cynyddu ers dechrau 2009 er y bu amrywiadau o fis i fis fel y dangosir yn Ffigwr 3.1. Ym mis Mawrth 2009, cafwyd 3,193 o ymweliadau â CLIC Ar-lein, a oedd wedi cynyddu i 27,835 o ymweliadau ym mis Mawrth 2012. Caiff amrywiadau eu hesbonio gan ddigwyddiadau penodol yn hyrwyddo CLIC yn genedlaethol ac yn lleol a gwyliau ysgol. Sbardunwyd y nifer uchaf oll o ymweliadau ym mis Awst 2010 (30,443) gan gynnydd mawr yn nifer y bobl a oedd yn ymweld â gwefan The Sprout (gwefan leol Caerdydd). Mae golygydd The Sprout yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i erthygl a bostiwyd ar y wefan yn "lledu fel tân gwyllt". Roedd pobl ifanc a gyrchodd yr erthygl ac yna ei hoffi wedi'i rhannu gyda'u ffrindiau a chynyddodd hyn nifer yr ymweliadau. At ei gilydd, roedd 572,134 o ymweliadau â CLIC Ar-lein rhwng mis Ionawr 2009 a mis Mawrth 2012.

**Ffigwr 3.1 Nifer yr ymweliadau â CLIC Ar-lein, Ionawr 2009 – Mawrth 2012**





*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Mae nifer yr ymwelwyr unigryw i CLIC Ar-lein wedi cynyddu ers dechrau 2009 (gweler Ffigwr 3.2). Yn ystod tri mis cyntaf 2010, er enghraifft, ymwelodd tua 11 o bobl o bob 1,000 11-25 oed yng Nghymru â CLIC Ar-lein, lle roedd hyn wedi cynyddu i 35 o bob 1,000 erbyn tri mis cyntaf 2012.[34] Gellir cysylltu llawer o'r cynnydd hwn â lansio gwefannau lleol gyda thwf yn digwydd yn unol â'r nifer cynyddol o'r rhain a oedd ar gael.

[34] Mae hyn wedi'i seilio ar nifer cyfartalog o ymwelwyr unigryw ar gyfer mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2010 a 2012, ac amcangyfrifon poblogaeth yr ystod oedran yng Nghymru gan StatsWales (Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2010).

**Ffigwr 3.2 Nifer yr ymwelwyr unigryw i CLIC Ar-lein, Ionawr 2009 – Mawrth 2012**




*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Estynnodd system CLIC Ar-lein dros y cyfnod hwn, o un wefan leol (The Sprout) ym mis Ionawr 2009 i 10 gwefan leol ym mis Chwefror 2012. Dangosir cronoleg lansio gwefannau yn Nhabl 3.1. Mae pump pellach wedi dod yn weithredol ers hynny.

**Tabl 3.1 Cronoleg lansio gwefannau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2012**[35]

| Mis lansio | Gwefan | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Ionawr 2009 | The Sprout (yn bodoli eisoes) | Caerdydd |
| Hydref 2009 | CLIC Ar-lein | Cenedlaethol |
| Ionawr 2010 | Wikid | Rhondda Cynon Taf (RhCT) |
| Ionawr 2010 | Shouttawe | Abertawe |
| Ionawr 2010 | Swoosh | Bro Morgannwg |
| Mehefin 2010 | Fflintyr Ifanc | Sir y Fflint |

[35] Gan ychwanegu Powys ym mis Ebrill 2012, Ceredigion ym mis Mai 2012, Castell-nedd Port Talbot ym mis Mai 2012 a Merthyr Tudful ym mis Mehefin 2012.

| Mis lansio | Gwefan | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Mehefin 2010 | Young Newport | Casnewydd |
| Ionawr 2011 | Defaid | Ynys Môn |
| March 2011 | Ieuenctid Sir Gâr | Sir Gaerfyrddin |
| Ebrill 2011 | Bwsted | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Rhagfyr 2011 | Wrecsam Ifanc | Wrecsam |

*Ffynhonnell: Dogfen gronoleg CLIC*

Bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr unigryw i CLIC Ar-lein yn y cyfnod ers i wefannau lleol gael eu lansio. Mae nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn y tri mis cyn i wefan gael ei lansio bob amser yn sylweddol is na'r nifer cyfartalog o ymwelwyr yn y tri mis ar ôl i wefan gael ei lansio. Mae Tabl 3.2 yn dangos y newid yn nifer yr ymwelwyr yn dilyn lansio gwefannau lleol.

**Tabl 3.2 Newid yn nifer yr ymweliadau â rhwydwaith CLIC yn dilyn lansio gwefannau lleol**

| Mis lansio | Ymweliadau rhwydwaith yn ystod y mis lansio | Traffig cyfartalog yn y 3 mis cyn lansio | Traffig cyfartalog yn y 3 mis ar ôl lansio[36] | % newid mewn traffig |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Ionawr 2010 (3 gwefan) | 7,048 | 5,417 | 9,787 | 81% |
| Mehefin 2010 (2 wefan) | 15,330 | 10,141 | 22,418 | 121% |
| Ionawr 2011 (1 wefan) | 17,705 | 18,363 | 21,377 | 16% |
| Mawrth 2011 (1 wefan) | 25,489 | 17,494 | 22,115 | 26% |
| Ebrill 2011 (1 wefan) | 18,345 | 21,164 | 24,260 | 15% |
| Ionawr 2012 (1 wefan) | 25,172 | 21,584 | 28,505 | 32% |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*


Dylid disgwyl y bydd mwy o ymweliadau â CLIC Ar-lein wrth i fwy o wefannau lleol gael eu lansio ond mae'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr unigryw ar gyfer gwefannau unigol ar ôl eu lansio'n awgrymu bod ymwybyddiaeth am y gwefannau lleol a chenedlaethol yn cynyddu yn y rhan fwyaf o ardaloedd

[36] Ystyrir hyn fel y tri mis yn dilyn y lansio. Er enghraifft, os cafodd y wefan ei lansio ym mis Ionawr 2010, yna mae'r gell yn cynrychioli nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn ystod mis Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2010. Mae hyn i ganiatáu ar gyfer gwefannau lleol sy'n cael eu lansio ar wahanol adegau yn ystod y mis.

awdurdodau lleol. Er enghraifft, cafodd gwefan genedlaethol CLIC ychydig dros 2,600 o ymweliadau unigryw ym mis Ionawr 2010, a gynyddodd i dros 6,100 ym mis Ionawr 2012; cafodd Wikid, y wefan leol ar gyfer RhCT, ychydig dros 200 o ymwelwyr unigryw ym mis Ionawr 2010 a mwy na 1,500 ym mis Ionawr 2012. Mae hyn yn amrywio rhwng gwefannau serch hynny, gyda rhai gwefannau (er enghraifft Shouttawe yn Abertawe) yn nodi nad oedd unrhyw gynnydd mewn ymwelwyr unigryw hyd at ddechrau 2012.

Mae Ffigwr 3.3 dangos nifer yr ymwelwyr unigryw i'r wefan genedlaethol a phob un o'r gwefannau lleol. Yn gyffredinol, mae'r pedair gwefan leol gyntaf a'r wefan genedlaethol yn rhoi cyfrif am y rhan fwyaf o'r ymwelwyr unigryw ym mis Ionawr 2012 (81%), er bod rhai o'r gwefannau lleol newydd, fel Wrecsam Ifanc, wedi gwneud dechrau da.

**Ffigwr 3.3 Ymwelwyr unigryw i CLIC Ar-lein fesul gwefan, Ionawr 2009 – Ionawr 2012**




*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Er bod nifer yr ymweliadau â CLIC Ar-lein wedi cynyddu, mae'r amser cyfartalog mae pob ymwelydd yn ei dreulio arno wedi gostwng. Yn chwarter cyntaf 2010, yr amser cyfartalog a dreuliodd ymwelydd ar CLIC oedd ychydig o dan bedair munud, a oedd wedi gostwng i ychydig o dan dair munud yn chwarter cyntaf 2012. Adlewyrchir hyn yn nifer y tudalennau a ddarllennir fesul ymweliad, sydd wedi gostwng o 4.6 yn chwarter cyntaf 2010 i 3.0 yn chwarter cyntaf 2012. Fodd bynnag, mae'n anodd barnu a yw hyn yn

ddatblygiad cadarnhaol neu negyddol. Mae'n bosibl nad yw ymwelwyr yn dod o hyd i'r wybodaeth maent yn chwilio amdani ac yn gadael y wefan, neu gallai fod eu bod yn dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn llai o amser oherwydd y gallu i we-lywio'n well neu oherwydd eu bod yn fwy cyfarwydd â'r wefan.

## 3.2 Cynhyrchu, diweddaru a darparu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed

Mae cynnwys CLIC Ar-lein yn trafod newyddion, gwybodaeth, digwyddiadau a sefydliadau. Mae'r cynnwys hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae cyfran y tudalennau a ddarllennir yn Gymraeg ym ymddangos fel petai wedi aros yn weddol gyson, gyda 5.9% o dudalennau wedi'u darllen yn Gymraeg yn chwarter cyntaf 2010 a 5.0% yn chwarter cyntaf 2012.[37]

Y math mwyaf poblogaidd o gynnwys yn Gymraeg a Saesneg yw newyddion, gyda mwy na 78,000 o ymweliadau darllen tudalennau yn chwarter cyntaf 2012. Mae nifer yr ymweliadau darllen tudalennau newyddion wedi tyfu mwy nag unrhyw fath arall o gynnwys rhwng 2010 a 2012. Dangosir nifer yr ymweliadau darllen tudalennau fesul math o gynnwys yn Tabl 3.3.

**Tabl 3.3 Nifer yr ymweliadau darllen tudalennau fesul math o gynnwys**

| Cynnwys | Ymweliadau darllen tudalennau Ch1 2010 | Ymweliadau darllen tudalennau Ch1 2012 |
|---|---:|---:|
| Newyddion | 26,004 | 78,400 |
| Gwybodaeth | 12,206 | 22,416 |
| Sefydliad | 15,144 | 34,163 |
| Digwyddiadau | 9,675 | 15,207 |


*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC in broad categorïau*

Mae 11 pwnc gwybodaeth ar CLIC Ar-lein. Y pwnc gwybodaeth mwyaf cyffredin mae pobl yn ei gyrchu yw iechyd, gyda mwy nag 20% o'r holl

[37] Ni ellir cymharu hyn yn hawdd gyda chyfran y bobl ifanc 11-25 oed y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt oherwydd nad oes unrhyw wybodaeth gyfoes ar gael

ymweliadau darllen tudalennau gwybodaeth yn rhai iechyd yn 2010 a 2012 fel ei gilydd. Cynyddodd nifer yr ymweliadau darllen tudalennau ym mhob pwnc gwybodaeth rhwng 2010 a 2012, ac eithrio gwybodaeth am wybodaeth leol. Mae Ffigwr 3.4 yn dangos y pynciau gwybodaeth yr ymwelwyd â nhw ar rwydwaith CLIC ar gyfer chwarter cyntaf 2010 a 2012.

**Ffigwr 3.4 Pynciau gwybodaeth a gyrchwyd ar CLIC Ar-lein yn ystod chwarter cyntaf 2010 a 2012**





*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC, chwarter 1 2010 a 2012*

## 3.3 Cynnwys pobl ifanc a gweithio gyda nhw

### *3.3.1 Defnyddwyr cofrestredig*

Mae cyfranogiad pobl ifanc yn agwedd bwysig ar rwydwaith CLIC. Mae nifer y defnyddwyr cofrestredig wedi cynyddu'n barhaus ers mis Ionawr 2009 (gweler Ffigwr 3.5), gyda chynnydd mawr yn nifer y defnyddwyr cofrestredig ym mis Awst 2010 (sef yr un mis ag y gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymweliadau â rhwydwaith CLIC).

**Ffigwr 3.5 Defnyddwyr cofrestredig rhwydwaith CLIC, Ionawr 2009 – Mawrth 2012**




*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Mae defnyddwyr cofrestredig o bob un o'r 22 ALlau (gyda rhai defnyddwyr y dosberthir eu lleoliad ar hyn o bryd fel CLIC cenedlaethol). Mae nifer y defnyddwyr cofrestredig o bob ALl ym mis Mawrth 2012 wedi'i ddangos yn Tabl 3.4. Daeth bron dwy ran o dair o'r defnyddwyr cofrestredig o ddau ALl: Caerdydd a RhCT. Roedd y ddau hyn ymhlith yr ALlau cyntaf i feddu ar wefannau lleol CLIC. Y ddau ALl arall a lansiodd wefannau lleol tua'r un pryd ag RhCT oedd Bro Morgannwg ac Abertawe, sy'n meddu ar y pedwerydd a'r pumed nifer uchaf o ddefnyddwyr cofrestredig yn y drefn honno.

Mae gan dri o'r ALlau (Caerdydd, RhCT a Bro Morgannwg) nifer cymharol uchel o ddefnyddwyr cofrestredig ar gyfer eu poblogaeth pobl ifanc. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr hefyd gyfran gymharol uchel o ddefnyddwyr cofrestredig er mai ym mis Ebrill 2011 y lansiwyd y wefan CLIC lleol. Yn wrthwynebiad i hyn, mae gan Abertawe, Casnewydd a Sir Gaerfyrddin gyfrannau llai o ddefnyddwyr cofrestredig na rhai o'r ardaloedd heb wefannau lleol CLIC, fel Castell-nedd Port Talbot a Phowys.

**Tabl 3.4 Defnyddwyr cofrestredig CLIC Ar-lein fesul Awdurdod Lleol**

| Awdurdod Lleol | Chwarter lansio'r wefan | Nifer y defnyddwyr cofrestredig | Nifer y defnyddwyr cofrestredig fesul 1,000 o bobl ifanc 11-25 oed | % o gyfanswm y defnyddwyr cofrestredig |
|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 2009 Ch1 | 3,050 | 34.2 | 47.4% |
| CLIC Cenedlaethol | 2009 Ch4 | 11 | | 0.2% |
| Rhondda Cynon Taf | 2010 Ch1 | 1,123 | 24.0 | 17.5% |
| Abertawe | 2010 Ch1 | 223 | 4.4 | 3.5% |
| Bro Morgannwg | 2010 Ch1 | 401 | 17.1 | 6.2% |
| Sir y Fflint | 2010 Ch2 | 113 | 4.3 | 1.8% |
| Casnewydd | 2010 Ch2 | 129 | 4.3 | 2.0% |
| Ynys Môn | 2011 Ch1 | 92 | 7.8 | 1.4% |
| Sir Gaerfyrddin | 2011 Ch1 | 60 | 1.9 | 0.9% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2011 Ch2 | 519 | 21.7 | 8.1% |
| Wrecsam | 2011 Ch4 | 62 | 2.6 | 1.0% |
| Conwy | 2012 Ch1 | 39 | 2.2 | 0.6% |
| Blaenau Gwent | Gwefan ddim yn fyw eto | 28 | 2.0 | 0.4% |
| Caerffili | Gwefan ddim yn fyw eto | 91 | 2.8 | 1.4% |
| Ceredigion | Gwefan ddim yn fyw eto | 40 | 2.1 | 0.6% |
| Sir Ddinbych | Gwefan ddim yn fyw eto | 31 | 1.8 | 0.5% |
| Merthyr Tudful | Gwefan ddim yn fyw eto | 65 | 6.0 | 1.0% |
| Sir Fynwy | Gwefan ddim yn fyw eto | 34 | 2.3 | 0.5% |

| Awdurdod Lleol | Chwarter lansio'r wefan | Nifer y defnyddwyr cofrestredig | Nifer y defnyddwyr cofrestredig fesul 1,000 o bobl ifanc 11-25 oed | % o gyfanswm y defnyddwyr cofrestredig |
|---|---|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | Gwefan ddim yn fyw eto | 133 | 5.3 | 2.1% |
| Powys | Gwefan ddim yn fyw eto | 104 | 4.8 | 1.6% |
| Tor-faen | Gwefan ddim yn fyw eto | 44 | 2.5 | 0.7% |
| Gwynedd | Gwefan ddim yn fyw eto | 21 | 0.8 | 0.3% |
| Sir Benfro | Gwefan leol annibynnol | 22 | 1.1 | 0.3% |
| **Cyfanswm** | | **6,435** | 10.8 | 100 |


*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Ni roddodd dros hanner y defnyddwyr cofrestredig (3,676, 57%) eu hoedran felly mae angen gofalu wrth ddefnyddio'r data hwn oherwydd y gallai fod gogwydd oedran wrth ddarparu'r wybodaeth. O’r defnyddwyr cofrestredig a roddodd eu hoedran, roedd dros eu hanner yn 16 oed neu’n iau (gweler Ffigwr 3.6). Mae hyn yn awgrymu y gallai pobl iau fod yn fwy tebygol o gofrestru. O fewn y boblogaeth 11-25 oed yng Nghymru, mae 37% yn 11-16 oed, ond mae 71% o’r defnyddwyr cofrestredig a roddodd eu hoedran yn 11-16 oed. I’r gwrthwyneb, mae llawer llai o ddefnyddwyr cofrestredig yn y categorïau hŷn nag y mae maint y boblogaeth yn ei awgrymu (mae 43% o’r boblogaeth 11-25 oed yn 20 oed neu’n hŷn, ond dim ond 14% o’r defnyddwyr cofrestredig yn 20 oed neu’n hŷn).

Mae dosbarthiad oedran gweddol debyg ym mwyafrif yr ALlau ymysg y defnyddwyr cofrestredig, gyda 19 o'r 22 ALl â defnyddwyr 16 oed neu'n iau yn cynrychioli o leiaf hanner y defnyddwyr cofrestredig a roddodd eu hoedran. Ychydig o ddefnyddwyr sydd gan ddau o'r tri ALl nad ydynt yn dilyn y patrwm hwn (Sir Ddinbych a Sir Benfro) (30 a 21 o ddefnyddwyr cofrestredig yn y

drefn honno) tra bod gan Abertawe 79% o ddefnyddwyr cofrestredig nad ydynt wedi rhoi eu hoedran.

**Ffigwr 3.6 Canran y defnyddwyr cofrestredig a roddodd eu hoedran**




*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Gall defnyddwyr cofrestredig CLIC Ar-lein gyflwyno cynnwys drwy ddarparu erthyglau, cynnig sylwadau ar y wefan a chyfrannu at drafodaethau. Mae cyflwyniadau'n awgrymu, yn fisol, bod:

- 4.5% o ddefnyddwyr cofrestredig (283) wedi darparu erthyglau;
- 4.8% o ddefnyddwyr cofrestredig (300) wedi mynychu digwyddiadau a darparu adroddiadau ar y rhain; ac,
- 7.0% o ddefnyddwyr cofrestredig (439) wedi cynnig sylwadau ar y gwefannau.

### *3.3.2 Aelodau grwpiau golygyddol*

Gall pobl ifanc hefyd gyfranogi drwy ymuno â grŵp golygyddol a drefnir gan y gwasanaeth gwybodaeth ieuenctid sy'n gyfrifol am y wefan leol. Mae 139 o bobl ifanc sy'n aelodau o grŵp golygyddol, yn dod o 16 ardal awdurdodau lleol, gyda'r rhan fwyaf yn dod o Gaerdydd a RhCT (Tabl 3.5), er bod rhai o'r grwpiau hyn yn fach (llai na phum aelod) ac na thybir eu bod yn gweithredu.

Prin iawn o aelodau (dau) sydd wedi'u nodi gan Abertawe yn ei grŵp golygyddol, er gwaethaf y ffaith ei bod yn ardal gyda phoblogaeth fawr ac er iddi lansio ei gwefan leol yn gymharol gynnar, tra bod gan Ben-y-bont ar Ogwr, a lansiodd ei gwefan leol ym mis Ebrill 2011, 13 o aelodau wedi'u nodi yn ei grŵp golygyddol. Mae gan Gonwy, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent wyth neu fwy o aelodau yn eu grwpiau golygyddol, er gwaethaf y ffaith nad oedd gwefan leol yn fyw ganddynt tan ddiwedd mis Mawrth 2012 oherwydd bod yr ALlau wedi'u hymgysylltu'n weithgar.

Error! Reference source not found. **Aelodau grwpiau golygyddol mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol**


| **Awdurdod Lleol** | **Aelodau grwpiau golygyddol** | **Aelodau grwpiau golygyddol fesul 10,000 o bobl ifanc 11-25 oed** | **% o gyfanswm yr aelodau grwpiau golygyddol fesul ALI** |
|---|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 8 | 6.8 | 5.8% |
| Blaenau Gwent | 8 | 5.8 | 5.8% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13 | 5.4 | 9.4% |
| Caerdydd | 19 | 2.1 | 13.7% |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 0.9 | 2.2% |
| Conwy | 12 | 6.7 | 8.6% |
| Sir y Fflint | 10 | 3.8 | 7.2% |
| Gwynedd | 5 | 1.9 | 3.6% |
| Merthyr Tudful | 5 | 4.6 | 3.6% |
| Castell-nedd Port Talbot | 10 | 4.0 | 7.2% |
| Casnewydd | 11 | 3.7 | 7.9% |
| Rhondda Cynon Taf | 16 | 3.4 | 11.5% |
| Abertawe | 2 | 0.4 | 1.4% |
| Tor-faen | 2 | 1.1 | 1.4% |
| Bro Morgannwg | 10 | 4.3 | 7.2% |
| Wrecsam | 5 | 2.1 | 3.6% |

| Awdurdod Lleol | Aelodau grwpiau golygyddol | Aelodau grwpiau golygyddol fesul 10,000 o bobl ifanc 11-25 oed | % o gyfanswm yr aelodau grwpiau golygyddol fesul ALI |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **139** | | 100% |
| **Cyfartaledd fesul Awdurdod Lleol**[38] | **6.3** | 0.2 | **4.5%** |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Ffigwr 3.7 yn dangos bod 42% o aelodau grwpiau golygyddol wedi cymryd rhan mewn grwpiau golygyddol lleol a chenedlaethol.

**Ffigwr 3.7 Aelodau grwpiau golygyddol fesul math o grŵp golygyddol**




*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

### *3.3.3 Presenoldeb ar gyrsiau penwythnos preswyl*

Mae Tabl 3.6 yn dangos nifer y cyfranogwyr ar gyrsiau penwythnos preswyl o bob ALI. Mae pobl ifanc o 16 ALI wedi mynychu'r rhain, gyda'r nifer uchaf o

[38] Mae'r cyfartaledd hwn yn cynnwys Awdurdodau Lleol nad oes ganddynt unrhyw aelodau mewn grwpiau golygyddol.

bobl ifanc yn dod o RhCT. Eto, nifer cymharol brin o bobl ifanc sy'n cyfranogi o Abertawe (dau), o gymharu â Chastell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent sydd â'r niferoedd uchaf o bobl ifanc yn cymryd rhan, er nad oes gan y naill na'r llall wefan CLIC leol.

Mae'r cyrsiau penwythnos preswyl wedi cynnwys ystod eang o bobl ifanc.[39] Roedd gan nawr person ifanc a fynychodd anabledd neu afiechyd (9%), ac er bod mwyafrif y mynychwyr mewn addysg amser llawn, nododd 16 eu bod yn NEET (16%).[40] Roedd pobl ifanc o bedwar grŵp ethnig.[41] Roedd yn well gan bum cyfranogydd gyfathrebu yn Gymraeg.[42] Roedd mwyafrif y mynychwyr yn 16 oed neu'n iau (60%) sy'n debyg i ddosbarthiad oedran y defnyddwyr cofrestredig.

**Tabl 3.5 Cyfranogwyr preswyl fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Cyfranogwyr cyrsiau penwythnos preswyl | Cyfranogwyr cyrsiau penwythnos preswyl fesul 10,000 o bobl ifanc 11-25 oed | % o gyfanswm y cyfranogwyr |
|---|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 8 | 6.8 | 7.8% |
| Blaenau Gwent | 8 | 5.8 | 7.8% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 1.7 | 3.9% |
| Caerdydd | 8 | 0.9 | 7.8% |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 0.9 | 2.9% |
| Conwy | 3 | 1.7 | 2.9% |
| Sir y Fflint | 10 | 3.8 | 9.7% |

[39] Mae gwybodaeth cyfranogwyr ar gyfer cyfranogwyr preswyl, sy'n cynnwys: oedran, rhywedd, anabledd, statws cyflogaeth, iaith ddewisol ac ethnigrwydd (er nad yw rhai o'r cyfranogwyr wedi darparu rhywfaint o'r data hwn)

[40] Yng Nghymru, mae 19% o bobl ifanc rhwng 16-24 oed yn NEET (Statistical First Release, 2010). Felly, mae'r ffigwr 16% o gyfranogwyr cwrs penwythnos preswyl yn NEET yn weddol gynrychioliadol o'r boblogaeth. Ni ellir cymharu cyfran y cyfranogwyr oedd ag anabledd yn hawdd yn erbyn cyfran y bobl ifanc 11-25 oed sydd ag anabledd am nad yw'r wybodaeth hon ar gael.

[41] Darparwyd 10 gwahanol ddisgrifiad o ethnigrwydd gan gyfranogwyr y cwrs penwythnos preswyl. Fodd bynnag roedd rhai o'r rhain yn debyg iawn, felly maent wedi'u cyfuno, er enghraifft, cyfunwyd Prydeinig, Cymro/Cymraeg, Gwyn, Gwyn Prydeinig a Gwyn Sais/Saesnes yn un grŵp ethnig.

[42] Ni ellir cymharu hyn yn hawdd gyda chyfran y bobl ifanc 11-25 oed y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt oherwydd nad oes unrhyw wybodaeth gyfoes ar gael.

| **Awdurdod Lleol** | **Cyfranogwyr cyrsiau penwythnos preswyl** | **Cyfranogwyr cyrsiau penwythnos preswyl fesul 10,000 o bobl ifanc 11-25 oed** | **% o gyfanswm y cyfranogwyr** |
|---|---:|---:|---:|
| Gwynedd | 5 | 1.9 | 4.9% |
| Merthyr Tudful | 1 | 0.9 | 1.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 10 | 4.0 | 9.7% |
| Casnewydd | 10 | 3.3 | 9.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 15 | 3.2 | 14.6% |
| Abertawe | 2 | 0.4 | 1.9% |
| Tor-faen | 1 | 0.6 | 1.0% |
| Bro Morgannwg | 10 | 4.3 | 9.7% |
| Wrecsam | 5 | 2.1 | 4.9% |
| **Cyfanswm** | **103** | | 100% |
| **Cyfartaledd fesul Awdurdod Lleol**[43] | **4.7** | **0.2** | **4.5%** |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLIC*

Caniateir i bobl ifanc fynychu mwy nag un penwythnos preswyl oherwydd eu bod yn darparu dilyniant gyda datblygu'r wefan genedlaethol  er mai lleiafrif yw'r rhain. Mae chwe deg chwech y cant o'r bobl ifanc sydd wedi mynychu wedi bod ar un cwrs penwythnos preswyl yn unig; mae un deg saith y cant (18 o bobl ifanc) wedi mynychu tri neu fwy; ac mae tri pherson ifanc wedi mynychu saith.

### *3.3.4 Hyfforddiant achrededig*

Mae Tabl 3.7 ar ddiwedd y bennod yn dangos nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn cyflawni cymwysterau fesul ardal ALI.

Ni roddodd mwyafrif (55%) y bobl ifanc sydd wedi'u hyfforddi tuag at gyflawni dysgu achrededig eu hoedran. Ond o'r rhai a roddodd eu hoedran, roedd y gyfran fwyaf rhwng 14 a 16 oed (49%).  Daeth y bobl ifanc o 16 ALI, gyda

[43] Mae hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol nad oes ganddynt unrhyw aelodau mewn grwpiau golygyddol

chyfran fwyaf y bobl ifanc yn dod o Dor-faen a Phowys. Mae'n cynnwys pobl ifanc o ardaloedd ALlau heb wefannau CLIC lleol, gan gynnwys Gwynedd a Sir Benfro.

Enillodd cyfanswm o 59 o bobl ifanc gymhwyster o ganlyniad i'r hyfforddiant a dderbyniwyd. Daeth y bobl ifanc hyn o 13 ardal ALl. Enillodd lleiafrif o'r bobl ifanc hyn gymhwyster mewn Gwybodaeth Ieuenctid (14% yn cyflawni cymhwyster Gwybodaeth Ieuenctid lefel 2, a 3% yn ennill cymhwyster Gwybodaeth Ieuenctid lefel 1). Y cymwysterau sy'n weddill a enillwyd gan bobl eraill oedd dyfarniadau mewn ysgrifennu creadigol, dyddiaduron lluniau a storïau fideo.

Daeth ymarferwyr mewn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid sydd wedi derbyn hyfforddiant tuag at ennill dysgu achrededig o naw ardal ALl er bod Bro Morgannwg yn rhoi cyfrif am dros eu chwarter. Cymhwyster Gwybodaeth Ieuenctid ar lefel 2 oedd mwyafrif y rhain (75%).

## 3.4 Meincnodi

Er mwyn cymharu defnydd ac effaith CLIC Ar-lein, cyfwelwyd â rheolwyr dau wasanaeth gwybodaeth ar-lein tebyg ar gyfer grŵp oedran tebyg. Roedd hyn yn bennaf er mwyn asesu a yw CLIC Ar-lein yn cyrraedd cymaint o'r boblogaeth â'r disgwyl; ac yw'n cynnig gwerth am arian am y gwasanaethau mae'n eu darparu.

### *3.4.1 Young Scot*

Lansiwyd Young Scot yn 2002. Roedd y sefydliad sy'n gyfrifol am y wefan eisoes yn darparu gwybodaeth debyg ar gyfer pobl ifanc drwy lyfrynnau a chylchgronau mewn ysgolion. Sefydlwyd y wefan i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i bobl ifanc rhwng 11-19 oed, ac mae'n cynnwys prif wefan ac isadrannau'r wefan sy'n darparu gwybodaeth leol. Cyllidwyd dau aelod o staff amser llawn i sefydlu'r wefan, ac is-gontractwyd y gwaith o ddylunio'r wefan i gwmni arbenigol. Cymerodd y wefan ryw chwe mis i'w sefydlu a'i lansio. Yn ddiweddar (yn y 18 mis diwethaf), mae'r wefan wedi rhannu'n ddwy wefan ar

wahân, gyda'r naill yn darparu ar gyfer pobl ifanc rhwng 11-16 oed, a'r llall ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed oherwydd y teimlwyd bod gan y grŵp hŷn wahanol anghenion a gwahanol ddull cyflwyno. Mae'r wefan newydd ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed yn gymharol newydd o hyd, ac mae'r niferoedd sy'n ymweld â'r wefan yn dal i dyfu. Nid oes gan y gwefannau ddefnyddwyr cofrestredig oherwydd y caiff unrhyw ddefnyddwyr gyfranogi mewn paneli i drafod pynciau penodol (er enghraifft panel chwaraeon) a chyflwyno sylwadau (a gaiff eu cymedroli).

Yn y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2012, roedd y gwefannau at ei gilydd yn cael rhyw:

- 24,000 o ymweliadau y mis;
- 20,000 o ymwelwyr unigryw y mis (oddeutu 36 o ymwelwyr fesul 1,000 o'r boblogaeth berthnasol); ac,
- Roedd ymwelwyr yn cyrchu 4.5 tudalen ar gyfartaledd fesul ymweliad.

Cafodd y wefan ei hail-lansio'n ddiweddar (yn y flwyddyn ddiwethaf), gyda phorth newydd yn cael ei adeiladu, a'r wefan ei hail-ddylunio’n gyfan gwbl. Cyfanswm cost yr ail-lansio oedd £600,000. Caiff cost rhedeg y wefan ei rhannu rhwng tîm digidol, tîm gwybodaeth a thîm cyfathrebu. Fodd bynnag, nid yw unrhyw aelodau o staff yn gweithio ar y gwefannau amser llawn, am eu bod yn gyfrifol am dair gwefan arall (nad ydynt yn gysylltiedig) a chynnwys arall (cylchgronau a llyfrynnau er enghraifft) hefyd. Mae'r cyfrifoldebau wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- Mae'r tîm digidol yn gyfrifol am gymedroli sylwadau, a chynnwys digidol y wefan. Mae tri aelod o staff amser llawn ar y staff - un cyfarwyddwr a dau gydlynydd digidol.
- Mae'r tîm gwybodaeth yn gyfrifol am yr holl wybodaeth sy'n ymddangos ar y wefan, gan sicrhau ei chywirdeb a'i bod yn cael ei chadw'n gyfoes. Mae pedwar aelod o staff amser llawn ar y tîm gwybodaeth – un cyfarwyddwr a thri swyddog gwybodaeth.
- Mae'r tîm cyfathrebu'n gyfrifol am unrhyw ymgynghoriadau gyda phobl ifanc (er enghraifft y paneli pynciau arbenigol) a strategaeth cyfryngau cymdeithasol y gwefannau. Mae pedwar aelod o staff amser llawn ar y tîm cyfathrebu – un cyfarwyddwr a thri swyddog cyfathrebu.

- Caiff y costau datblygu, cynnal a chadw a diogelwch eu his-gontractio i gwmni arbenigol, gan ddilyn model "talu wrth fynd".

### *3.4.2 Youthnet*

Lansiwyd y wefan ym 1995, ac mae'n rhychwantu'r DU gyfan. Elusen yw’r sefydliad sy'n gyfrifol am y wefan, sy'n cynnwys sawl gwefan wedi'u targedu at wahanol grwpiau. Sefydlwyd y wefan i ddarparu cyngor ac arweiniad ar-lein i bobl ifanc rhwng 16-25 oed. Mae'r wefan yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth am amrywiol bynciau yn debyg i CLIC Ar-lein, a gwasanaeth holi ac ateb 24 awr ar gyfer defnyddwyr y wefan. Gellir cynnwys pobl ifanc yn y wefan drwy eu galluogi i gynnig sylwadau, neu gyhoeddi eu cwestiynau ar y wefan. Mae staff Youthnet yn ymgynghori ar hyn o bryd â phobl ifanc am gynnwys a golwg y wefan. Mae gan y wefan:

- 41,000 o ddefnyddwyr cofrestredig (tua 5 defnyddiwr i bob 1,000 o'r boblogaeth berthnasol); ac
- 91,000 o ymwelwyr unigryw y mis (oddeutu 11 o ymwelwyr fesul 1,000 o'r boblogaeth berthnasol).

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch cost ail-ddatblygu'r wefan oherwydd ei bod wedi esblygu'n raddol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae'r wefan yn cael ei throsi'n fformat sy'n addas ar gyfer mynediad drwy ffonau symudol. Mae cynnwys y wefan yn ddeinamig, ac yn newid yn gyson. Caiff gwaith dylunio'r wefan ei is-gontractio i gwmni arbenigol, yn dilyn contract ar ffurf talu wrth fynd. Mae'r wybodaeth a'r cynnwys ar gyfer y wefan yn cael eu darparu'n fewnol. Nid yw nifer y staff (CALI) sy'n cefnogi'r wefan yn hysbys.

Mae crynodeb o nodweddion allweddol gwefannau CLIC, Young Scot a Youthnet wedi'i ddarparu yn Tabl 3.6. Yn anffodus, ni fu'n bosibl cyfrifo’r gost fesul ymweliad ar gyfer y gwefannau hyn, am fod gwefannau Young Scot a Youthnet wedi'u sefydlu ers cryn amser, ac nid oedd yn bosibl amcangyfrif amser y staff a dreulir yn gweithio ar y gwefannau.

**Tabl 3.6 Nodweddion allweddol gwefannau CLIC Ar-lein, Young Scot a Youthnet**

| | CLIC Ar-lein | Young Scot | Youthnet |
|---|---|---|---|
| Dyddiad lansio | 2008 | 2002 | 1995 |
| Ystod oedran a rychwantir | 11-25 | 11-19 | 16-25 |
| Daearyddiaeth a rychwantir | Cymru | Yr Alban | Y DU |
| Nifer y defnyddwyr cofrestredig | 6,400[44] | - | 41,000 |
| Nifer y defnyddwyr cofrestredig fesul 1,000 o'r boblogaeth | 11 | - | 5 |
| Nifer yr ymwelwyr unigryw | 24,314[45] | 20,000 | 91,000 |
| Nifer yr ymwelwyr fesul 1,000 o'r boblogaeth | 41 | 36 | 11 |
| Nifer y tudalennau a sbeciwyd fesul ymweliad | 3.0[46] | 4.5 | - |
| Aelodau staff | 12.1 CALI (ddim yn cynnwys staff o Burning Red) | 11 CALI (nid yw pob un yn gweithio amser llawn ar y wefan) | 50 CALI (nid yw pob un yn gweithio amser llawn ar y wefan) |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CLIC Ar-lein, Young Scot, Youthnet*

## 3.5 Pwyntiau allweddol i grynhoi

Mae CLIC Ar-lein wedi gweld nifer cynyddol o ymweliadau, ymwelwyr unigryw a defnyddwyr cofrestredig ers mis Ionawr 2009. Gellir priodoli peth o'r cynnydd hwn i'r ffaith bod mwy o wefannau lleol wedi dod ar gael ac mae gwefan genedlaethol CLIC wedi'i hail-lansio. Fodd bynnag, mae mwyafrif y gwefannau lleol hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr unigryw ers eu lansio.

[44] Cyfartaledd yw hwn ar gyfer y tri mis diweddaraf (Ionawr, Chwefror a Mawrth 2012), wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.
[45] Ibid.
[46] Cyfartaledd yw hwn ar gyfer Ebrill - Mehefin 2012.

Mae twf yn y defnydd yn amrywio'n helaeth rhwng ALlau, gydag ychydig gynnydd ar rai gwefannau lleol yn nifer yr ymwelwyr unigryw ac eraill yn profi cynnydd sylweddol. Yn wir, tra bod mwy nag un rhan o bump o'u pobl ifanc wedi cofrestru mewn rhai ardaloedd gyda gwefannau lleol (Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a RhCT), mae gan eraill lai na 5%, yn debyg i lawer o ardaloedd ALlau heb wefannau CLIC Lleol. Mae hyn yn ymddangos fel petai'n gysylltiedig â lefel y gweithgarwch a chefnogaeth a gynigir gan Wasanaethau Ieuenctid ALlau.

Roedd defnyddwyr cofrestredig CLIC Ar-lein a'r bobl ifanc a oedd yn cyfranogi yn y cyrsiau penwythnos preswyl yn iau ar gyfartaledd na'r disgwyl o ystyried proffil oedran y boblogaeth 11-25 oed yng Nghymru. Roedd saith deg un y cant o'r defnyddwyr cofrestredig yn 11-16 oed ond mae 37% o'r boblogaeth 11-25 oed yn 11-16 oed. Mae hyn yn awgrymu nad yw CLIC Ar-lein yn cyrraedd y rhai dros 16 oed.

Mae ymgysylltiad pobl ifanc mewn datblygu a chyfrannu at CLIC Ar-lein yn ymddangos fel petai'n gysylltiedig â graddau defnyddio'r wefan leol a chefnogaeth Gwasanaethau Ieuenctid ALlau. Mae lefelau cymharol uchel o ymgysylltiad ymysg pobl ifanc Caerdydd, RhCT a Bro Morgannwg (defnyddwyr cofrestredig, presenoldeb ar gyrsiau penwythnos preswyl ac aelodaeth grwpiau golygyddol) o gymharu ag ardaloedd heb wefannau CLIC lleol, fel Abertawe, lle mae defnydd isel.

Mae'r meincnodi, er ei fod yn gyfyngedig, yn awgrymu bod CLIC wedi cyflawni cyrraedd cymharol uchel mewn amser byr er ei fod wedi denu'r grwpiau oedran iau ymysg y bobl ifanc hynny 11-25 oed.

**Tabl 3.7 Hyfforddiant a chymwysterau/dyfarniadau a gyflawnwyd[47]**

| Awdurdod Lleol | Pobl Ifanc | | | | Ymarferwyr | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hyfforddiant | % o'r cyfanswm hyfforddiant | Dyfarniadau | % o'r cyfanswm dyfarniadau | Hyfforddiant | % o'r cyfanswm hyfforddiant | Dyfarniadau | % o'r cyfanswm dyfarniadau |
| Ynys Môn | 4 | 2.6% | 4 | 6.8% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Blaenau Gwent | 3 | 2.0% | 3 | 5.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 4.6% | 1 | 1.7% | 2 | 4.3% | 0 | 0.0% |
| Caerdydd | 14 | 9.2% | 11 | 18.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Conwy | 10 | 6.6% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Sir y Fflint | 10 | 6.6% | 8 | 13.6% | 5 | 10.9% | 0 | 0.0% |
| Gwynedd | 4 | 2.6% | 4 | 6.8% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 | 2.0% | 2 | 3.4% | 1 | 2.2% | 0 | 0.0% |
| Casnewydd | 2 | 1.3% | 2 | 3.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Sir Benfro | 9 | 5.9% | 0 | 0.0% | 7 | 15.2% | 0 | 0.0% |
| Powys | 20 | 13.2% | 6 | 10.2% | 1 | 2.2% | 0 | 0.0% |
| Rhondda Cynon Taf | 14 | 9.2% | 13 | 22.0% | 7 | 15.2% | 6 | 25% |
| Abertawe | 1 | 0.7% | 1 | 1.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Tor-faen | 47 | 30.9% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Y Fro | 2 | 1.3% | 3 | 5.1% | 13 | 28.3% | 13 | 54.2% |
| Wrecsam | 2 | 1.3% | 1 | 1.7% | 2 | 4.3% | 0 | 0.0% |
| Cenedlaethol | | | | | 8 | 17.4% | 5 | 20.8% |
| **Cyfanswm** | **152** | **100** | **59** | **100** | **46** | **100** | **24** | **100** |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a ddarparwyd gan dîm CLI*

[47] Mae'r canrannau yn y tabl hwn wedi'u talgrynnu i un pwynt degol.

# 4 Gweithredu Gweithgareddau'r Contract

Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o ddatblygiad a gweithrediad CLIC o safbwynt y rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol. Mae'n tynnu ar wybodaeth o'r cyfweliadau gyda staff y gwasanaethau cymorth ieuenctid a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn ardal y pump ALl a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaethau achos, gan gynnwys athrawon, ymgynghorwyr gyrfaoedd, darlithwyr mewn colegau a rheolwyr troseddwyr ifanc, ynghyd â'r cyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid cenedlaethol. Mae'n tynnu hefyd ar y gwaith ymchwil cenedlaethol a lleol a gyflawnodd gwmni ymchwil Arad ar gyfer ProMo yn rhan o'u contract i ddarparu CLIC Ar-lein.

## 4.1 Proffil ardaloedd yr astudiaethau achos

Mae ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd yr astudiaethau achos ar wahanol gamau o'r broses o ymgysylltu a chyfranogi yn y rhwydwaith CLIC; felly mae sail y dystiolaeth yn adlewyrchu ystod o brofiadau gyda CLIC ar draws Cymru. Lle'r oedd gwefannau lleol yn bodoli eisoes - ffocws y gwaith datblygu oedd: sefydlu templed gwybodaeth cyffredin o dan CLIC; darparu'r seilwaith i gysylltu â chynnwys ar wefannau lleol eraill CLIC, ac ar wefan genedlaethol CLIC, ac yn fwy na hynny, i sefydlu'r seilwaith technegol, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i ddatblygu a gwe-letya gwefan sy'n gallu cefnogi'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o ymgysylltu pobl ifanc yn fwy uniongyrchol.

| **Ardal astudiaeth achos yr ALlau** | **Cyfnod datblygu** |
|---|---|
| Ynys Môn | Mae Defaid, (www.Defaid.com) y wefan CLIC leol wedi bod yn gweithredu ers dros flwyddyn bellach. Mae ymgyrch ar y gweill i hysbysu mwy o bobl ifanc 11-25 oed am y wefan er mwyn cynyddu defnydd, ac yn arbennig i annog cynnwys gyda defnyddwyr wrth y llyw ac ehangu cyfranogiad. |
| Blaenau Gwent | Mae'r wefan leol gyfredol ar gyfer pobl ifanc (www.01495.com) yn fyw o hyd. Gwnaed ymrwymiad i ddatblygu gwefan CLIC Ar-lein leol; llofnodwyd cytundeb lefel gwasanaeth ym mis Ionawr 2012; a'r nod yw lansio'r |

| | |
|---|---|
| | wefan CLIC leol yn ddiweddarach yn 2012. |
| Caerdydd | Datblygwyd The Sprout (www.thesprout.co.uk) yn 2007 a daeth yn rhan o rwydwaith CLIC yn 2009. ProMo-Cymru sy'n ei rheoli a hi yw'r hynaf o'r holl wefannau CLIC lleol. Mae hi wedi sefydlu lefel uchel o ddefnydd. |
| Sir Ddinbych | Nid oes gwefan CLIC leol yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r gwaith i ddatblygu hyn ar y gweill. Mae gan yr ALI wefan ar gyfer pobl ifanc (0-25 oed) o'r enw Youth Den (www.youthden.com) a gellir ei chyrchu trwy dab ar wefan y Cyngor. |
| Wrecsam | Wrecsam Ifanc (www.youngwrexham.co.uk) yw'r wefan CLIC leol. Fe'i lansiwyd ddiwedd 2011 i gymryd lle gwefan leol. |

### 4.2 Sail Resymegol CLIC

Roedd yr holl randdeiliaid cenedlaethol a lleol a oedd yn gyfarwydd â CLIC yn cydnabod gwerth adnodd gwybodaeth sy'n darparu:

- Ffynhonnell ganolog – neu 'siop un cam' – sy'n darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer pobl ifanc ac yn eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth cyngor ac arweiniad (IAG) eraill. Yn ogystal â bod yn adnodd pwysig ar gyfer pobl ifanc, gallai weithredu fel offeryn posibl i'r ymarferwyr ei ddefnyddio hefyd am ei fod yn darparu adnoddau y gall yr ymarferwyr gyfeirio'r bobl ifanc atynt, a gwybodaeth y gallant ei rhannu â'r bobl ifanc y maent yn eu cynghori neu'n eu harwain.
- Ffynhonnell gyson o wybodaeth ar ystod eang o bynciau sydd wedi'i thargedu'n benodol ar gyfer pobl ifanc, sy'n berthnasol i Gymru ac sydd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Nid oedd neb o'r bobl y cyfwelwyd â nhw yn teimlo bod unrhyw ffynhonnell arall o'r fath ar gael.

Ym marn y rhanddeiliaid lleol, mae CLIC Ar-lein yn darparu'r canlynol hefyd:

- Templed cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth (h.y. tudalennau gwybodaeth y wefan genedlaethol) sy'n sicrhau safon y cynnwys ledled Cymru heb i'r ALlau orfod mynd ati i'w diweddaru eu hunain.

- Dull o ymgysylltu pobl ifanc a chadw i fyny â'r tueddiadau o ran defnyddio gwybodaeth ar-lein, sef rhywbeth y byddai'n anodd iddynt ei gyflawni ar eu pennau eu hunain:

  *"Rydyn ni wedi bod yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ond mae hyn yn dal i fod yn beth 'anghyfarwydd' yn nhermau darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd. Mae pobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn helaeth; mae cael templed ac adnoddau cymorth sydd wedi eu datblygu'n ganolog yn golygu y gallwn ni ganolbwyntio ar ddefnyddio'r adnoddau lleol i gynorthwyo pobl ifanc yn uniongyrchol."*
  *(Rheolwr Prosiect CLIC ALl)*

- Arbenigedd tîm ProMo wrth ddatblygu a hyrwyddo'r wefan leol, gan gynnwys sut i fynd ati i weithio gyda'r bobl ifanc a datblygu cymhwysedd y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddarparu gwybodaeth a chyngor.
- Model ar gyfer cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddylunio gwefannau CLIC lleol. Mae hyn yn golygu bod y broses o gyrchu a chyflwyno IAG yn fwy ymatebol a pherthnasol i'r bobl ifanc, ac mae'n darparu platfform ar gyfer casglu adborth a rhannu gwybodaeth yn barhaus.

Roedd ambell un o'r rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol yn llai clir ynghylch gwerth CLIC, am fod eu hymwybyddiaeth am CLIC a'r model darparu'n gyfyngedig.

Er y bu gan bob un o ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd yr astudiaethau achos wefan leol i gynorthwyo pobl ifanc (neu mae un ganddynt o hyd), roedd cymhelliant cryf i ymuno â CLIC. Mewn tair o'r ardaloedd o dan sylw, gwybodaeth 'statig' ar-lein yn unig oedd ar y gwefannau a oedd yn bodoli eisoes (er bod pobl ifanc wedi chwarae eu rhan i wahanol raddau wrth greu diwyg a theimlad y gwefannau). Yn yr achosion hyn, roedd yr angen i ymgysylltu pobl ifanc mewn ffordd fwy effeithiol yn ffactor allweddol o'r awydd i ddatblygu gwefan CLIC leol. Isel oedd nifer yr ymweliadau â'r gwefannau. Yn yr ardaloedd lle cyflawnwyd y ddwy astudiaeth achos arall, roedd y gwefannau lleol yn cynnig gwybodaeth ryngweithiol ar-lein, ond darparodd CLIC Ar-lein yr arbenigedd iddynt ddatblygu gwefannau na fyddai modd i'r

ALlau eu darparu ar eu pennau eu hunain, a'r cyfleuster i fanteisio ar adnoddau gwybodaeth cenedlaethol.

### 4.3 Datblygu gwefannau CLIC lleol

Roedd yr adborth am y broses o ddatblygu a darparu gwefannau CLIC lleol yn gymysg. Ond ym mhob achos, roedd y bobl a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith datblygu yn gwerthfawrogi cymorth tîm cenedlaethol CLIC wrth gynhyrchu eu gwefannau lleol.

Yn yr achos gorau, roedd y broses o fudo'r wybodaeth leol i'r templed ar gyfer gwefannau CLIC yn gymharol syml. Ymhlith y ffactorau allweddol o ran llwyddiant yn hyn o beth roedd: cydnawsedd rhwng seilwaith technegol cyfredol y wefan leol â seilwaith technegol y templed CLIC; a'r ffaith yr is-gontractiwyd y gwaith o ddatblygu templed CLIC.

Yn yr achos gwaethaf, roedd y gwahaniaethau rhwng seilwaith technegol y wefan nad oedd yn wefan CLIC â CLIC Ar-lein yn golygu ei bod yn anodd trosglwyddo'r wybodaeth. Er enghraifft, nid oedd modd trosglwyddo'r holl wybodaeth a oedd yn bodoli eisoes o'r hen wefan i'r wefan CLIC newydd, nac adlinio'r cyfeiriadur lleol o sefydliadau a gwasanaethau â chyfeiriadur cenedlaethol CLIC. Er eu bod wedi ymrwymo o hyd i sefydlu gwefan CLIC leol a gweithio i ddatrys y problemau hyn, mae'r cynnydd yn yr ardal hon wedi bod yn arafach ac mae'r wefan nad yw'n un CLIC yn dal i fod ar gael.

Yn y tair ardal arall, ar y cyfan, mae'r gwaith i ddatblygu'r model CLIC ar gyfer ALlau wedi bod yn ddigon didrafferth, er i un ardal nodi bod newidiadau mewn staff lleol wedi effeithio ar y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo'r wefan CLIC leol. Yn amlwg, mae hyn y tu hwnt i reolaeth ProMo. Mae'r gwaith o ddatblygu'r wefan CLIC yn parhau mewn dwy ardal o'r tair.

Roedd y rhanddeiliaid cenedlaethol yn teimlo bod cysylltiadau cadarn wedi'u meithrin rhwng CLIC Ar-lein a'r sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc; y farn oedd bod y ffaith fod y gwefannau'n cyfeirio

defnyddwyr yn uniongyrchol at sefydliadau eraill yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, roedd ambell un o'r rhanddeiliaid cenedlaethol yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau i weithrediad y wefan, er enghraifft, fel bod pobl ifanc sy'n 'chwilio' am wybodaeth am bwnc penodol ar CLIC Ar-lein - fel bwlio er enghraifft - yn cael rhagor o wybodaeth am wasanaethau penodol ar gyfer pobl ifanc, er enghraifft, y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, ac y dylai fod dolenni i'r rhain ar wefannau eraill.

> *"Gellid gwneud rhagor i alinio CLIC â* ***gwasanaethau*** *penodol eraill ar gyfer pobl ifanc yn hytrach na chyfeirio'r defnyddwyr at wefannau sefydliadau eraill neu ddarparu gwybodaeth gyffredinol am y ddarpariaeth. Er enghraifft, wrth chwilio o dan y pennawd bwlio ar raglen bori CLIC Ar-lein, fe welwch chi lwyth o erthyglau am fwlio a chewch eich cyfeirio at sefydliadau fel Child-Line, sy'n dda, ond nid oes unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at y gwasanaethau cwnsela sydd ar gael mewn ysgolion".*
> *(Un o Randdeiliad Polisi Cenedlaethol CLIC, yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant)*

Roedd y gwaith i ddatblygu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng CLIC Ar-lein (cenedlaethol a lleol) a darparwyr gwybodaeth a chyngor eraill ar gyfer pobl ifanc yn ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd yr astudiaethau achos yn amrywio'n helaeth. Yng Nghaerdydd, lle mae'r wefan CLIC leol wedi hen fwrw gwreiddiau, mae'r cysylltiadau â gwasanaethau lleol a sefydliadau'r trydydd sector yn gryf. Er enghraifft, mae theSprout (gwefan CLIC ALl Caerdydd) yn ymgysylltu'n ymarferol ag ystod eang o sefydliadau'r sector gwirfoddol fel Cardiff Against Bullying, Platform 51 a Grassroots. Mae staff theSprout yn mynychu cyfarfodydd rhwydweithio lleol a fforymau cymdogaeth hefyd. Lle'r oedd y gwefannau CLIC lleol yn dal i gael eu datblygu, nid oedd yr ymarferwyr a'r rhanddeiliaid wedi ymgysylltu'n llwyr â'r wefan leol eto. Ar Ynys Môn, mae yna fwriad clir i alinio Defaid (y wefan CLIC leol) â'r gwasanaeth Gwybodaeth Ieuenctid, Llais Ni, er mwyn:

> "...*ymgysylltu'r bobl ifanc a hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau ymgysylltu ieuenctid"*.
> (Partner Strategol CLIC yr ALl, Gwasanaeth Partneriaethau ac Addysg Pobl Ifanc)

## 4.4 Strategaethau ar gyfer ymgysylltu pobl ifanc ac ymarferwyr

Roedd ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd yr astudiaethau achos ac a oedd â gwefannau CLIC byw (ym mis Ebrill 2012), wedi rhoi strategaethau lleol ar waith i godi ymwybyddiaeth ac wedi trefnu gweithgareddau i hyrwyddo CLIC. Mabwysiadwyd amryw o ddulliau yn hyn o beth, ac amlinellir pa mor effeithiol yr oeddent yn llygaid rheolwyr yr ALlau a'r ymarferwyr isod.

*Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc:*

- Mae holl staff y gwasanaethau cymorth ieuenctid a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cydnabod bod eiriolaeth cyfoedion yn ddull allweddol o hyrwyddo ymwybyddiaeth a hwyluso ymgysylltu pobl ifanc. Mae hyn yn aml wedi cynnwys hyrwyddo a denu pobl ifanc i ymuno â'r grwpiau golygyddol:

  *"...fel dull pwysig o feithrin perchnogaeth o'r wefan a marchnata'r peth i gynulleidfa ehangach trwy ledu'r gair"*.

  *(Ymarferydd CLIC ALl, Swyddog Gwybodaeth Ieuenctid)*

Yn un o'r ALlau, mae Golygyddion Ifanc lleol wedi bod yn mynd allan i glybiau ieuenctid i siarad am CLIC er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg grwpiau lleol:

- Ymglymiad y grŵp golygyddol – cynnwys y bobl ifanc yng ngrwpiau golygyddol lleol a chenedlaethol CLIC yw un o'r sianeli allweddol y gellir eu defnyddio ar gyfer eu hymgysylltu. Mae rhoi ymdeimlad o berchnogaeth o'r gwefannau i'r bobl ifanc yn hanfodol er mwyn diogelu a chynyddu eu cyfranogiad.
- Defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol – un o gryfderau allweddol CLIC Ar-lein ym marn sawl un yw ei natur ryngweithiol, ac mae'r timau darparu lleol yn defnyddio sianeli'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu pobl ifanc:

*"...mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc ar Facebook. Mae postio neges yn golygu y gallwch chi gyrraedd nifer fawr o bobl ifanc yr un pryd, ac mae'n rhatach nag anfon neges destun".*

*(Ymarferydd CLIC ALl, Swyddog Ieuenctid a Chymunedau)*

Fodd bynnag, nododd y staff cymorth ieuenctid sy'n rheoli'r gwefannau lleol bod rheoli'r ymateb i unrhyw negeseuon o'r fath yn gallu bod yn feichus:

*"Rhaid i mi fonitro'r peth yn gyson a sicrhau fy mod i'n ymateb i unrhyw bobl ifanc sy'n ymateb i unrhyw negeseuon. Mae hyn yn gallu cymryd llawer o amser - yn enwedig os cawn nifer fawr o sylwadau am y neges!"*

*(Rheolwr Prosiect CLIC ALl, Swyddog Datblygu Ieuenctid)*

- Gweithgareddau a digwyddiadau hyrwyddo eraill - er enghraifft, dosbarthu'r cylchgrawn CLIC cenedlaethol yn lleol. Mae gan un o ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd astudiaethau achos, ei chylchgrawn CLIC lleol (yn seiliedig ar y templed cenedlaethol) sy'n cael ei ddylunio a'i gynhyrchu gan bobl ifanc. Mewn ardal arall, mae ymarfer ymgynghori ar y gweill gyda phobl ifanc i benderfynu ar ddyluniad, logo a brand y wefan. Hyd yn hyn, mae'r broses ymgynghori wedi ymgysylltu 18% o'r boblogaeth 11-25 oed yn yr ardal honno. Mae'r ALlau yn ategu gwaith marchnata cenedlaethol ehangach CLIC yn lleol, er enghraifft, trwy arddangos posteri ar gyfer y wefan CLIC cenedlaethol ar ochr blychau ffôn lleol. Fodd bynnag, roedd hi'n llai amlwg pa mor effeithiol yw'r ymagweddau hyn - gyda'r ymarferwyr yn nodi 'nad oes fawr neb yn cymryd sylw o'r posteri' ac yn cwestiynu pa mor effeithiol yw targedu blychau ffôn lleol am fod ffôn symudol gan lawer o bobl ifanc heddiw:

  *"byddai'n fwy buddiol targedu arosfannau bws am eu bod nhw'n dueddol o fod yn fannau ymgynnull i bobl ifanc gyda'r nos".*
  *(Ymarferydd CLIC ALl, Swyddog Clwb Ieuenctid)*

- Cysylltu â darpariaethau eraill - yn Wrecsam, mae'r wefan CLIC leol yn cael ei hyrwyddo trwy'r InfoShop yng nghanol y dref. Mae dros 11,000 o bobl

ifanc wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth poblogaidd hwn. Roedd yr holl bobl ifanc y siaradwyd â nhw yn rhan o ymweliad yr astudiaeth achos yn ymwybodol o'r InfoShop. Hyd yn oed os nad oedden nhw wedi defnyddio gwefan CLIC Wrecsam Ifanc, roedden nhw'n ymwybodol o'r gwasanaethau yr oedd yr InfoShop yn eu cynnig - ac roedd sawl un wedi eu defnyddio.[103] Ar Ynys Môn, mae'r wefan CLIC lleol yn cysylltu â thudalennau gwe e-ddemocratiaeth y Cyngor er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc yn chwarae rhan amlycach ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor ar lein.

*Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr:*

- Cyfarfodydd, gweithdai a chyflwyniadau - mae'r ymarferwyr eu hunain yn teimlo bod ymgysylltu ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn hanfodol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus CLIC:

  *"am y gallai fod yn offeryn i gyfoethogi'r gwaith gyda phobl ifanc".*
  *(Ymarferydd CLIC ALl, Swyddog Datblygu Ieuenctid)*

Ymhlith yr enghreifftiau o arfer da mae: cyflwyno sgyrsiau mewn ysgolion, a cholegau a gyda grwpiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc (fel canolfannau ieuenctid a grwpiau ieuenctid). Ar Ynys Môn, cyflogwyd swyddog Llais Ni (prosiect i ymgynghori â phobl ifanc) amser llawn, sy'n cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo'r wefan CLIC leol.

- Defnyddio deunyddiau sydd wedi'u datblygu'n genedlaethol i hyrwyddo CLIC Ar-lein – mae staff yr ALlau a'r ymarferwyr sy'n gyfarwydd â nhw o'r farn bod yr adnoddau sydd wedi'u datblygu gan ProMo, fel y safonau ansawdd cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth i bobl ifanc a'r adnoddau ABCh, 'o ansawdd uchel'. Roedd y rhanddeiliaid cenedlaethol a oedd yn gyfarwydd â'r adnoddau hyn yn rhannu'r un safbwynt. Ymhlith yr esiamplau o arfer da mae: dangos i athrawon sut mae'r sgiliau a ddatblygir trwy gynhyrchu

[103] Er bod gan Wrecsam gyfran gymharol isel o bobl ifanc fel defnyddwyr cofrestredig (2.6%) fel y mae Tabl 3.3 yn ei ddangos.

cynnwys ar gyfer y wefan CLIC yn gallu bod yn berthnasol yn uniongyrchol i sgiliau fel:

*"...democratiaeth, gweithredu cymunedol a gwirfoddol sy'n rhannau hanfodol o'r Fagloriaeth Gymreig; mae gennym gronfa o gyrsiau ag achrediad OCN y gallwn eu cysylltu â CLIC".*
*(Rhanddeiliad CLIC Cenedlaethol, Gweithiwyr Gwybodaeth Ieuenctid)*

- Cysylltu CLIC Ar-lein â chyfeiriaduron a rhwydweithiau darparwyr gwasanaethau lleol – mae'r staff rheoli yn teimlo bod sicrhau bod y cyfeiriaduron cyfredol sy'n cynnig gwybodaeth am wasanaethau ar gyfer pobl ifanc o bob rhan o Wybodaeth i Deuluoedd a Chymorth Ieuenctid wedi'u halinio â CLIC yn hanfodol er mwyn helpu pobl ifanc a hyrwyddo defnydd o CLIC ymysg ymarferwyr. Mae'n darparu dull o ymgysylltu ymarferwyr o'r sefydliadau sy'n cyflwyno gwasanaethau'n lleol yn uniongyrchol hefyd. Yn yr un modd, lle nad oes gan y gwefannau lleol gynrychiolwyr ar rwydweithiau lleol eisoes, fel tasgluoedd Gwybodaeth a Chyngor lleol a grwpiau Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, maent ar fin gwneud hynny.
- Chwarae rhan yn y wefan CLIC leol – er enghraifft, mae Prif Weithredwr y Cyngor wedi cofrestru gyda'r wefan CLIC leol yng Nghaerdydd ac mae'n cyflwyno sylwadau ar eitemau newyddion a straeon perthnasol ar y wefan.

Mae hyd a lled y gweithgarwch ymgysylltu a ddisgrifiwyd uchod yn sylweddol, ac mae profiad uniongyrchol wedi bwydo ymagweddau'r gwasanaethau cymorth ieuenctid yn ardaloedd yr astudiaethau achos. Wedi dweud hynny, mae yna rwystrau sy'n atal ymgysylltu grwpiau penodol yn ehangach o hyd, a chododd yr ymarferwyr a'r rheolwyr y rhain yn ystod yr ymgynghoriad ar yr astudiaethau achos. Yn eu plith mae:

- *Ymgysylltu pobl ifanc y mae angen ymagwedd sydd wedi ei theilwra'n fwy arnynt:* mae'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc a'r rhanddeiliaid cenedlaethol yn cydnabod ehangder cwmpas yr wybodaeth y mae CLIC Ar-lein yn ei chynnig. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymarferwyr yn teimlo bod yr ymagwedd mor eang (a hynny o reidrwydd) yn gallu gwneud pethau'n anodd

i bobl ifanc os nad oes cyfrifiadur ar gael iddynt yn hwylus neu os nad oes ganddyn nhw'r sgiliau llythrennedd sylfaenol i'w galluogi i ddefnyddio'r wefan.

- *Ymgysylltu pobl ifanc ar draws amrywiaeth eang o oedrannau:* mae'r ystod oedran o 11-25 y mae CLIC yn ei wasanaethu yn sylweddol, ac mae'n un sy'n cwmpasu ystod ehangach o brofiadau bywyd a phroblemau. Felly rhaid i apêl y model CLIC lleol fod yn ddeniadol i bawb. Fel y nodwyd uchod, roedd yr ymarferwyr yn cydnabod bod angen defnyddio gwahanol strategaethau i ymgysylltu'r gwahanol grwpiau oedran. Fodd bynnag, roedd adborth yr ymarferwr a'r rheolwyr yn awgrymu ei bod hi'n haws ymgysylltu'r grŵp oedran iau. Roedd yna gydnabyddiaeth gyffredinol bod ymgysylltu'r grŵp oedran hŷn yn fwy o her i CLIC, am nad oes modd eu cyrraedd trwy ysgolion, colegau a chlybiau ieuenctid.
- *Ymgysylltu pobl ifanc trwy ysgolion a cholegau*: nodwyd bod hyn yn hanfodol, yn nhermau ehangu cyrraedd CLIC yn lleol, ac yn nhermau ymgysylltu sefydliadau yn yr ardal er mwyn datblygu a chyfoethogi'r rhwydweithiau gwybodaeth lleol. Yr her ar gyfer gwefannau lleol CLIC yw dod o hyd i ddulliau eraill o ymgysylltu ysgolion yn yr ardal leol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nodwyd bod hyn yn gymharol syml, am fod athrawon yn dueddol o groesawu ymweliadau a sgyrsiau gan y timau CLIC lleol. Ar Ynys Môn:

  "..*cawsom ni gyfle i fynd i'r ysgolion i hyrwyddo Defaid a gweithiodd hyn yn dda iawn. Ond mae angen i'r staff barhau i hybu'r peth ar ôl i ni fynd, neu fe fydd pawb yn anghofio amdano eto".*
  *(Rheolwr Prosiect CLIC ALl, Swyddog Datblygu Pobl Ifanc)*

Nodwyd nad yw rhai ysgolion yn caniatáu i'w disgyblion ddefnyddio CLIC am eu bod yn cyfyngu ar ddefnydd y myfyrwyr o'r rhyngrwyd.

## 4.5 Gweithredu CLIC: ei symud ymlaen

Mae'r rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol wedi nodi bod yna gyfleoedd i ddatblygu CLIC Ar-lein ymhellach, ond maent yn cydnabod bod sialensiau'n wynebu CLIC wrth iddi geisio cyflawni ei nodau allweddol. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

*Cyfleoedd*

- Defnyddwyr wrth y llyw - mae hi'n amlwg yn beth gwerthfawr bod y bobl ifanc yn cyfrannu at y gwaith o ddylunio gwefannau lleol CLIC ac at waith y byrddau golygyddol lleol a chenedlaethol. Mae'r ffaith fod pynciau penodol (fel iechyd meddwl, perthnasau, LHDT) yn codi'n aml yn yr erthyglau ac yn y sylwadau sy'n cael eu postio ar CLIC Ar-lein yn rhoi rhyw fath o syniad o'u pwysigrwydd i'r grŵp defnyddwyr. Yn ogystal â bod yn ffordd o ymgysylltu pobl ifanc yn uniongyrchol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod defnyddio ymagwedd â defnyddwyr wrth y llyw yn sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu blaenoriaethau a phryderon y bobl ifanc eu hunain:

  *"[mae'r wefan CLIC] am y pethau sy'n bwysig i bobl ifanc".*
  *(Rheolwr Prosiect CLIC ALl, Swyddog Datblygu Pobl Ifanc)*

- Fformat rhyngweithiol CLIC - dywedodd bron pob un o'r rhanddeiliaid bod y defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol i gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl ifanc a'r cyfleuster i bobl ifanc ryngweithio'n uniongyrchol â'r cynnwys ar wefannau CLIC (trwy bostio sylwadau, cwestiynau ac erthyglau) yn nodweddion pwysig wrth helpu i hyrwyddo 'perchnogaeth o'r wefan' a'u bod yn helpu i 'fwydo ei defnydd' trwy hynny. Yn fwy cyffredinol, ystyrir bod y cyfle i bostio deunydd ar-lein yn gyfle gwerthfawr i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu, ac roedd llawer ohonynt yn mynd â hyn gam ymhellach trwy ddilyn cyrsiau hyfforddi neu chwarae rhan yn y grŵp golygyddol;
- Dolen adborth amser-real ar gyfer blaenoriaethau polisi a mentrau – roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod CLIC yn cynnig platfform ar gyfer adborth parhaus am wasanaethau a gwybodaeth a allai ddarparu dolen nôl i mewn i'r prosesau o wneud penderfyniadau a pholisïau lleol (a chenedlaethol o bosibl):

*"Mae gan elfennau rhyngweithiol CLIC y potensial i ddarparu cyfrwng ar gyfer casglu adborth uniongyrchol – amser-real – gan bobl ifanc mewn perthynas â'r mentrau, y digwyddiadau a'r cymorth penodol sy'n cael eu trefnu ar eu cyfer. Gellid defnyddio hyn i fwydo'r gwaith o gynllunio gweithgarwch lleol yn y dyfodol a gallai ddarparu adborth pwysig ar gyfer y bobl sy'n gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol mewn perthynas â blaenoriaethau polisi a strategaethau hefyd".*
*(Rhanddeiliad Polisi CLIC Cenedlaethol, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid)*

- Cydlynu'r gwasanaethau statudol a gwirfoddol er mwyn cyfoethogi'r wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc - mae CLIC Ar-lein yn cynnig cyfleoedd pellach i gydlynu gwybodaeth a gwasanaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer pobl ifanc ond nid yw'r rhain wedi'u datblygu'n llawn hyd yma. Mae angen i'r wefan genedlaethol gyflawni hyn, yn ogystal â'r rhai lleol, a hynny mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill.

*Heriau*

- Cydbwyso ethos gwefan gyda'r defnyddwyr wrth y llyw â gofynion cenedlaethol a lleol i ddarparu gwybodaeth sy'n gyfoes ac yn addas at ei phwrpas – nid yw hyn yn cael ei gyflawni'n gyson ar draws yr holl wefannau CLIC. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid cenedlaethol yn poeni nad oedd yr wybodaeth yn gyfoes mewn mannau, a bod rhai o'r dolenni at wybodaeth benodol ar goll. Er enghraifft, nid yw'r wybodaeth am brentisiaethau yn yr adran Cyflogaeth a Hyfforddiant yn gyfoes, ac er bod yna gyfeiriad at 'ganfod yr isafswm cyflog newydd ar gyfer eich oedran', nid oes dolen sy'n galluogi'r defnyddwyr i gyrchu'r wybodaeth yn gyflym o wefan CLIC. Gellid gwella'r hidlwyr gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfleuster 'chwilio' ar CLIC hefyd. Er enghraifft, mae cyfleuster chwilio cyffredinol am wybodaeth a chyngor am 'ysgariad' yn cynnig dolenni â sefydliadau fel Relate, a gwybodaeth gyffredinol am ysgariad, ond nid yw'n eu cysylltu â gwasanaethau, fel Meic, nac yn cynnig gwybodaeth am y gwasanaethau penodol y mae ysgolion yn eu darparu ar gyfer pobl ifanc, fel gwasanaethau cwnsela'r ysgolion. Yn ogystal, nododd y staff cymorth ieuenctid y cyfwelwyd â nhw:

*“Ei bod hi’n bwysig denu pobl ifanc i mewn gyda’r pethau ‘hwyliog’ ac yna rhoi’r wybodaeth gywir iddynt; gwybodaeth yw busnes allweddol CLIC, ond gellid ystyried bod rhai elfennau o’r wefan yn seiliedig ar gyfranogiad yn fwy na gwybodaeth – mae’n bwysig taro’r cydbwysedd iawn rhwng y ddau”.*
*(Ymarferydd CLIC ALl, Swyddog Gwybodaeth Ieuenctid)*

- Sicrhau derbyniad strategol a gwreiddio CLIC Ar-lein wrth ddarparu’r gwasanaethau – ym mhob un o ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd astudiaethau achos, yn hytrach na throi at CLIC am wybodaeth, mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr sy’n gweithio gyda phobl ifanc yn dueddol o gyfeirio at yr wybodaeth a’r cysylltiadau sydd ganddynt eisoes a defnyddio chwiliadau cyffredinol ar y we. Roedd ymwybyddiaeth yr ymarferwyr yr ymgynghorwyd â nhw am gynnwys CLIC (gwasanaethau a gwybodaeth) yn ardaloedd yr ALlau yn isel. Prif sylw’r staff a oedd yn gyfrifol am weithredu CLIC lleol oedd bod angen codi proffil CLIC ar lefel yr ymarferwyr – er i ambell un nodi y byddai angen darparu hyfforddiant CLIC er mwyn cynorthwyo’r rhai nad ydynt yn ‘deall’ y model darparu;
- Meithrin cysylltiadau rhwng y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a’r gwasanaethau gwybodaeth eraill sy’n cael eu darparu gan awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol sy’n gweithio gyda phobl ifanc – ym mhob un o’r ardaloedd ALlau lle cyflawnwyd astudiaethau achos, mae gwaith wedi cael ei wneud i gydlynu’r gwasanaethau cymorth ieuenctid sy’n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ar gael ar wefan CLIC yr ALlau. Mae hyn yn cynnwys er enghraifft, sicrhau bod cyfeiriaduron y gwasanaethau gwybodaeth ieuenctid yn cael eu hintegreiddio i gyfeiriadur gwefan CLIC. Fodd bynnag, mewn ambell i achos, mae anawsterau technegol gyda fformat gwefan CLIC wedi arafu’r broses yma. Yn fwy cyffredinol, roedd holl astudiaethau achos yr ALlau yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod modd cyrchu’r gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy’n cael eu darparu gan y trydydd sector trwy wefan CLIC yr ALlau. Byddai hynny’n wir pe na bai yna wefan CLIC leol - yn wir, mae datblygu gwefan CLIC ALlau wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer hyn yn aml; a

- Sicrhau bod protocolau llywodraeth ganolog a lleol yn cyd-fynd â’r modelau ar gyfer darparu’r cyfryngau cymdeithasol - dyma un o’r heriau allweddol sy’n wynebu llawer o’r rhanddeiliaid lleol. Roedd un o’r ALlau lle cyflawnwyd astudiaeth achos wedi is-gontractio rheolaeth dros CLIC ac roedden nhw’n teimlo bod hyn wedi cynnig manteision yn nhermau datblygu templed CLIC lleol sy’n gallu ymateb i’r newidiadau yn y dechnoleg yn ogystal â rhoi teimlad ‘arloesol’ a blaengar i’r wefan. Yn ôl yr astudiaethau achos mewn ardaloedd eraill, roedd protocolau TG a llywodraethu wedi golygu nad oedd modd gweld rhywfaint o gynnwys lleol CLIC ar gyfrifiaduron cyhoeddus, er enghraifft am fod prif gyfrifiaduron systemau TG ysgolion yn ‘rhwystro’ rhywfaint o gynnwys fideo CLIC, a bod hyn yn debygol o atal pobl rhag ymweld eto - ac y byddai hyn yn eu hatal rhag defnyddio’r wefan CLIC yn y pen draw.

## 4.6 Darpariaeth yn y dyfodol

Wrth edrych tua’r dyfodol dyma’r pethau oedd yn bwysig i’r rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol wrth lunio’r contract newydd ar gyfer CLIC Ar-lein :

- Cydbwyso’r angen i ddatblygu cynnwys ar ffurf gwybodaeth, gan sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn addas at ei phwrpas, gyda’r ethos o barhau i gynnal gwefan gyda’r defnyddwyr wrth y llyw.
- Helpu awdurdodau lleol i ddenu cefnogaeth strategol ac i wreiddio CLIC yn y gwasanaethau sy’n cael darparu eu ar gyfer pobl ifanc. Gallai hyn gynnwys cefnogi defnydd ymarferwyr o CLIC, denu cefnogaeth sefydliadau cenedlaethol ar gyfer CLIC, fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), a gweithio trwy rannau eraill o Lywodraeth Cymru i gysylltu CLIC ag anghenion gwybodaeth meysydd polisi eraill, fel gwybodaeth i deuluoedd.
- Ystyried sut y gellir defnyddio deunyddiau CLIC sy’n cael eu datblygu ar lefel genedlaethol i gynorthwyo pobl ifanc – mae hyn yn rhannol gysylltiedig â’r pwynt uchod, o ran dangos i’r ymarferwyr sut y gall y sgiliau sy’n cael eu datblygu trwy gynhyrchu cynnwys ar gyfer gwefannau CLIC fod yn berthnasol yn uniongyrchol i sgiliau fel democratiaeth a gweithredu cymunedol a gwirfoddol, sy’n rhannau hanfodol o’r Fagloriaeth Gymreig.

- Defnyddio model cyfryngau cymdeithasol CLIC i gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl ifanc a darparu 'dolen adborth' ar gyfer y bobl sy'n llunio polisïau ac yn darparu gwasanaethau - gellir gwneud hyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (trwy fonitro tueddiadau ac amlygu data byw o dan themâu penodol). Y rhanddeiliaid cenedlaethol a rhai o'r staff rheoli fu'n gyfrifol am dynnu sylw at hyn.
- Hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ymysg partneriaid CLIC – sefydlu porth er mwyn rhannu'r wybodaeth a'r adnoddau sy'n cael eu datblygu ar gyfer gwefannau'r ALlau a allai fod o fantais i rwydwaith CLIC i gyd. Er enghraifft, mae un ardal ALl (nad oedd yn rhan o'r astudiaeth achos)[104] wedi llunio protocol ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
- Diogelu rhagor o gyllid gan yr awdurdodau lleol i gynnal cyfranogiad pobl ifanc – sicrhau bod CLIC yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn lleol trwy ei wreiddio yn y trefniadau lleol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc. Roedd yna deimlad nad oedd cyllid yr ALlau i gynnal gwefannau lleol ac ymgysylltu pobl ifanc yn adlewyrchu hyn eto. Er enghraifft, yn ardal un ALl, CGGC oedd wedi darparu'r cyllid i gynorthwyo gwaith grŵp golygyddol lleol CLIC.
- Cynyddu'r gyfran o ymarferwyr sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymorth ieuenctid sydd wedi ennill y cymhwyster a ddatblygwyd.

## 4.7 Pwyntiau allweddol i grynhoi

Y dymuniad i wella ansawdd a chysondeb yr wybodaeth a'r cyngor a roddir i bobl ifanc, ac i ymgysylltu pobl ifanc yn y broses, sydd wrth wraidd y gwaith gyda ProMo i ddatblygu CLIC Ar-lein ar lefel leol a chenedlaethol. Mae barn ymysg mwyafrif y rhanddeiliaid bod y cynnwys gwybodaeth cenedlaethol a'r model darparu drwy'r cyfryngau cymdeithasol sy'n ategu CLIC yn bwysig. Mae sail resymegol CLIC a'r gwasanaeth darparu cenedlaethol y mae ProMo yn ei ddarparu yn dal i fod yn gadarn ym marn pob un o'r rhanddeiliaid.

[104] Pen-y-bont ar Ogwr yw hwn.

Er nad yw datblygiad gwefannau lleol CLIC wedi rhedeg yn llyfn bob tro lle nad oedd seilwaith technegol y gwefannau a oedd yn bodoli eisoes a'r templed CLIC yn cydweddu'n dda, mae staff y contractwr wedi galluogi'r awdurdodau lleol i ddarparu gwefannau lleol ac ymgysylltu pobl ifanc.

Mae'r llwyddiant wrth ddenu pobl ifanc i ddefnyddio CLIC wedi bod yn seiliedig ar gyfoedion yn lledu'r gair, cynnwys pobl ifanc mewn grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol, a hyrwyddo nodweddion rhyngweithiol gwefan CLIC. Cydnabyddir bod angen cymryd camau lleol i gynyddu defnydd y bobl ifanc. Un maen tramgwydd yw diffyg ymwybyddiaeth a defnydd cymharol yr ymarferwyr o CLIC; gellid gwneud mwy i hyrwyddo CLIC mewn ysgolion a cholegau ac ymysg athrawon, a gellid ei gysylltu â'r Fagloriaeth Gymreig ac ABCh. Gellir gwneud mwy i alinio CLIC â gwaith ymarferwyr mewn gwasanaethau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd. Er mwyn i'r porthgeidwaid a'r ymarferwyr brynu i mewn i'r peth, mae angen i hyn ddigwydd ar lefel Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ar lefel yr awdurdodau lleol.

Un o'r heriau allweddol wrth weithredu CLIC yw cynnal y cydbwysedd rhwng yr angen am ddatblygu cynnwys ar sail gwybodaeth sy'n gyfoes, yn gywir ac yn berthnasol, â chreu gwefan gyda'r defnyddwyr wrth y llyw sy'n ymgysylltu'r bobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Gallai gwaith datblygu CLIC yn y dyfodol gynnwys y canlynol hefyd:

- Defnyddio CLIC i gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl ifanc a darparu 'dolen adborth' ar gyfer y bobl sy'n llunio polisïau ac yn darparu gwasanaethau;
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau; a,
- Diogelu cyllid mwy cynaliadwy yn ardaloedd yr awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r holl waith sy'n angenrheidiol i gynnal a datblygu gwefannau CLIC lleol.

# 5 Defnydd o Adnoddau CLIC Ar-lein

Mae'r bennod hon yn crynhoi canfyddiadau'r arolwg ar-lein o bobl ifanc, a safbwyntiau'r bobl ifanc a gymerodd ran mewn trafodaethau am CLIC yn yr ardaloedd ALlau a oedd yn destun astudiaethau achos. Roedd yr arolwg a'r cwestiynau trafod yn ymchwilio i ymwybyddiaeth am adnoddau CLIC Ar-lein a'r defnydd ohonynt, a'r defnydd o ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill. Seilir y canfyddiadau ar waith ymchwil gyda 718 o bobl ifanc: 622 ohonynt trwy'r arolwg ar-lein, a 96 arall trwy'r grwpiau ffocws mewn pump ardal ALl. Gallwn gategoreiddio cyfanswm o 583 o'r bobl ifanc yma fel 'defnyddwyr' CLIC Ar-lein a 135 fel 'rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr'.[105]

Mae'n tynnu hefyd ar gyfweliadau ag ymarferwyr yn ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd astudiaethau achos a oedd yn cyffwrdd ar ddefnydd o CLIC, a'r gwaith ymchwil diweddar a gyflawnodd Arad (2011) gyda phartneriaid lleol CLIC.[106]

## 5.1 Y prif ganfyddiadau: pobl ifanc

Dyma'r prif ganfyddiadau cyffredinol:

- Mae'r ymatebion i'r arolwg ar-lein yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth (94%) wedi clywed am y gwefannau CLIC cenedlaethol a/neu leol, ond dywedodd cyfran is o gyfanswm y bobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod wedi clywed am CLIC. Mae hyn yn awgrymu hwyrach bod yna well dealltwriaeth am CLIC ymysg pobl ifanc Cymru nac yn 2007, pan nododd arolwg blaenorol bod 47% o'r bobl ifanc wedi clywed am CLIC[107].
- Wrth ymateb i'r arolwg, dywedodd 88% (549 o bobl ifanc) eu bod wedi defnyddio gwefannau CLIC – ond nid oedd y gweddill (73 o bobl ifanc) yn defnyddio'r gwefannau.

[105] Mae rhai o'r rhain yn ymwybodol o CLIC ond nid ydynt yn ei ddefnyddio.
[106] Cwmni Ymchwil Arad – Adroddiad Arolwg Adborth Partneriaid Lleol Clic, ar gyfer Llywodraeth Cymru, mis Mai 2011
[107] Estyn, Adolygiad o reolaeth a chyflwyniad y prosiect gwybodaeth a chyngor cenedlaethol - CLIC Ar-lein gan Gymdeithas Gyrfaoedd Cymru, (Mai 2007).


- Ar y cyfan, lle nad oedd y bobl ifanc yn defnyddio CLIC Ar-lein, roedd hyn yn gysylltiedig â diffyg ymwybyddiaeth am y gwasanaeth; mewn ambell i achos, nododd y bobl ifanc eu bod wedi 'clywed am CLIC' ond eu bod 'yn ansicr beth oedd e'. Fel mater o gyd-destun, mae hi'n bwysig nodi yma nad oedd gwasanaeth CLIC lleol cyflawn yn weithredol mewn dwy o'r ardaloedd ALlau lle cyflawnwyd gwaith maes ansoddol gyda phobl ifanc (gweler adran 1.2.3 i gael rhagor o fanylion am y dull gwerthuso). Roedd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn yr ardaloedd hyn yn llai ymwybodol o CLIC Ar-lein.

## 5.2 Y bobl ifanc sy'n defnyddio CLIC ar-lein

### *5.2.1 Proffil o'r defnyddwyr*

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod y gwasanaeth yn cyrraedd yr ystod oedran a dargedir ar y cyfan (gweler Ffigwr 5.1). Yn benodol, roedd cynrychiolaeth dda o'r grŵp oedran 14 i 16 oed yn yr arolwg (gyda bron i un o bob pedwar o'r ymatebion yn dod o'r grŵp oedran yma), ond cafwyd nifer is o lawer o ymatebion o'r grŵp oedran 23 i 25 oed na'r grwpiau oedran eraill (6% o'r ymatebion). Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad oedran y defnyddwyr cofrestredig. Dangosodd yr arolwg bod pobl o'r tu hwnt i ystod oedran targed y gwasanaeth yn cyrchu CLIC Ar-lein hefyd. Roedd 22% o'r ymatebwyr dros 25 oed, a allai gynnwys rhai o'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc, ac roedd cyfran fach o'r ymatebwyr o dan 11 oed (1%).

**Ffigwr 5.1 Proffil oedran y bobl ifanc sy'n defnyddio CLIC a ymatebodd i'r holiadur**





*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Cafwyd mwy o ymatebion i'r arolwg gan bobl ifanc benywaidd na rhai gwrywaidd; bron i ddau ymateb benywaidd am bob ymateb gwrywaidd (62% benywaidd: 36% gwrywaidd). Ni ddatgelodd nifer bach o'r ymatebwyr eu rhyw (2%). Disgrifiodd y rhan fwyaf o'r defnyddwyr eu hethnigrwydd naill ai fel Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig (83%). Roedd 2% pellach o'r ymatebwyr yn Affricanaidd a 2% o 'gefndir gwyn arall'. Roedd y sampl yn cynrychioli Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, Gwyddelod, a grwpiau Gwyn ac Asiaidd hefyd (llai na 2% o'r ymatebwyr ym mhob achos).

Cafwyd ymatebion gan bobl ifanc o ardaloedd pob un o'r 22 Awdurdod Lleol (gweler Ffigwr 5.2). Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r bobl ifanc a oedd yn ddefnyddwyr yn byw yn ardaloedd Caerdydd (23%) a Rhondda Cynon Taf (10%). Defnyddwyr yn Sir Fynwy, Ynys Môn, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r gynrychiolaeth isaf (1% yr un o'r ymatebwyr). Cyfran fach yn unig o'r defnyddwyr (7%) oedd yn byw y tu allan i Gymru – roedd hyn yn cynnwys pobl oedd yn byw yn Lloegr (4%) a defnyddwyr o'r Emiraethau Arabaidd Unedig ac Unol Daleithiau America (roedd y ddau yn hanu o Gymru) a'r Alban.

**Ffigwr 5.2 Lleoliad preswyl defnyddwyr CLIC**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Nid yw'n syndod efallai bod cyfran uchel o'r bobl sy'n defnyddio CLIC Ar-lein yn byw yn ardal Caerdydd; y wefan CLIC leol (theSprout) yw'r hynaf o'r holl wefannau lleol (mae'n weithredol ers 2007). Yn yr un modd, mae'r wefan leol yn Rhondda Cynon Taf wedi yn bodoli ers amser ac mae'n cael ei defnyddio'n helaeth. Yn nhermau ardaloedd yr ALlau eraill a gynrychiolwyd gan nifer fach o ymatebwyr, mae'n werth nodi:

- Nad oes gwefan CLIC leol yn Sir Benfro (er bod ganddynt eu gwefan leol annibynnol eu hunain), mae Castell-nedd Port Talbot a Sir Fynwy yn y broses o ddatblygu eu gwefannau CLIC lleol eu hunain, ond nid oedd y rhain yn weithredol adeg ysgrifennu.
- Bod lefel isel yr ymatebion o Ynys Môn yn fwy o syndod efallai, o feddwl y sefydlwyd y wefan CLIC leol (Defaid) dros flwyddyn yn ôl a'i bod wedi bod yn weithredol ers hynny.

### *5.2.2 Ymwybyddiaeth am CLIC Ar-lein a'i Defnydd*


***Ymwybyddiaeth Pobl Ifanc am CLIC Ar-lein***

Yn ôl yr ymatebion i'r arolwg (gweler Ffigwr 5.3), roedd defnyddwyr CLIC a oedd:

- Yn 16 oed neu'n iau - wedi clywed am y wefan trwy eu hysgol neu diwtor, clwb ieuenctid neu weithiwr ieuenctid yn bennaf.
- Rhwng 17 a 19 oed – yn fwy tebygol o fod wedi clywed am CLIC trwy eu ffrindiau neu gyfoedion; er i rai nodi eu bod wedi clywed am CLIC Ar-lein trwy weithwyr ieuenctid a chlybiau ieuenctid.
- Dros 20 oed – yn fwyaf tebygol o fod wedi clywed am CLIC trwy weithiwr ieuenctid, ond eto roedd ffrindiau a chyfoedion yn atgyfeirwyr pwysig, ac yn achos y grŵp oedran yma, roedd dolenni o wefannau eraill a pheiriannau chwilio cyffredinol yn bwysig hefyd.

Ymhlith y pethau eraill a gododd ymwybyddiaeth y bobl ifanc am CLIC roedd: ffeiriau a gwersylloedd haf, cyhoeddusrwydd lleol (e.e. taflenni), negeseuon e-bost uniongyrchol a phrofiad gwaith.

**Ffigwr 5.3 Sut ddaeth y defnyddwyr i glywed am y gwefannau CLIC**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Mae ymwybyddiaeth am CLIC yn gyson â'r wybodaeth ansoddol a gasglwyd trwy grwpiau ffocws yr ALlau gyda phobl ifanc, a nododd fod y sefydliadau a'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn allweddol wrth godi ymwybyddiaeth am CLIC Ar-lein. Er enghraifft, roedd y bobl ifanc a oedd wedi clywed am CLIC yn Wrecsam wedi dysgu am y gwasanaeth trwy'r InfoShop leol (canolfan wybodaeth a chyngor sydd wedi ennill ei phlwyf yng nghanol tref Wrecsam). Yng Nghaerdydd, dywedodd y bobl ifanc eu bod wedi clywed am CLIC naill ai trwy'r ysgol neu trwy glwb/gweithiwr ieuenctid lleol (yng Nghaerdydd, defnyddir y cylchgrawn CLIC lleol, Sproutzine, i helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth gyda'r sefydliadau statudol a gwirfoddol lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc).

### *Rhesymau dros gyrchu CLIC Ar-lein*


Yn ôl canfyddiadau'r arolwg, roedd y bobl ifanc wedi cyrchu CLIC Ar-lein am amryw o resymau. Nododd traean (33%) nad oedd ganddynt unrhyw reswm penodol dros

fynd ar CLIC heblaw am chwilfrydedd; dywedodd traean pellach (31%) eu bod yn chwilio am wybodaeth am rywbeth penodol (gweler Ffigwr 5.4).

Nododd cyfran lai (14%) eu bod wedi cyrchu CLIC i gael cymorth pellach gyda rhywbeth penodol. O'u dadansoddi yn ôl oedran, roedd y rhai dros 20 oed yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio CLIC i gael cymorth pellach gyda rhywbeth penodol (20%) na'r grwpiau oedran iau (dim ond 9% o'r rhai o dan 16 oed).

Nododd un o bob pump o'r bobl ifanc (20%) eu bod am ddefnyddio nodweddion rhyngweithiol CLIC Ar-lein, trwy gynnig sylwadau neu rannu profiadau. Roedd y defnyddwyr 17-19 oed ac 16 oed ac iau ychydig bach yn fwy tebygol o fod am ryngweithio ar y wefan trwy gynnig sylwadau neu rannu profiadau (23% a 24% yn ôl eu trefn) na'r rhai dros 20 oed (15%).

**Ffigwr 5.4 Rhesymau dros ymweld â gwefan CLIC**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Mae'r adborth o'r grwpiau ffocws gyda phobl ifanc yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolwg i raddau helaeth. Mewn llawer o achosion, ac yn yr un modd â'r ymatebion i'r arolwg, nid oedd y bobl ifanc o reidrwydd yn defnyddio'r wefan i chwilio am wybodaeth neu gymorth penodol. Roedd y bobl ifanc oedd yn defnyddio CLIC yn aml yn dweud eu bod yn mynd i'r wefan er mwyn *'cadw i fyny'* â'i chynnwys – ac yn benodol i weld pa eitemau newyddion neu erthyglau oedd wedi cael eu postio yno:

> *'..Mae [CLIC Ar-lein] yn ffordd dda o glywed am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol; clywais am y DofE [Gwobrau Dug Caeredin] trwy CLIC yn ddiweddar, a chefais fanylion am sut i fynd ati i ymuno â'r rhaglen'.*

> *'Rwy'n hoffi'r erthyglau ar y tudalennau newyddion yn fawr iawn, fe ddarllenais i un yn ddiweddar am ddadlau, sut i leisio safbwynt ac ennill y ddadl. Roedd hi'n dda iawn – ac yn ddefnyddiol hefyd!'*

> "*Rwy'n cysylltu'r [wefan CLIC leol] â'r erthyglau yn hytrach na'r cymorth".*

*5.2.3 Safbwyntiau am CLIC Ar-lein*

Gofynnodd yr arolwg i'r bobl ifanc nodi pa mor ddefnyddiol oedd CLIC Ar-lein yn eu barn nhw. Dywedodd 61% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod adnoddau CLIC Ar-lein 'o gymorth mawr' ac roedd 35% arall yn teimlo eu bod 'o rywfaint o gymorth'. Roedd lleiafswm o'r defnyddwyr (4%) yn teimlo nad oedd CLIC 'o gymorth o gwbl'. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag Arolwg Estyn (2007), a nododd bod y rhai a oedd yn defnyddio'r adnoddau ar-lein yn eu cael yn 'ddefnyddiol' ac 'o gymorth' am eu bod yn berthnasol i fywydau pobl ifanc yng Nghymru.

O'r bobl ifanc a nododd eu bod yn teimlo bod CLIC Ar-lein 'o gymorth', dywedodd dros hanner bod hyn am ei bod yn cynnig gwybodaeth am ystod o bynciau mewn un lle (57%) . Roedd hyn yn neges glir a gododd ar draws grwpiau ffocws yr ALlau hefyd, fel y nododd un ateb nodweddiadol:

*'..mae'r wefan yn cynnig llawer o wybodaeth ac erthyglau newyddion am amrywiaeth o bethau; y peth sy'n dda am [CLIC Ar-lein] yw bod y cyfan mewn un lle a'ch bod chi'n gallu edrych ar wahanol bethau fel y dymunwch chi'.*

Roedd sylwadau'r bobl ifanc am y gallu i ddarllen erthyglau a sylwadau defnyddwyr eraill yn bositif hefyd (37%). Eto, roedd hyn yn gyson â'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r grwpiau ffocws gyda phobl ifanc yn ardaloedd yr ALlau. Wrth eu holi beth oedden nhw'n ei hoffi am CLIC Ar-lein, canolbwyntiodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc ar natur ryngweithiol y wefan; trafodwyd hyn bennaf yn nhermau'r mecanwaith ar gyfer hwyluso cymorth i gyfoedion drwy rannu profiadau.


'..*darllen sylwadau pobl ifanc o'r un oedran, sy'n mynd trwy'r un profiadau'.*

*'..cael darllen erthyglau am bwnc penodol, ac yn enwedig y rhai sydd wedi cael eu hysgrifennu gan bobl sydd wedi cael profiad o'r peth - fel bwlio'*

*'Cael darllen erthyglau am bethau sensitif sy'n anodd eu trafod, fel yr erthyglau am ymwybyddiaeth am faterion LHDT. Mae darllen sylwadau pobl ifanc am y pethau hyn o gymorth mawr'.*

Nododd y grwpiau ffocws bod y gallu i ychwanegu cynnwys, a llwytho erthyglau, o gymorth – ac yn enwedig felly'r bobl ifanc a oedd ynghlwm wrth ddatblygu gwefannau CLIC leol *"Pe baem ni'n gwneud gwell defnydd o fideo ac offer rhyngweithiol, rwy'n credu y byddai'n haws ac yn fwy deniadol i bobl ddefnyddio'r wefan a chyfrannu ati"* – ond i raddau llai na'r nodweddion eraill. Mae'r ymatebion i'r arolwg defnyddwyr yn ategu'r farn hon, ac mae'r ymatebwyr yn llai tebygol o ystyried postio sylwadau ar bynciau penodol fel eu bod 'o gymorth' nac o droi at y wefan i gael gwybodaeth gyfoes (21% o gymharu â 54%).

**Ffigwr 5.5 Pam mae'r gwefannau CLIC 'o gymorth'**




*Sail: Y defnyddwyr a oedd o'r farn bod CLIC 'o gymorth mawr' neu 'o rywfaint o gymorth' (507); roedd lle i bob un nodi hyd at ddau reswm. Ffynhonnell Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

O ddadansoddi'r canfyddiadau yn ôl oedran, roedd y rhai dros 20 oed ychydig bach yn fwy tebygol o ddweud nad oedd CLIC Ar-lein 'o gymorth o gwbl' wrth ddarparu gwybodaeth am y materion pwysicaf (5% o gymharu â 3% o'r defnyddwyr iau). Y rhai 16 oed ac iau oedd fwyaf tebygol o ddweud bod y gwefannau 'o gymorth mawr' (62%), o gymharu â 51% o'r rhai dros 20 oed.

O'r gyfran fach o bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg gan ddweud nad oeddent o'r farn bod CLIC Ar-lein yn adnodd 'defnyddiol' (21; 4%), y rheswm mwyaf cyffredin oedd nad oedd digon o wybodaeth ar gael am fater penodol – naill ai am fod yr wybodaeth yn rhy generig neu am fod gweithrediad y wefan yn ddiffygiol:

> *'Roeddwn i am ddysgu rhagor am iselder, ond pan edrychais i ar [CLIC Ar-lein] roedd hi'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth am y peth'.*

> *'Mae'r wybodaeth yn rhy gyffredinol, yn rhy gryno, yn fratiog ac yn anaddysgiadol'.*

*'Mae'r botwm 'chwilio' ar y wefan yn cymryd amser hir i weithio ac wedyn mae e weithiau'n dangos llwyth o ganlyniadau amherthnasol'.*

Dywedodd un ymatebwr bod CLIC Ar-lein yn 'rhy ifanc' (roedd yr unigolyn hwn dros 20 oed).

***Amlder defnyddio gwefan CLIC***

Roedd bron i hanner y 549 o bobl ifanc sy'n defnyddio CLIC Ar-lein a gyflwynodd ymatebion i'r arolwg yn ei defnyddio am y tro cyntaf (45%). Er i un o bob deg nodi eu bod yn defnyddio CLIC bob dydd, ac un ym mhob pump arall nodi eu bod yn defnyddio CLIC yn wythnosol; roedd ychydig dros un ym mhob deg yn defnyddio CLIC llai nag unwaith y mis.

Yn nhermau ers pryd roedd y bobl ifanc wedi bod yn defnyddio'r wefan, roedd 19% wedi bod yn defnyddio CLIC Ar-lein ers dros flwyddyn; ac 16% wedi bod yn ei defnyddio ers rhwng chwech a 12 mis.

Mae Tabl 5.1 yn dangos bod llawer o'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg wedi nodi eu bod yn defnyddio CLIC Ar-lein yn gyson - o leiaf unwaith y mis (40%); roedd hanner y defnyddwyr hyn wedi bod yn defnyddio CLIC ers dros chwe mis (20% o'r holl ymatebwyr).

**Tabl 5.1 Amlder defnyddio CLIC yn ôl hyd y cysylltiad**

| Hyd y cysylltiad â CLIC / Amlder defnydd | Llai nag 1 mis | 1 - 3 mis | 4 - 6 mis | 7 - 12 mis | Dros 12 mis | Dim ateb | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddwyr newydd | 42% | 0% | 0% | 0% | 0% | 3% | 45% |
| Defnyddwyr cyson (o leiaf misol) | 5% | 9% | 6% | 6% | 14% | 0% | 40% |
| Defnyddwyr anaml (llai na misol) | 4% | 2% | 1% | 1% | 4% | 0% | 13% |

| Hyd y cysylltiad â CLIC / Amlder defnydd | Llai nag 1 mis | 1 - 3 mis | 4 - 6 mis | 7 - 12 mis | Dros 12 mis | Dim ateb | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim ateb | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 3% | 2% |
| Cyfanswm | 52% | 11% | 8% | 8% | 19% | 6% | 100% |

*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*


### *Cyrchu CLIC Ar-lein*

Nododd mwyafrif y bobl ifanc oedd yn defnyddio CLIC Ar-lein eu bod yn cyrchu'r gwasanaeth trwy eu cyfrifiaduron eu hunain (66%) gyda 12% pellach yn defnyddio cyfrifiadur y teulu. Roedd ychydig yn llai nag un ym mhob pump (18%) yn cyrchu CLIC trwy gyfrifiadur cyhoeddus, mewn ysgol neu lyfrgell er enghraifft; roedd 4% yn defnyddio ffôn deallus neu ffôn symudol i gyrchu CLIC.

### *Defnyddio ac ymgysylltu nodweddion rhyngweithiol CLIC Ar-lein*

Yn fwy cyffredinol, roedd 68% o'r holl ddefnyddwyr wedi edrych ar ddeunydd a oedd wedi'i lwytho ar y wefan gan sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth a chyngor, ac roedd 67% wedi edrych ar ddeunydd a gafodd ei bostio gan bobl ifanc sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth (Ffigwr 5.8). Nododd yr holl ddefnyddwyr a oedd wedi 'cofrestru' gyda CLIC Ar-lein eu bod wedi llwytho sylwadau, fideos neu sylwadau.

**Ffigwr 5.6 Defnydd defnyddwyr CLIC o'r cynnwys rhyngweithiol**





*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Mae Ffigwr 5.9 yn dangos mai'r defnyddwyr rhwng 17 a 19 oed oedd y mwyaf tebygol o fod yn 'ddefnyddwyr cofrestredig' (47%), o gymharu ag ychydig dros chwarter o'r rhai dros 20 oed (28%). Wrth ystyried pa mor aml roedd y bobl ifanc yn defnyddio'r wefan, roedd 67% o'r rhai oedd yn defnyddio CLIC yn gyson wedi cofrestru o gymharu â chwta 13% o'r defnyddwyr newydd, a 22% o'r defnyddwyr anaml. Roedd y dystiolaeth o grwpiau ffocws gyda phobl ifanc yn ardaloedd yr ALlau yn dangos bod y bobl ifanc hynny oedd yn defnyddio CLIC yn gyson yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth hefyd.

Byddai hynny'n awgrymu bod y nodweddion rhyngweithiol sydd ar gael ar CLIC yn ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo defnydd cyson yn ogystal â gyrru'r traffig a bodloni'r galw am gynnwys perthnasol.


**Ffigwr 5.7 Cyfran y defnyddwyr a oedd wedi cofrestru ar wefannau CLIC yn ôl oedran ac amlder defnydd**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). Mae'r canrannau'n cynrychioli cyfran y grŵp oedran neu amlder defnydd y defnyddwyr a gofrestrwyd ar CLIC; am hynny, nid yw'r ffigurau'n adio i 100%. Ffynhonnell Arolwg: CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Gofynnodd yr arolwg i'r bobl ifanc beth oedden nhw'n meddwl oedd dwy nodwedd fwyaf deniadol y wefan CLIC (Ffigwr 5.10). Roedd y cyfleuster i wylio fideos a darllen erthyglau gan sefydliadau sy'n cynnig cyngor ac arweiniad cyffredinol yn bwysig i lawer (37%), ynghyd â newyddion cyfoes (32%), gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol (30%) a'r gallu i wylio fideos a grëwyd gan bobl ifanc eraill (30%). Y nodwedd leiaf deniadol oedd y gallu i bleidleisio trwy arolygon barn ar-lein (12%).

**Ffigwr 5.6 Nodweddion mwyaf deniadol gwefan CLIC**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). Mae'r ffigurau'n cynrychioli 903 o ymatebion am y câi pob 'defnyddiwr' ddarparu dau ateb i'r cwestiwn yma. Ffynhonnell Arolwg: CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

### *5.2.4 Defnydd o CLIC Ar-lein: y deilliannau ar gyfer pobl ifanc*


Nododd 61% o'r holl bobl ifanc sy'n defnyddio CLIC Ar-lein eu bod nhw wedi cymryd rhyw fath o gamau pellach ar ôl cyrchu'r wefan (Ffigwr 5.).

Gofynnodd yr arolwg i'r bobl ifanc gadarnhau pa fathau o gamau pellach roedden nhw wedi eu cymryd trwy nodi a oedden nhw wedi gwneud unrhyw un o'r pethau canlynol:

- Defnyddio gwybodaeth ar CLIC i helpu 'i benderfynu beth i'w wneud' am rywbeth (63%).
- Mynychu digwyddiad ar ôl gweld hysbyseb ar CLIC (43%).
- Chwilio gwefan arall y daethant ar ei thraws ar CLIC (65%).
- Defnyddio gwybodaeth o wefan arall y daethant ar ei thraws ar CLIC i'w helpu 'i wneud penderfyniad' am rywbeth (54%).

- Cysylltu'n uniongyrchol â sefydliad arall y cyfeiriwyd nhw ato gan CLIC Ar-lein i gael gwybodaeth a chyngor pellach (38%).

**Ffigwr 5.9 Camau a gymerwyd gan bobl ifanc ar ôl defnyddio CLIC Ar-lein (data yn ôl amlder defnydd)**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Y defnyddwyr cyson oedd fwyaf tebygol o fod wedi cymryd camau pellach ar ôl cyrchu CLIC. Yn fwy penodol, nododd 61% o'r defnyddwyr cyson eu bod wedi mynychu digwyddiad o gymharu â 31% o'r defnyddwyr newydd a 34% o ddefnyddwyr anaml. Cysylltodd traean o'r defnyddwyr newydd â sefydliad arall ar ôl defnyddio CLIC Ar-lein.

Mae dadansoddi'r ymatebion yn ôl oedran yn datgelu mân-amrywiadau (Tabl 5.2). Y defnyddwyr iau oedd fwyaf tebygol o fod wedi defnyddio'r wybodaeth ar CLIC i'w

helpu i benderfynu 'beth i'w wneud' am rywbeth (70% o'r rhai o dan 16 oed o gymharu â 54% o'r rhai dros 20 oed). Y bobl ifanc 19 oed neu'n iau oedd fwyaf tebygol o fod wedi mynychu digwyddiad ar ôl gweld hysbyseb ar CLIC (48%). Nid oedd unrhyw wahaniaethau o ran oedran yn nhermau'r ymatebwyr a nododd eu bod wedi cysylltu â sefydliad arall ar ôl defnyddio CLIC Ar-lein (tua 38-39% ym mhob grŵp oedran).

**Tabl 5.2 Camau a gymerwyd gan bobl ifanc ar ôl defnyddio CLIC Ar-lein (yn ôl oedran ac amlder defnydd)**

| | Oedran | | | Pob defnyddiwr | Amlder Defnydd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **O dan 16 oed** | **17 i 19 oed** | **Dros 20 oed** | | **Anaml (llai nag unwaith y mis)** | **Cyson (o leiaf unwaith y mis)** | **Newydd** | **Amlder defnydd anhysbys (dim ymateb)** |
| Wedi defnyddio gwybodaeth ar y wefan i helpu i **benderfynu 'beth i'w wneud' am rywbeth** | **70%** | 66% | 54% | 63% | 51% | **72%** | 58% | 40% |
| Wedi edrych ar wefannau eraill y daethant ar eu traws ar CLIC **i gael rhagor o gymorth a chyngor** | 60% | 67% | **72%** | 65% | **73%** | **73%** | 57% | 20% |
| **Wedi defnyddio gwybodaeth o wefannau eraill**/sefydliadau y daethant ar eu traws trwy'r wefan i helpu i benderfynu 'beth i'w wneud' am rywbeth | **58%** | **58%** | 50% | 54% | 43% | **63%** | 49% | 50% |
| **Wedi mynychu digwyddiad** ar ôl gweld hysbyseb ar y wefan | **48%** | **48%** | 37% | 43% | 34% | **61%** | 31% | 20% |
| **Cysylltu'n uniongyrchol** â sefydliadau eraill y daethant ar eu traws trwy'r wefan i gael rhagor o wybodaeth a chyngor | 39% | 39% | 38% | 38% | 29% | **45%** | 37% | 0% |

*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Roedd yr adborth a gasglwyd gan bobl ifanc trwy'r grwpiau ffocws yn ardaloedd yr ALlau yn dangos eu bod yn defnyddio CLIC Ar-lein fel ffynhonnell gwybodaeth neu fel cyfleuster cyfeirio. Er enghraifft, roedd un ymatebwr wedi cysylltu â Meic ar ôl dod o hyd i'w fanylion ar CLIC, a chafodd ei fod *"yn dda iawn, o gymorth mawr ac wedi fy helpu i symud ymlaen".*

Fodd bynnag, dangosodd yr adborth ansoddol a gasglwyd trwy'r grwpiau ffocws bod llawer o bobl yn teimlo bod y cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr sydd ar gael trwy CLIC - ac yn benodol yr eitemau newyddion a'r erthyglau - yn bwysicach na'r cyfeiriaduron gwybodaeth eu hunain. Wrth gwrs, mae'n anochel bod yna berygl mewn gwaith ymchwil o'r math hwn bod rhai pobl ifanc yn gyndyn i ddatgelu gwybodaeth am y gwasanaethau pellach y maent wedi eu cyrchu, ac yn arbennig mewn perthynas â materion a allai fod yn sensitif, fel iechyd meddwl a bwlio er enghraifft.


***Defnydd o ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill, a safbwyntiau amdanynt***

Nododd cyfanswm o 9% o'r defnyddwyr eu bod yn defnyddio CLIC Ar-lein fel eu hunig ffynhonnell gwybodaeth a chyngor. Yn amlach, roedd yr ymatebwyr yn manteisio ar gysylltiadau personol i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau am eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau pob dydd. Y 'ffynhonnell' a enwyd amlaf oedd ffrindiau a chyfoedion (45%), wedyn rhieni/gofalwyr ac ysgolion (30%). Nid yw'n syndod bod cysylltiad wyneb yn wyneb ag oedolyn a/neu rywun o'r un oedran y mae'r person ifanc yn ymddiried ynddo'n dal i fod yn ffynhonnell bwysig ar gyfer gwybodaeth a chyngor.

Mae'r negeseuon allweddol o grwpiau ffocws yr ALlau â phobl ifanc yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolwg. Ymhellach, er bod chwiliadau ar-lein yn bwysig wrth geisio dod o hyd i wybodaeth am bwnc neu fater penodol, roedd yr adborth yn dangos bod gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb yn dal i fod yn bwysig wrth ddatrys problemau neu wneud penderfyniadau.

Gofynnwyd i'r bobl ifanc ystyried adnoddau CLIC Ar-lein o'u cymharu â'r mathau eraill o wybodaeth a chyngor yr oedden nhw wedi'u defnyddio. Mae Ffigwr 5. yn dangos nad oedd 22% wedi cyrchu gwybodaeth a chyngor arall ar-lein felly nid oedd modd cymharu. Nododd dau ddeg chwech y cant bod CLIC 'yn well' na ffynonellau eraill. Roedd y bobl ifanc 16 oed ac iau yn fwy tebygol o ddweud bod CLIC Ar-lein yn well na'r gwefannau gwybodaeth a chyngor ar-lein eraill roedden nhw wedi eu cyrchu (37%) na'r rhai dros 20 oed (18%).

**Ffigwr 5.10 Cymharu gwefan CLIC â mathau eraill o wybodaeth a chyngor ar-lein**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Wrth ymateb i'r arolwg, dywedodd y bobl ifanc 16 oed ac iau a oedd yn teimlo bod CLIC Ar-lein yn well na ffynonellau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad *ar-lein* eraill:

- Hygyrchedd: "*...oherwydd, er ei bod yn rhoi'r holl wybodaeth allweddol, mae'n cynnig cysylltiadau â gwefannau eraill hefyd lle gallaf i droi am ragor fyth o wybodaeth fanwl am bwnc penodol".*
- Fformat hwylus: *"Mae popeth yn hawdd i'w ddefnyddio ac nid yw'n ddryslyd wrth ddarllen erthygl"; "Mae hi'n fwy dealladwy i bob math o bobl ei darllen, gan gynnwys pobl ag anawsterau darllen"; "Rwy'n hoffi'r lliwiau, mae'n apelio ata'i"; "Mae hi'n fwy anffurfiol a phersonol, gan wneud i rywun deimlo'n fwy cyffyrddus"; "Nid oes llwythi a llwythi o ysgrifen".*
- Y defnyddwyr wrth y llyw: *"Dim ond pobl ifanc sy'n postio'r wybodaeth, mae popeth yn cael ei gyhoeddi ac mae amrywiaeth anhygoel o gymorth a phethau cŵl ar gael yno"; "Mae llwyth o bethau ar gyfer pobl ifanc"; "Mae'n hawdd ei defnyddio ac nid yw'n ailadroddus, pobl sy'n creu'r cynnwys ar*

*gyfer pobl, nid rhyw newyddiadurwyr diog...”; “Mae’n fwy sgyrsiol a defnyddiol. Dyw e ddim yn nawddoglyd fel rhai o’r gwefannau cymorth ar gyfer pobl ifanc”; “Mae’r wefan yn cynnwys fideos sydd wedi cael eu gwneud gan bobl ifanc eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth ac mae hyn yn gwneud y peth yn fwy personol”.*

- Amgylchedd rhyngweithiol diogel: *“Mae’n well am eich bod chi’n gallu dweud eich dweud heb i neb dynnu’ch coes. Weithiau maen nhw hyd yn oed yn gallu’ch helpu chi”.*
- Man canolog i ddarparu gwybodaeth leol: “*Mae hi fel llyfr ar-lein”*; *“Mae’r cyfan mewn un lle ac yn lleol i mi”.*

Nododd y defnyddwyr rhwng 17 a 19 oed y pwyntiau canlynol:

- Y gallu i ryngweithio: *“Gallwch lwytho erthyglau/adolygu digwyddiadau a meithrin cyfeillgarwch â defnyddwyr eraill”; “Rwy’n gallu adio fy stwff fy hunan”; “...trwy adael i bobl eraill ddweud eu dweud a phostio eu safbwyntiau eu hunain, rwy’n teimlo ei bod hi’n fwy gwerthfawr o lawer i’r darllenydd”.*
- Y defnyddwyr wrth y llyw: *“Mae hi’n well am mai pobl ifanc fel fi sy’n ysgrifennu’r stwff, felly mae’n haws uniaethu â hi”; “Mae hi’n lleisio safbwyntiau’r bobl ifanc yn hytrach na bod pobl hŷn yn trio cofio sut roedden nhw’n teimlo pan oedden nhw’n ifanc”.*
- Ehangder yr wybodaeth: *“...mae’n caniatáu i amrywiaeth o safbwyntiau gael eu lleisio ar bob math o faterion”*.

Nododd y defnyddwyr dros 20 oed y pwyntiau canlynol:

- Y defnyddwyr wrth y llyw: *“Nid ‘pobl broffesiynol’ yn unig sy’n cyflwyno’r erthyglau, ond unigolion sydd wedi cael profiad o’r pwnc/pynciau o dan sylw hefyd. Mae hyn yn gwneud i chi deimlo “nid fi yw’r unig un”; “... mae’n hwylus i bobl ifanc – ac mae clywed profiadau pobl eraill yn gallu lleihau straen eich sefyllfa”.*
- Yn berthnasol yn lleol: “*Am ei bod wedi ei lleoli mewn tref fach, rwy’n teimlo fy mod i’n cysylltu ac yn uniaethu’n well â’r erthyglau ac â’r bobl eraill ar y wefan, yn hytrach na pheidio ag adnabod neb o gwbl”.*

- Fformat a diwyg hwylus*: "...gallwch gael gafael ar wybodaeth yn gyflym"; "Mae'n glir ac yn gryno heb ormod o 'ychwanegion'"; "Mae'n loyw ac yn fodern".*

Nododd ambell un (3%) eu bod yn teimlo bod CLIC Ar-lein yn 'waeth' na ffynonellau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad eraill ar-lein. Roedd y rhesymau dros hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- Nad yw'r wybodaeth yn gyfoes: *"...yn ôl pob golwg, bu angen diweddaru'r tudalennau gwybodaeth ers amser hir".*
- Gwe-lywio gwael: *"Rwy'n teimlo weithiau bod yr wybodaeth yn anos ei chyrraedd, nad yw'r dolenni uniongyrchol mor hawdd i'w ffeindio heb ddilyn rhai eraill, ac nid yw rhai ohonyn nhw'n gweithio o gwbl" .*
- Diffyg gwybodaeth leol: *"Mae gormod o fylchau yn yr wybodaeth leol, gormod o wybodaeth o'r wefan genedlaethol neu o ardaloedd eraill; mae angen i'r peth fod yn fwy lleol i fod yn berthnasol, ac mae angen i rywun fod yn gallu ffeindio'r wybodaeth yma'n rhwydd".*

Roedd hyn yn destun pryder cyffredin ymysg y rhai a ymatebodd i arolwg Estyn yn 2007 hefyd, a nododd:

> *"..nad oes digon o wybodaeth leol ar gyfer rhai pobl ifanc, ac nid yw rhai testunau gwybodaeth ar gael o gwbl ar y wefan genedlaethol. Mae'r cydlynwyr lleol yn sefydlu cysylltiadau da â darparwyr gwasanaeth yn eu hardaloedd i ddatblygu tudalennau gwybodaeth leol; fodd bynnag, mae cyflymder y gwaith hwn yn amrywio gormod ledled Cymru".*[108]

***Hyrwyddo CLIC Ar-lein***


Gofynnodd yr arolwg i'r bobl ifanc am y dulliau gorau o hyrwyddo gwasanaethau fel CLIC Ar-lein (Ffigwr 5.14). Roedd yr ymatebwyr o'r farn mai Facebook neu wefannau rhyngweithio cymdeithasol eraill (55%) oedd y ffordd orau o wneud hyn, wedyn

[108] Estyn, Adolygiad o reolaeth a chyflwyniad y prosiect gwybodaeth a chyngor cenedlaethol - CLIC Ar-lein gan Gymdeithas Gyrfaoedd Cymru, (Mai 2007), t12

hyrwyddo trwy ysgolion a cholegau (42%). Dywedodd 22% o'r defnyddwyr fod clybiau ieuenctid a gweithwyr ieuenctid yn bwysig wrth hyrwyddo'r gwasanaethau hefyd. Nifer cymharol fach o ddefnyddwyr oedd yn teimlo bod canolfannau gwaith neu yrfaoedd (7%) neu'r cylchgrawn CLIC (7%) yn ffyrdd da o hyrwyddo CLIC Ar-lein.

Yn ôl y disgwyl, dangosodd dadansoddiad o ran oedran bod y bobl ifanc o oedran ysgol yn fwy tebygol o feddwl bod ysgolion yn gyfrwng da i hyrwyddo'r gwefannau. Roedd dros hanner yr holl grwpiau oedran yn teimlo bod Facebook, Twitter neu wefannau rhwydweithio cymdeithasol eraill yn gyfryngau da i hyrwyddo gwasanaeth fel CLIC Ar-lein.

**Ffigwr 5.11 Safbwyntiau pobl ifanc am y ffordd orau o hyrwyddo gwefannau CLIC**




*Sail: Pob defnyddiwr (549). 656 o ymatebion am fod modd i bawb nodi mwy nag un ateb. Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Mae'r dystiolaeth o drafodaethau'r grwpiau ffocws yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolwg. O'u holi am eu safbwyntiau ynghylch y dulliau mwyaf effeithiol o hyrwyddo CLIC, yr atebion mwyaf cyffredin oedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, trwy ysgolion a thrwy glybiau ieuenctid. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc o'r farn bod y cyfryngau cymdeithasol, yn benodol, yn hanfodol, yn enwedig yn achos gwasanaeth ar-lein ar gyfer pobl ifanc fel CLIC – *"byddai ein [gwefan CLIC leol] yn siŵr o elwa pe bai pobl yn gallu postio fideos a lluniau yn ôl ac ymlaen o Facebook, Twitter ac Youtube".* Ond nid pawb oedd o blaid cyrchu CLIC trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y bobl a gymerodd ran mewn un grŵp ffocws eu bod yn defnyddio Facebook i gyfathrebu â'u ffrindiau, ond yn defnyddio CLIC fel ffynhonnell gwybodaeth, ac roedden nhw'n gweld y ddau felly fel pethau ar wahân.

Ystyrir bod ysgolion a chlybiau ieuenctid yn ffordd allweddol o ymgysylltu pobl ifanc. Roedd rhai aelodau o'r grwpiau golygyddol yn teimlo bod hyrwyddo gwefannau lleol trwy fynychu digwyddiadau yn effeithiol hefyd *"daeth llwythi o bobl atom ni yn sioe Môn y llynedd, ac roedd llawer o ddiddordeb, rydyn ni'n awyddus am gael gwneud yr un peth eto eleni a denu cefnogaeth".*

Nid oedd y bobl ifanc o'r farn bod hyrwyddo CLIC trwy daflenni, cylchgronau a phosteri, yn effeithiol. Ychydig o'r bobl yn y grwpiau ffocws a oedd yn ymwybodol o'r rhain neu a oedd wedi cael eu denu i ddefnyddio CLIC Ar-lein trwy'r dulliau hyn.


## 5.3 Pobl ifanc nad oeddent yn defnyddio CLIC Ar-lein

Gellid categoreiddio 73 o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg CLIC (12% o'r ymatebion) fel rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr; ac nid oedd rhyw hanner y bobl hyn yn ymwybodol o CLIC Ar-lein. Oherwydd y niferoedd bach, nid yw'r rhain wedi cael eu cofnodi fel canrannau ar y cyfan, a chyfunwyd y canlyniadau hyn ag adborth y bobl ifanc nad oeddent yn defnyddio CLIC a gymerodd ran yn grwpiau ffocws.

### *5.3.1 Proffil y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr*


Roedd hanner y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr rhwng 14 ac 16 oed, gydag un ym mhob pump pellach rhwng 11 a 13 oed, ac un arall ym mhob pump yn 17-19 oed. Dywedodd bron pob un o'r rhain eu bod yn Brydeinig.

**Ffigwr 5.12 Oedran y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr CLIC Ar-lein**




*Sail: Yr holl bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr (73). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

**Ffigwr 5.7 Lleoliad preswyl y bobl nad ydynt yn defnyddio'r wefan**





*Sail: Yr holl bobl nad ydynt yn defnyddio'r wefan (73). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

### *5.3.2 Ymwybyddiaeth am CLIC Ar-lein*

Nid oedd dros hanner y bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr wedi clywed am wefan genedlaethol CLIC nac am unrhyw rai o wefannau CLIC lleol. Y gwefannau lleol yr oedd y nifer fwyaf o bobl ifanc wedi clywed amdanynt oedd Fflintyr Ifanc a TOWIP. Roedd hynny i raddau helaeth fod cyfran uwch o'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg gan ddweud nad oeddent yn defnyddio'r wefan yn byw yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn (Sir y Fflint a Phowys). Nifer bach yn unig o'r bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr oedd wedi clywed am wefan genedlaethol CLIC.

Lle'r oedd y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr wedi clywed am CLIC Ar-lein, roedd y rhan fwyaf wedi clywed am y gwasanaeth trwy glwb ieuenctid neu'r ysgol.


**Ffigwr 5.8 Sut roedd y bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr wedi clywed am CLIC Ar-lein**




*Sail: 35 o bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr. Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Lle'r oedd y bobl ifanc wedi clywed am wefannau CLIC ond wedi dewis peidio â'u defnyddio, nododd tua chwarter eu bod *'yn hapus â'r cyngor a'r cymorth maen nhw'n ei gael eisoes'.* Nid oedd hi'n rhwydd i rai o'r bobl hyn gyrchu cyfrifiadur, ac felly roedd cael cymorth ar-lein yn broblem.

**Ffigwr 5.15 Rhesymau dros beidio â defnyddio gwefannau CLIC**





*Sail: 23 ymateb (lle'r oedd y person wedi clywed am wefannau CLIC ond heb eu defnyddio).*
*Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

### *5.3.3 Defnydd y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr o wybodaeth a chyngor*

Roedd mwyafrif y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr yn gofyn am wybodaeth a chyngor gan eu ffrindiau, eu cyfoedion neu eu rhieni; wedyn yr ysgol neu'r coleg neu glwb ieuenctid. Doedd neb o'r bobl ifanc dros 20 oed yn troi at eu rhieni am gyngor neu arweiniad, o gymharu â rhyw hanner y bobl ifanc 19 oed ac iau. Roedd y bobl ifanc dros 20 oed yn fwy tebygol o droi at eu ffrindiau neu gyfoedion am wybodaeth a chyngor na'r rhai iau.

**Ffigwr 5.16 Ffynonellau gwybodaeth a chyngor y bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr**




*Sail: Yr holl bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr 73; (118 o ymatebion am fod modd i'r ymatebwyr ddarparu hyd at 2 ymateb yr un). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Gofynnwyd i'r bobl a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws nad oeddent yn ddefnyddwyr gwefan CLIC ddweud i ble'r oedden nhw'n troi am wybodaeth a chyngor. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd rhieni a ffrindiau, athrawon ac arweinwyr clybiau ieuenctid. Mewn perthynas â ffynonellau gwybodaeth ar-lein, roedd Google, Wikipedia a Yahoo ymhlith yr ymatebion, ond dim gwefannau penodedig. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn defnyddio Facebook a Youtube.

### *5.3.4 Safbwyntiau am nodweddion a gweithrediad CLIC Ar-lein*

Gofynnodd yr arolwg i'r bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr ystyried rhai o'r prif nodweddion ac elfennau allweddol y mae CLIC Ar-lein yn eu cynnig, sef:


- Gweld fideos ac erthyglau sydd wedi'u postio gan sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol.

- Gweld fideos, erthyglau a sylwadau sydd wedi'u postio gan bobl o'ch oedran ar ystod o bynciau.
- Llwytho'ch fideos, erthyglau a sylwadau eich hun am bynciau sy'n bwysig i chi.
- Rhannu a chyfnewid safbwyntiau am ystod o bynciau â phobl o'r un oedran
- Dysgu am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol lle gallwch gael gwybodaeth a chyngor.

Wedyn gofynnwyd i'r bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr ystyried beth fyddai **fwyaf defnyddiol** iddynt yn nhermau cyrchu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, a pha rai o'r nodweddion fyddai **fwyaf tebygol** o'u darbwyllo i ddefnyddio gwasanaeth fel CLIC Ar-lein.

Mae Ffigwr 5.21 yn dangos mai'r nodwedd 'fwyaf defnyddiol' i'r bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr fyddai'r gallu i gael gwybod am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol lle gellir cael gwybodaeth a chyngor. Roedd rhyw draean o'r bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr yn teimlo mai'r gallu i weld fideos ac erthyglau gan sefydliadau a phobl ifanc oedd y peth 'mwyaf defnyddiol' (sy'n cyd-fynd yn fras â safbwyntiau'r defnyddwyr). Roedd y bobl ifanc nad oeddent yn defnyddio CLIC yn llai tebygol o deimlo bod y gallu i leisio safbwyntiau neu i rannu eu fideos eu hunain yn ddefnyddiol.

**Ffigwr 5.97 Safbwyntiau'r bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr am nodweddion CLIC a fyddai 'fwyaf defnyddiol' iddynt**





*Sail: Yr holl bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr (73); (113 o ymatebion am fod modd i ymatebwyr ddarparu hyd at ddau ymateb yr un). Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Yn yr arolwg, nododd llawer o'r bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr y gallai'r cyfleuster i weld fideos ac erthyglau sy'n darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol, a chael gwybod am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn eu hardal leol eu darbwyllo i fod yn ddefnyddwyr (gweler Ffigwr 5.22).

Roedd hyn yn gyson â safbwyntiau'r bobl ifanc nad oeddent yn ddefnyddwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws lle'r oedd gan lai ddiddordeb yn y cyfleuster i ychwanegu neu lwytho cynnwys neu sylwadau personol nag yn y cynnwys o ran gwybodaeth. Roedd rhai yn llai sicr am werth llwytho deunyddiau oherwydd ansicrwydd ynghylch unrhyw ôl-effeithiau a allai godi yn sgil hyn *"Fydden i ddim yn adio erthygl rhag ofn bod rhywun yn dweud rhywbeth cas amdanaf i".* Gallai hyn adlewyrchu eu defnydd cyfredol o wefannau rhwydweithio cymdeithasol sydd heb eu rheoleiddio, fel Facebook a Twitter.

**Ffigwr 5.18 Safbwyntiau'r bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr am y nodweddion a allai eu darbwyllo i ddefnyddio gwefannau CLIC**




*Sail: rhwng 67 o'r bobl nad ydynt yn defnyddio'r gwefannau. Ffynhonnell: Arolwg CLIC Ar-lein (Mehefin 2012).*

Roedd y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr o'r farn mai Facebook, Twitter a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol eraill, ysgolion a cholegau oedd y cyfryngau gorau i hyrwyddo CLIC (sy'n cyd-fynd â safbwyntiau'r defnyddwyr). Y bobl ifanc dros 20 oed oedd y mwyaf tebygol i feddwl bod canolfannau gwaith neu ganolfannau gyrfaoedd yn ffordd dda o hyrwyddo CLIC Ar-lein.

## 5.4 Defnydd ymarferwyr o CLIC Ar-lein

Dangosodd gwaith ymchwil Arad gyda phartneriaid lleol CLIC:

- Bod ymwybyddiaeth dda am CLIC gyda 14 o bartneriaethau lleol wedi cael gwybodaeth neu wedi clywed am y prosiect CLIC cyfredol erbyn o leiaf 2009.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr wybodaeth am CLIC yr oedden nhw wedi ei chael yn glir ac yn hawdd ei

deall. Fodd bynnag, roedd rhyw draean o'r ymatebwyr (chwech i gyd) yn ansicr a oedd yr wybodaeth yr oedden nhw wedi ei chael wedi eu galluogi nhw i ddeall sut y gallai CLIC helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran darparu gwybodaeth leol ar gyfer pobl ifanc. Roedd tri ymatebwr arall yn sicr nad oedd yr wybodaeth am CLIC wedi eu galluogi i ddeall sut y gallai CLIC eu cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion o ran darparu gwybodaeth leol ar gyfer pobl ifanc.

- Pwynt allweddol ar gyfer ymarferwyr oedd bod angen rhagor o gefnogaeth, mewn rhai achosion, ar bartneriaid lleol i ddeall sut y gallai CLIC gyfrannu at agweddau ehangach ar eu hanghenion o ran darparu gwybodaeth leol ar gyfer pobl ifanc. Yn hyn o beth, nododd un ymatebwr bod CLIC yn gosod gormod o bwyslais ar gynnig atebion ar y we yn eu barn nhw, pan y dylai'r pwyslais fod ar gynorthwyo gwasanaethau'r rheng flaen i gynnig mwy o gyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb.

Nododd yr ymarferwyr a oedd yn gweithio gyda phobl yn ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd yr astudiaethau achos y canlynol:

- Er bod ymwybyddiaeth yn uchel mewn nifer o achosion, o ran bod y bobl ifanc wedi clywed am CLIC Ar-lein (ac eithrio ardal astudiaeth achos yr ALl lle nad oedd gwefan CLIC leol wedi cael ei datblygu adeg cyflawni'r gwaith ymchwil), roedd ymwybyddiaeth yn isel ar lefel yr ymarferwyr, o ran sut i ddefnyddio CLIC fel adnodd ar gyfer eu gwaith gyda phobl ifanc.
- Roedd lefelau defnydd o CLIC Ar-lein ymhlith ymarferwyr yn amrywio'n helaeth ar draws ardaloedd yr ALlau lle cyflawnwyd yr astudiaethau achos, ac nid oedd nifer bach o ymarferwyr yn defnyddio'r wefan o gwbl.
- Esboniodd rhai ymarferwyr bod eu defnydd isel yn seiliedig ar ddau ffactor: yn gyntaf, y ffaith fod gan ymarferwyr 'ffynonellau gwybodaeth sefydledig a chadarn' y maent yn gyfarwydd â nhw ac y maent yn dueddol o'u defnyddio yn eu gwaith gyda phobl ifanc; ac yn ail, gall nodweddion y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw effeithio ar y mathau o wybodaeth a chymorth sydd eu hangen arnynt. Er bod y ddarpariaeth yn ceisio bod yn gwmpasog, ac er bod cylch gorchwyl CLIC yn anelu at fod yn gynhwysol, roedd rhai ymarferwyr yn teimlo nad CLIC oedd y ffynhonnell gwybodaeth fwyaf priodol

bob tro, er enghraifft ar gyfer pobl ifanc yr oedd eu hanghenion yn seiliedig ar broblem iechyd benodol.

- Lle'r oedd ymarferwyr yn defnyddio CLIC Ar-lein yn rheolaidd yn eu gwaith gyda phobl ifanc, defnyddiwyd CLIC nid yn unig fel ffynhonnell gwybodaeth ar eu cyfer nhw eu hunain, ond hefyd fel offeryn ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc hefyd. Maent yn dangos iddynt sut i ddefnyddio'r wefan i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd eu heisiau arnynt, gan alluogi'r bobl ifanc i ddefnyddio'r wefan ar eu pennau eu hunain wedyn.

## 5.5 Pwyntiau allweddol i grynhoi

### *Pobl Ifanc*

- Roedd 94% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg wedi clywed am wefan genedlaethol CLIC a/neu'r rhai lleol. Mae hyn yn dangos hwyrach bod yna well ymwybyddiaeth am CLIC ymysg pobl ifanc Cymru nawr nag yn 2007. Nid oedd dros hanner y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr (53%) wedi clywed am wefan Genedlaethol CLIC nac am unrhyw un o wefannau lleol eraill CLIC.
- Yn y grwpiau ffocws gyda phobl ifanc, dywedodd cyfran lai o'r bobl ifanc eu bod yn defnyddio CLIC Ar-lein yn weithredol. Ar y cyfan, roedd diffyg defnydd y bobl hyn o CLIC yn gysylltiedig â diffyg ymwybyddiaeth lwyr am y gwasanaeth; mewn ychydig o achosion, nododd y bobl ifanc eu bod wedi clywed am CLIC ond nid oeddent yn siŵr beth oedd e.
- Roedd defnyddwyr CLIC a oedd yn 16 oed neu'n iau - wedi clywed am y wefan trwy eu hysgol neu eu tiwtor, neu trwy glwb ieuenctid neu weithiwr ieuenctid yn bennaf; roedd y rhai oedd rhwng 17 ac 19 oed - yn fwy tebygol o fod wedi clywed am CLIC trwy eu ffrindiau neu gyfoedion; er i rai nodi eu bod wedi clywed am CLIC Ar-lein trwy weithwyr ieuenctid a chlybiau ieuenctid. Roedd y rhai oedd dros 20 oed yn fwyaf tebygol o fod wedi clywed am CLIC trwy weithiwr ieuenctid; er, unwaith eto, roedd ffrindiau a chyfoedion yn bwysig yn nhermau atgyfeirio. Ar gyfer y grŵp oedran hwn, roedd dolenni o wefannau eraill a chwiliadau cyffredinol ar y rhyngrwyd yn

bwysig hefyd. Roedd canfyddiadau'r astudiaethau achos yn ôl ALl yn cyd-fynd â hyn.

- Roedd y bobl ifanc wedi cyrchu at CLIC Ar-lein am amryw o resymau. Nododd traean o'r bobl ifanc eu bod wedi ymweld â CLIC drwy chwilfrydedd yn unig; nododd traean pellach (31%) eu bod wedi mynd i'r wefan er mwyn chwilio am wybodaeth am fater penodol. Roedd canfyddiadau'r astudiaethau achos yn ôl ALlau yn cyd-fynd â hyn.
- Roedd mwyafrif y defnyddwyr (dros 90%) yn teimlo bod adnoddau CLIC Ar-lein 'o gymorth'. Nododd dros hanner mai'r peth gwerthfawr oedd bod CLIC yn cynnig man canolog i droi ato i gael gwybodaeth am bob math o faterion.
- Lle'r oedd y bobl ifanc wedi clywed am wefannau CLIC ond eu bod wedi dewis peidio â'u defnyddio, nododd 26% eu bod 'yn hapus ar y cyngor a'r cymorth [rwy'n] ei gael yn barod'. Roedd cyrchu cyfrifiadur yn anodd i un ym mhob pump, ac roedd hyn yn golygu bod manteisio ar gymorth ar-lein yn broblem. Ond nid oedd un ym mhob 10 yn hoffi defnyddio adnoddau ar-lein i gael gwybodaeth a chyngor personol, ac roedd yn well gan gyfran debyg gael cymorth wyneb yn wyneb.
- Roedd bron i hanner y bobl ifanc a oedd yn defnyddio CLIC Ar-lein ac a ymatebodd i'r arolwg yn defnyddio'r wefan am y tro cyntaf; er i un ym mhob deg nodi eu bod yn defnyddio CLIC yn ddyddiol ac un ym mhob pump pellach nodi eu bod yn defnyddio CLIC yn wythnosol. Yn nhermau hyd defnydd, roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr wedi bod yn defnyddio CLIC ers llai na mis; ac un ym mhob pump wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers dros flwyddyn.
- Nododd y mwyafrif o'r bobl ifanc a oedd yn defnyddio CLIC Ar-lein eu bod nhw'n cyrchu'r gwasanaeth trwy gyfrifiadur personol (66%) ac roedd 12% pellach yn defnyddio cyfrifiadur y teulu. Dim ond 19% oedd yn cyrchu CLIC trwy gyfrifiadur cyhoeddus, fel yn yr ysgol neu mewn llyfrgell; ac roedd 4% yn defnyddio ffôn deallus neu ffôn symudol.
- Roedd y cyfleuster i weld fideos ac erthyglau gan sefydliadau sy'n darparu cyngor ac arweiniad cyffredinol yn bwysig i lawer o ddefnyddwyr. Roedd traean o'r defnyddwyr yn teimlo bod newyddion cyfoes, cael gwybod am ddigwyddiadau lleol a gweld fideos gan bobl ifanc eraill yn bwysig hefyd. Y nodwedd leiaf deniadol oedd y gallu i bleidleisio trwy bolau piniwn ar-lein.

- Roedd defnyddwyr CLIC Ar-lein yn fwy tebygol o fod wedi edrych ar y cynnwys rhyngweithiol sydd ar gael trwy'r gwasanaeth yn hytrach na bod wedi llwytho eu cynnwys eu hunain neu bleidleisio'r trwy'r polau piniwn. Gallai'r ffaith fod cyfran gymharol fach o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi cofrestru gyda CLIC esbonio hyn. Ar y cyfan, roedd y defnyddwyr cofrestredig yn ddefnyddwyr mwy cyson.
- Nododd y bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr CLIC Ar-lein y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio CLIC Ar-lein pe bai modd iddynt weld fideos ac erthyglau sy'n darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol a chael gwybod am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol. Roedd tri chwarter hefyd yn hoffi'r syniad o fideos a chynnwys yn cael ei osod ar-lein gan bobl o'r un oedran â nhw. Er nad oedd llawer o'r bobl nad oeddent yn ddefnyddwyr yn teimlo y byddai'r cyfleuster i ychwanegu eu cynnwys eu hunain (cyfnewid safbwyntiau neu lwytho cynnwys) yn eu gwneud nhw'n fwy tebygol o ddefnyddio CLIC, nododd y bobl a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn ardaloedd yr ALlau y gallai hynny fod oherwydd eu profiadau o ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol fel Facebook a Twitter, sydd heb eu rheoleiddio.
- Nododd dros ddau draean o'r bobl ifanc eu bod nhw wedi edrych ar wefan arall i gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar ôl i CLIC Ar-lein eu cyfeirio ati; a dywedodd dau draean eu bod wedi defnyddio gwybodaeth ar wefan CLIC ei hun i benderfynu 'beth i'w wneud' am rywbeth. Dywedodd un defnyddiwr ym mhob dau eu bod wedi mynychu digwyddiad ar ôl gweld hysbyseb amdano ar wefannau CLIC; tra bod dau ddefnyddiwr ym mhob pump wedi dweud eu bod wedi cysylltu'n uniongyrchol â sefydliad i gael cymorth pellach ar ôl defnyddio CLIC. Y defnyddwyr cyson oedd fwyaf tebygol o fod wedi cymryd camau o'r fath ar ôl defnyddio gwefannau CLIC.
- Nododd un ym mhob 10 o'r defnyddwyr mai CLIC Ar-lein oedd eu hunig ffynhonnell gwybodaeth a chyngor. Nododd mwy o'r bobl ifanc eu bod yn defnyddio cysylltiadau personol i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau pob dydd. Y 'ffynhonnell' a enwyd amlaf oedd ffrindiau a chyfoedion, wedyn rhieni/gwarcheidwaid ac ysgolion. Nid yw'n syndod bod

cysylltiad wyneb yn wyneb ag oedolyn a/neu gymar y mae'r person ifanc yn ymddiried ynddo'n dal i fod yn ffordd bwysig o gael gwybodaeth a chyngor.

- Facebook neu wefannau rhwydweithio cymdeithasol eraill oedd y cyfrwng gorau i hyrwyddo gwasanaethau fel CLIC Ar-lein yn ôl mwyafrif y bobl ifanc, wedyn hyrwyddo trwy ysgolion a cholegau. Roedd clybiau ieuenctid a gweithwyr ieuenctid ymhlith y dulliau pwysig eraill o hyrwyddo gwasanaethau a enwyd. Ychydig o ddefnyddwyr a oedd yn teimlo bod canolfannau gwaith / gyrfaoedd neu'r cylchgrawn CLIC yn ddulliau da o hyrwyddo'r gwasanaeth.

***Ymarferwyr***

- Nid yw'r holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn ymwybodol o CLIC, er ei bod hi'n amlwg mai'r ymarferwyr yw'r 'porth' i wybodaeth a chymorth ar gyfer pobl ifanc yn aml.
- Nid yw'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n ymwybodol o CLIC ac wedi defnyddio'r gwasanaeth, yn gwybod digon am sut y gall CLIC eu helpu nhw i ddarparu gwybodaeth a chymorth ar gyfer pobl ifanc. Mae llawer ohonynt yn dueddol o ddefnyddio'r hen ffynonellau gwybodaeth a chyngor sy'n gyfarwydd iddynt, hyd yn oed os ydyn nhw'n ymwybodol o botensial CLIC.
- Mae'r ymarferwyr sy'n defnyddio CLIC yn gyson yn teimlo bod y wefan a'r cymorth ategol yn ddefnyddiol iawn yn eu swyddogaethau wrth arwain pobl ifanc ac wrth ddarparu ffynonellau gwybodaeth a chyngor y gallant eu defnyddio yn eu gwaith un i un gyda phobl ifanc.

# 6 Ystyriaethau a Chasgliadau

Mae’r bennod hon yn tynnu ar yr wybodaeth yn y penodau blaenorol i grynhoi deilliannau a pherfformiad CLIC fel y’u disgrifir yn nodau’r gwerthusiad yn adran 1.2.1. Mae’n mynd ymlaen wedyn i ganfod beth yw gwerth CLIC a pha mor effeithlon ac effeithiol yw’r ddarpariaeth wrth ddiwallu anghenion pobl ifanc 11-25 oed o ran gwybodaeth a chyngor, cyn mynd ymlaen i ystyried y costau a’r trefniadau ar gyfer darparu’r gwasanaeth yn y dyfodol.

## 6.1 Deilliannau a pherfformiad

Mae’r tabl isod yn disgrifio canfyddiadau'r dadansoddiad o ran cyflawniadau’r rhaglen yn erbyn y disgwyliadau, ansawdd y gwasanaeth, gwerth ychwanegol y rhaglen, ei heffaith barhaus a’i hetifeddiaeth, a’i chost-effeithiolrwydd perthynol.

**Tabl 6.1 Asesu canlyniadau a pherfformiad contract CLIC**

| | **Gwneud yn Dda** | **Sialensiau** |
|---|---|---|
| Cyflawniadau yn erbyn y disgwyliadau | Cynyddu defnydd a chyrraedd targedau.<br><br>Mae’r rhwydwaith o wefannau lleol yn tyfu a dylai gael ei gwblhau yn 2013.<br><br>Rhagorwyd ar y targed o ran ymgysylltu pobl ifanc yn y gwaith datblygu.<br><br>Ymateb i ddewisiadau’r bobl ifanc o ran mynediad. | Cydraddoli gwasgariad daearyddol y defnyddwyr; cynyddu’r defnydd ym mhob ardal i’r lefelau a gyflawnwyd yng Nghaerdydd a RhCT.<br><br>Cydraddoli cwmpas oedran y defnyddwyr fel bod mwy o ddefnydd ymhlith pobl ifanc dros 20 oed yn benodol.<br><br>Cyflymu’r gwaith o ddatblygu’r gwefannau lleol, a’r awdurdodau lleol i gymryd camau er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc ac ymarferwyr. |
| Ansawdd y gwasanaeth | Mae’r rhan fwyaf o’r defnyddwyr yn nodi lefel uchel o foddhad gyda CLIC Ar-lein.<br><br>Mae llawer o ymarferwyr yn cydnabod ei bod yn ddefnyddiol a’i bod yn well o | Mae gan rai ymarferwyr bryderon ynghylch ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth.<br><br>Nid yw rhai o’r gwefannau lleol ar gael neu maent yn cael eu datblygu; mae rhai ardaloedd wedi wynebu |

| | Gwneud yn Dda | Sialensiau |
|---|---|---|
| | lawer na'r wybodaeth a'r cyngor lleol a oedd ar gael ar-lein yn y gorffennol.<br><br>Mae defnyddwyr yn cael cymorth i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cyngor y maent yn eu defnyddio. | problemau cychwynnol. |
| Gwerth ychwanegol | Ennill defnyddwyr newydd trwy ddatblygu gwefannau lleol yn seiliedig ar dempled newydd.<br><br>Ailfywiogi'r gwefannau lleol gyda gwybodaeth genedlaethol a nodweddion cyfranogi cyson.<br><br>Cydnabod dysg a datblygiad personol pobl ifanc.<br><br>Denu pobl ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau ar lefel genedlaethol trwy gysylltiadau â gweithgareddau lleol. | Cadw'r wybodaeth yn gyfoes a darparu cymorth i gwsmeriaid o ran y rhwydwaith o wefannau lleol.<br><br>Cynorthwyo ardaloedd lleol i godi ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd ymysg pobl ifanc ac ymarferwyr. |
| Etifeddiaeth | Datblygu safonau a chymwysterau ym maes gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Adeiladu cymuned o wasanaethau gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc. | Cynyddu'r niferoedd sy'n dilyn hyfforddiant i ennill cymwysterau.<br><br>Cynnal y buddsoddiad a'r cymorth mewn ardaloedd lleol. |
| Cost-effeithiolrwydd a gwerth am arian | Un wefan ar gyfer yr ystod oedran gyfan.<br><br>Lleihau'r costau datblygu yn yr ardaloedd lleol.<br><br>Mae'r costau datblygu i'w gweld yn rhesymol o'u cymharu â chostau Young Scot.<br><br>Mae'n gost-effeithiol o gymharu â gwybodaeth a | Cynyddu'r defnydd ymysg pobl ifanc dros 20 oed.<br><br>Lleihau'r gost fesul uned defnydd trwy gynyddu'r defnydd yn sylweddol.<br><br>Ad-dalu'r buddsoddiad trwy ddefnyddiau eraill.<br><br>Defnyddio marchnata'n well er mwyn helpu'r gwefannau lleol i godi ymwybyddiaeth a |

| | Gwneud yn Dda | Sialensiau |
|---|---|---|
| | chyngor dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. | chynyddu defnydd. |

## 6.2 Ystyriaethau at y dyfodol

Ystyrir pob un o'r ffactorau canlynol yn yr adran isod er mwyn asesu cyfeiriad rhaglen a chontract CLIC at y dyfodol: sut mae CLIC yn cyweddu'n strategol i'r polisi cyfredol a disgwyliedig; yr ychwanegolrwydd y mae CLIC yn ei gynnig mewn perthynas â chydrannau'r contract cyfredol; priodoldeb a chost-effeithiolrwydd y gwaith o ddatblygu a darparu CLIC o dan y contract cyfredol; a'r cynnydd a wnaed tuag at y nodau a bennwyd o ran datblygiad a gweithrediad CLIC.

### *6.2.1 Cyweddiad strategol*

Mae hi'n glir:

- Bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion pobl ifanc o ran gwybodaeth yn rhan o'i hymrwymiad i'r CCUHP. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i alluogi pobl ifanc i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r gwasanaethau ar eu cyfer hefyd.[109]
- Bod yna ofyniad gorfodol clir i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau o'r fath ar gyfer eu pobl ifanc.[110]
- Bod disgwyl i'r wybodaeth a'r cyngor ategu polisïau a strategaethau eraill, ac yn arbennig y rhai sy'n gweithio tuag at wella lles pobl ifanc yng Nghymru ac ategu hawl y bobl ifanc i gael cymorth a gwybodaeth bersonol, cyngor ac arweiniad ar ddysgu, gyrfaoedd a chyflogaeth ac amrywiaeth o faterion eraill.
- Y gall gwybodaeth a chyngor ar-lein leddfu rhywfaint ar y galw am wasanaethau wyneb yn wyneb a phersonol er mwyn i'r rhain ganolbwyntio'n fwy ar ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r bobl ifanc sydd angen cymorth fesul un.

[109] Plant yng Nghymru: http://www.plantyngnghymru.org.uk/policy/legislation/draftassemblymeasures/15857.html
[110] Cyfarwyddeb o dan Adran 123(2) o Ddeddf Addysgu a Sgiliau 2000.

O ganlyniad, dylai pobl ifanc ledled Cymru ddisgwyl cael gwybodaeth a chyngor ar-lein o safon uchel sydd wedi eu teilwra at eu hanghenion, a hynny ar sail gwybodaeth genedlaethol a lleol, a gwasanaeth effeithiol i'w cyfeirio at wasanaethau eraill, ac i fod yn ymwybodol fod hyn oll ar gael.

### *6.2.2 Ychwanegolrwydd*

Mae hi'n glir:

- Bod gwefan genedlaethol a lleol o dan yr un brand wedi denu defnyddwyr newydd ac ystod ehangach o ddefnyddwyr, er bod defnydd o'r gwefannau lleol sy'n bodoli eisoes yn gyfrifol am gyfran o'r twf a gofnodwyd. Mae graddau'r twf o ran defnydd ar lefel leol yn dibynnu'n helaeth ar ansawdd a dyfnder y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y gwasanaethau ieuenctid yn yr ardaloedd lleol.
- Bod y wefan genedlaethol yn sicrhau bod gwybodaeth gyson ar gael yn yr ardaloedd lle nad oes gwefannau CLIC lleol.
- Bod pobl ifanc yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o ddatblygu gwefannau lleol trwy weithgareddau cenedlaethol a lleol, fel y grwpiau golygyddol; mae rhai pobl ifanc yn ymgysylltu trwy'r cyrsiau penwythnos preswyl.
- Bod y model y mae ProMo yn ei ddefnyddio i ymgysylltu pobl ifanc ynghyd â'r ffocws ar gynnwys gyda defnyddwyr wrth y llyw, yn cynnig rhywbeth sy'n wahanol i'r wybodaeth a'r cyngor arall sydd ar gael ar-lein (ar lefel genedlaethol ac i ryw raddau, yn lleol yng Nghymru).
- Bod y wefan genedlaethol yn ffynhonnell ac yn gyfeiriwr cynhwysfawr a chanolog sy'n darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru ar gyfer pobl ifanc; nid oes unrhyw ffynhonnell arall sy'n gwneud hyn.
- Bod llawer o'r defnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo bod CLIC o gymorth (90%), nododd 65% fod CLIC wedi eu cynorthwyo i benderfynu beth i'w wneud ynghylch rhywbeth ac roedd 41% yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn cael gwybodaeth a chyngor o ffynonellau eraill.

O ganlyniad, mae cydlynu gwybodaeth ar lefel genedlaethol a chreu gwefan genedlaethol wedi ehangu cyrraedd CLIC a'i weithrediad ymarferol. Mae'n darparu

brand cyfarwydd mewn môr o ffynonellau gwybodaeth sy'n cystadlu â'i gilydd. Yn ôl y disgwyl, mae'n gweithredu fel porth i'r gwasanaethau eraill y mae gan y bobl ifanc yr hawl i'w cyrchu hefyd, a gallai hyn leihau'r baich sydd arnynt o ran rhai mathau o ymholiadau.

### *6.2.3 Cost-effeithiolrwydd a phriodoldeb*

Mae hi'n glir:

- Bod darparu gwefan genedlaethol a set graidd o wybodaeth genedlaethol sy'n cael ei diweddaru yn osgoi'r dyblygu a fyddai'n digwydd pe bai gofyn i bob awdurdod lleol ddarparu a chynnal eu gwasanaethau eu hunain.
- Yn yr un modd, bod y ffaith nad yw'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am dalu'r costau datblygu technegol sydd ynghlwm wrth sefydlu'r gwefannau lleol na'r costau parhaus sydd ynghlwm wrth hyn, dim ond y costau cynnal, wedi helpu i ddenu cydweithrediad y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a sicrhau eu bod yn cymryd rhan.
- Bod ymgysylltu pobl ifanc yn cymryd llawer o amser pan fo'n digwydd wyneb yn wyneb, er bod hyn wedi tynnu pobl ifanc i mewn i'r broses o ddylunio a datblygu'r wefan genedlaethol a'r gwefannau lleol.
- Y gall grwpiau golygyddol rhithiol chwarae rhan effeithiol os ydyn nhw'n cael eu symbylu a'u rheoli'n gyson.
- Er bod marchnata wedi cynyddu ymwybyddiaeth am y brand, ei bod hi'n amlwg mai'r gwefannau lleol a'r gwaith i'w hyrwyddo yw'r prif sbardun i ddenu rhagor o ddefnyddwyr.
- Nad yw gwerth hyrwyddo CLIC trwy daflenni, hysbysebion a chylchgronau yn glir, gyda llawer o'r bobl ifanc nodi mai'r gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yw'r cyfrwng gorau i dargedu gwasanaethau newydd ar eu cyfer (yn ogystal â thrwy ymarferwyr fel gweithwyr ieuenctid ac athrawon) ac i raddau helaeth cyfoedion, athrawon a gweithwyr ieuenctid oedd wedi cyflwyno'r defnyddwyr i CLIC.
- Nad yw pobl ifanc dros 16 oed yn defnyddio CLIC gymaint (nac yn cyfranogi gymaint) â'r rhai o dan 16 oed er eu bod yr un mor gadarnhaol â'i gilydd am CLIC.

- Bod defnydd gan bobl ifanc yn cymharu'n dda â dwy wefan arall (Young Scot, Youthnet) yn yr un modd â'r twf mewn defnydd; gallai hyn hefyd adlewyrchu'r bartneriaeth ag awdurdodau lleol a'r gwefannau lleol.
- Nad yw codi ymwybyddiaeth am CLIC o'r gwaelod i fyny trwy'r ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc wedi cyrraedd yr holl ymarferwyr hyd yma.

O ganlyniad, mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer darparu gwybodaeth genedlaethol yn cynnig manteision o ran cost i'r awdurdodau lleol ac mae yna fanteision i Lywodraeth Cymru o ran y sicrwydd bod CLIC yn gost-effeithiol ac yn darparu gwybodaeth o safon. Gallai dulliau gwahanol o ymgysylltu pobl ifanc wrth ddylunio ac adolygu cynnwys y wefan ac o hyrwyddo defnydd fod yn fwy cost-effeithiol yn y dyfodol. Gallai'r gwaith o ddenu defnyddwyr newydd, ac yn enwedig y rhai dros 20 oed, fod yn fwy cost-effeithiol hefyd trwy ddefnyddio ymagweddau o'r gwaelod i fyny mewn ardaloedd lleol yn hytrach na chymaint o farchnata cenedlaethol. Dylai ymgysylltu ysgolion a cholegau er mwyn hyrwyddo mynediad i'r gwefannau cenedlaethol a lleol, ac ymgysylltu athrawon a phobl eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc, er mwyn hyrwyddo'r wefan a'i chynnwys fod yn ffocws ar gyfer gwaith partneriaeth yn y dyfodol.

### *6.2.4 Y cynnydd a'r gwaith datblygu sydd i'w wneud o hyd*

Mae hi'n glir:

- Y dylai datblygiad cychwynnol y gwefannau lleol gael ei gwblhau i bob pwrpas erbyn Chwefror 2013. Disgwylir y bydd hyn yn sefydlu 20 o wefannau.
- Bod y twf yn y defnydd o CLIC wedi bod yn sylweddol; mae'r tueddiad tuag i fyny yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r gwefannau newydd lleol, er bod rhai gwefannau ALlau wedi llwyddo i fwrw gwreiddiau dyfnach nag eraill.
- Bod yna fylchau sylweddol o hyd yng nghyrraedd a threiddiad CLIC yn nhermau grwpiau oedran penodol (y rhai dros 16 oed), rhyw (gwrywod), ac ardal ddaearyddol (pob un ac eithrio Caerdydd a RhCT).
- Bod graddau defnydd ac ymglymiad pobl ifanc mewn rhai ardaloedd yn awgrymu y gallai'r defnydd dyfu'n sylweddol. Er enghraifft petai o leiaf 20 o

bob 1,000 o bobl ifanc ym mhob ardal yn cofrestru, gellid disgwyl tua 57,000 o ymweliadau'r mis er enghraifft. Hwyrach mai dyma'r math o darged sydd ei angen ar gyfer cyfnod y contract newydd.

- Bod llawer yn dibynnu ar ymrwymiad ac ymgysylltiad ymarferwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol wrth ddatblygu a hyrwyddo'r gwefannau lleol, a chynnwys pobl ifanc ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn weithredol. Mae yna dipyn o waith i'w wneud o hyd er mwyn cynyddu ymgysylltiad a defnydd yn ardaloedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol.
- Bod llawer yn dibynnu hefyd ar weithgarwch ac ymgysylltiad pobl ifanc mewn grwpiau golygyddol lleol; lle mae'r rhain yn gryf, mae yna dueddiad fod mwy o'r bobl ifanc yn defnyddio CLIC.
- Y defnyddiwyd gwahanol ymagweddau i ymgysylltu nifer cymharol fach o bobl ifanc mewn gweithgareddau unigryw ac i gynnal eu cyfranogiad; mae angen adeiladu ar y rhain er mwyn cynyddu'r niferoedd a'u troi'n strategaeth glir a fydd yn sail i ddatblygiad yn y dyfodol.
- Mai'r gwerthusiad hwn yn unig sydd wedi sbarduno arolwg ehangach o bobl ifanc; mae angen ymgorffori adborth mwy cyson gan ystod o ddefnyddwyr i'r gwaith ymgysylltu, a hynny er mwyn bwydo gwaith datblygu a hyrwyddo.
- Er y cychwynnwyd ar y gwaith o adeiladu ar gymhwysedd gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr eraill i ddarparu gwybodaeth ac ymgysylltu pobl ifanc yn y broses, bydd angen parhau â hyn dros nifer o flynyddoedd er mwyn datblygu sgiliau cyfran helaethach o'r gweithlu ac ymgorffori hyn i'r gwaith o hyfforddi pobl sy'n dechrau gwaith yn y maes.
- Er bod y datblygiadau wedi cadw i fyny â newidiadau yn y ffyrdd o gyrchu gwybodaeth ar-lein a defnyddio nodweddion rhyngweithiol, gellir disgwyl y bydd hyn yn parhau i newid.

O ganlyniad, mae rhagor o waith i'w wneud i gynnal y momentwm. Mae yna dystiolaeth y dylai rhai agweddau ar y contract newid er mwyn symud ymlaen eto tuag at y nodau a bennwyd ar gyfer CLIC mewn perthynas â graddau a chydraddoldeb mynediad, ymwybyddiaeth a defnydd, a hynny mewn ffordd gost-effeithiol.

## 6.3 Gofynion at y dyfodol

Gan gymryd y ffactorau uchod i ystyriaeth, isod rhoddir ystyriaeth i ofynion yr elfennau allweddol o'r contract cyfredol wrth edrych tua'r dyfodol, ynghyd ag unrhyw drefniadau gwahanol ar gyfer eu cyflawni.

### *6.3.1 Cynhyrchu, diweddaru a darparu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc (Lot 1)*

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae cael gwefan genedlaethol â thîm cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r wybodaeth a ddarperir a sicrhau ei hansawdd, yn cynnig manteision o ran cost i'r awdurdodau lleol. Mae'n bwysig eu bod nhw'n deall anghenion yr holl bobl ifanc a sut mae'r wefan yn cael ei defnyddio. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig cynnwys pobl ifanc a chael trosiant o'r bobl ifanc o dan sylw. Gallai cadw grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol fod o gymorth yn hyn o beth (gweler 6.3.3. isod) a gellir cadw'r costau sydd ynghlwm wrth gynnal grŵp cenedlaethol yn isel trwy ei greu ar ffurf rhith-gymuned. Mae'n bwysig bod y gweithgarwch hwn yn ymgysylltu pobl ifanc o bob oedran, ei fod yn defnyddio arolygon i ehangu ei gwmpas, a'i fod yn cynnwys grwpiau buddiant penodol. Dylai graddau a natur y cysylltiad fod yn darged o ran allbwn.

Mae parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu yn gofyn am safoni, ac mae hyn yn cymryd amser i'r staff. Dylai'r tîm cenedlaethol ddal ati gyda hyn am ei bod yn golygu bod y bobl ifanc yn teimlo eu bod yn berchen ar y wefan ac am fod hyn yn ei gwneud yn ffynhonnell cyngor cymar wrth gymar.

Fel gwefan sy'n adnodd gwybodaeth yn anad dim, rhaid cadw'r wybodaeth yn gyfoes a rhaid cyfeirio'r bobl ifanc at y ffynonellau cywir i gael cyngor ac arweiniad. Rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth a rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen am ddarparu cynnwys gyda'r defnyddwyr wrth y llyw a deunydd sy'n denu'r defnyddwyr targed at yr wybodaeth.

Nid oes unrhyw dystiolaeth gref i awgrymu y byddai datblygu gwefan ar wahân ar gyfer y bobl ifanc hŷn yn cynyddu eu defnydd a'u cyfranogiad. Mae'r bobl ifanc hŷn yn rhannu'r un safbwyntiau negyddol a chadarnhaol am CLIC â'r grwpiau oedran iau.

### *6.3.2 Gweithio gyda phartneriaid (Lot 2)*

Wrth edrych tua'r dyfodol, ni ddylai fod angen gwneud cymaint o waith i feithrin partneriaethau â'r sefydliadau arweiniol yn ardaloedd yr awdurdodau lleol, er y bydd yna ychydig o waith i'w wneud o hyd gydag ambell i awdurdod lleol ar ôl Chwefror 2013, a bydd angen rheoli perthnasau a chynorthwyo cwsmeriaid ledled Cymru o hyd. Rhaid i'r gwaith hwn ddarparu ar gyfer rhai o'r risgiau sydd ynghlwm wrth gynnal gwefannau lleol (sy'n dibynnu ar ymrwymiad yr awdurdodau lleol a'r adnoddau y maent yn eu clustnodi ar gyfer y wefan leol ac at ddibenion ymgysylltu defnyddwyr ac ymarferwyr). Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau a diogelu'r ddarpariaeth ac am hynny, ni ddylai'r contract at y dyfodol ddarparu adnoddau ategol. Gall awdurdodau lleol gael cymorth y contractwr CLIC neu o rywle arall am ffi.

Fodd bynnag, mae cynorthwyo ymarferwyr i adnabod ble, a sut, y gall CLIC eu cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ac i gefnogi gweithgareddau gyda phobl ifanc yn ffactor bwysig i'r ymarferwyr ac mewn perthynas â gweithrediad CLIC a'i ddefnydd yn y dyfodol. Dylai'r contractwr ganolbwyntio ar ddarparu cyngor ac arweiniad i awdurdodau lleol ac ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu pobl ifanc ac, yn arbennig, ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc, trwy ledaenu arferion da. Mae hi'n amlwg bod y gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel yr awdurdodau lleol yn tanategu hyn. Gallai Llywodraeth Cymru ategu hyn hefyd trwy ei chanllawiau ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol ac ysgolion mewn perthynas â phobl ifanc.

Mae angen gwneud rhagor o waith i feithrin partneriaethau â sefydliadau cenedlaethol ac i archwilio cyfleoedd ar gyfer symleiddio'r wybodaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei chasglu a'i darparu ar gyfer CLIC. Er enghraifft, gellid ymestyn templed ar gyfer y dull o gyflwyno gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc i'r gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd am fod gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd ym mhob awdurdod lleol eisoes yn defnyddio rhywfaint o'r un wybodaeth leol â CLIC. Yn yr un modd, gallai'r galluoedd rhyngweithiol y mae CLIC yn eu cynnig ddarparu cyfrwng posibl i gasglu adborth uniongyrchol gan bobl ifanc yn y fan a'r lle. Gellid defnyddio contractau yn ôl y galw i archwilio'r cyfleoedd hyn i

symleiddio'r gwasanaethau gwybodaeth gan arbed arian i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol.

Mae angen dal ati i adeiladu ar gymhwysedd ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc, a bydd hyn yn meithrin defnydd o CLIC a gwydnwch y gwefannau lleol. Dylid datblygu cymwysterau lefel uwch y tu hwnt i ddiwedd y contract cyfredol er mwyn darparu llwybrau ar gyfer y gweithwyr ieuenctid sy'n arbenigo mewn gwybodaeth a chyngor, a dylid annog aelodau newydd a chyfredol o'r gweithlu cyflogedig a digyflog i ddilyn y cymwysterau sy'n bodoli eisoes (neu iddynt fod yn unedau hyfforddi ar gyfer dechreuwyr newydd). Mae ProMo yn amcangyfrif y dylid hyfforddi o leiaf 600 yn rhagor o bobl i gymryd eu lle hefyd.[111] Ni ddylai'r contract dalu am yr achrediad hwn o reidrwydd, er y gallai'r contractwr cenedlaethol helpu trwy barhau i hyfforddi ei staff a staff yr awdurdodau lleol i hwyluso hyfforddiant a gweithredu fel dilyswyr mewnol.

*6.3.3 Cynnwys pobl ifanc a gweithio gyda nhw (Lot 3)*

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n bwysig parhau i gynnwys pobl ifanc trwy'r grwpiau golygyddol cenedlaethol a lleol, gan adeiladu ar y sylfeini a dysgu gwersi o'r contract cyfredol ynghylch sut i wneud hyn yn effeithiol. Mae angen i hyn fod yn beth parhaus am fod angen sicrhau olyniaeth a denu cyfranogwyr newydd. Yr awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am y grwpiau lleol ond dylid disgwyl i'r contractwr cenedlaethol gynnal grŵp cenedlaethol.

Gellir cwestiynu a yw'r cyrsiau penwythnos preswyl, a'r achrediad a roddir am yr hyn a ddysgir, yn ymgysylltu'r bobl ifanc. Dylai fod gan yr awdurdodau lleol ddulliau o recriwtio pobl ifanc i grwpiau golygyddol lleol trwy gynghorau ysgol, cynghorau ieuenctid a grwpiau ieuenctid, er bod angen ehangu hyn yn sylweddol i ymgysylltu'r rhai sydd dros 20 oed. Byddai cyrsiau penwythnos preswyl yn darparu rhywfaint o gefnogaeth i ymdrechion yr awdurdodau lleol, ac yn helpu i gynnal y grŵp golygyddol cenedlaethol. Ond ni fyddai angen cynnal cynifer o gyrsiau penwythnos preswyl ag sydd wedi'u cynnal dros y ddwy flynedd diwethaf. Er bod rhai o'r bobl ifanc yn

[111] Mae'r amcangyfrifon a ddarparwyd gan ProMo i'w gweld yn sail resymol.

croesawu'r achrediad, nid hynny sy'n eu cymell i gymryd rhan yn y grwpiau golygyddol lleol.

Bydd yn bwysig sicrhau bod y bobl ifanc a ymgysylltir yn gynrychiadol o'r grŵp targed a'u bod yn adlewyrchu amrywiaeth y grŵp. Bydd angen i'r contractwr cenedlaethol ymgysylltu grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau penodol pobl ifanc. Gellir diffinio'r rhain yn fras, ac maent yn cynnwys LHDT, pobl ifanc ddi-waith, rhieni ifanc, pobl ag anableddau corfforol ac ati.

### *6.3.4 Defnyddio'r technolegau newydd i ymgysylltu pobl ifanc (Lot 4)*

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n debygol mai technoleg telathrebu fydd y prif gyfrwng y bydd y grwpiau oedran a dargedir yn ei defnyddio i gyrchu gwybodaeth ar-lein a defnyddio CLIC. Dylid dal ati i bennu'r targedau o ran niferoedd ymwelwyr a defnydd o'r wefan y dylid eu disgwyl gan wefan genedlaethol sefydledig a rhwydwaith sydd bron yn gyflawn o wefannau lleol. Dyma'r ffordd orau o fonitro gallu contractwr i sicrhau bod y wefan yn hygyrch ac yn berthnasol i bobl ifanc.

Dylid codi ymwybyddiaeth ac ehangu'r cyrraedd er mwyn cyfiawnhau'r gwariant cyhoeddus. Ni fyddai'n afresymol disgwyl lefel cofrestru o o leiaf 20 fesul 1,000 o bobl yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru cyn pen pedair blynedd, am y llwyddwyd i gyflawni hyn eisoes yn ardaloedd dau o'r awdurdodau lleol. Ar sail y cyfraddau cyfredol, byddai hyn gyfystyr â dros 57,000 o ymweliadau'r mis â CLIC. Pe bai'r gwefannau lleol sy'n rhagori ar hyn yn tyfu hefyd, yna dylai'r defnydd misol fod hyd yn oed yn fwy na hyn. Y dewis arall fyddai pennu nifer cyfartalog o bobl ifanc fesul 1,000 ledled Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn o unrhyw gontract newydd.

## 6.4 Casgliadau

Mae dadl gref pam y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi CLIC ar y sail:

- Ei fod yn darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn ofyniad gorfodol ar gyfer awdurdodau lleol ac yn un o ymrwymiadau hirsefydlog y Llywodraeth;

- Y gall gwybodaeth a chyngor ategu llawer o strategaethau eraill y llywodraeth, gan gynnwys ymgysylltu pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a gweithgareddau cadarnhaol, eu helpu i symud i mewn i'r byd gwaith, a gwella eu hiechyd a'u diogelwch;
- Pe bai cyfran helaeth o bobl ifanc Cymru'n defnyddio CLIC, byddai gan y gwefannau'r potensial i fod yn gyfrwng effeithiol i adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ar eu cyfer (er na chyflawnwyd hyn eto);
- Mae CLIC wedi cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwybodaeth a chyngor ar-lein (bellach dros 30,000 y mis) ac mae'r defnyddwyr yn ei hoffi ar y cyfan; ac,
- Mae darparu gwybodaeth genedlaethol trwy wefan genedlaethol a allai gefnogi gwasanaethau yn ardaloedd yr holl awdurdodau lleol yn fwy cost-effeithiol.

Ond o Chwefror 2013 ymlaen, dylai adeiladu ar yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod y contract cyfredol er mwyn:

- Cynorthwyo'r awdurdodau lleol i gynyddu ymwybyddiaeth, ymgysylltiad a defnydd y bobl ifanc yn sylweddol gan gyrraedd neu ragori ar y lefelau a gyflawnwyd yn ardaloedd tri o'r awdurdodau lleol;
- Sicrhau ei fod yn denu pob math o bobl ifanc fel bod y defnyddwyr yn cynrychioli holl ystod oedran, rhyw ac ethnigrwydd pobl ifanc 11-25 oed;
- Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc am CLIC, a datblygu gallu'r gwasanaethau cymorth ieuenctid i gynnal gwybodaeth ac ymgysylltu pobl ifanc ac ymarferwyr yn effeithiol trwy gynnig cyngor ac arweiniad ar sut i wneud hyn yn effeithiol, ac ar sut i gyrchu hyfforddiant a chymwysterau priodol; a,
- Chael adborth gan ystod ehangach o ddefnyddwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio CLIC er mwyn helpu i ddatblygu a chynnal perthnasedd ac ansawdd ei gynnwys a'i apêl.

## Atodiadau

## Atodiad 1 Staff Rheoli CLIC a'r Rhanddeiliaid Cenedlaethol

### Staff Rheoli'r Contractwr (x 8 cyfweliad)

| | |
|---|---|
| **ProMo Cymru (contractwr CLIC)** | Marco Gil Cervantes (PSG – arweinydd CLIC))<br>Kath Allen (Uwch Swyddog Cyfranogiad – CLIC)<br>John McKernan (Dirprwy PSG - Cyllid)<br>Rachel Burton (Swyddog Hyfforddiant)<br>Geoff Moore (Swyddog partneriaethau sirol) |
| **Burning Red (is-gontractwr technegol CLIC)** | Alex Mills, Cyfarwyddwr Technegol<br>Gareth Green, Rheolwr y Cyfrif |
| **Cwmni Ymchwil Arad Research Ltd** | Stuart Harries |

### Rhanddeiliaid Cenedlaethol CLIC

| **Llywodraeth Cymru (x 9 cyfweliad)** | |
|---|---|
| **Rheolwr Contract CLIC LIC** | Michelle Playle – Y Grŵp Cefnogi Pobl Ifanc, Ysgolion a Phobl Ifanc |
| **Gwaith Ieuenctid** | Tanis Cunnick – Pennaeth y Gangen Strategaeth Gwaith Ieuenctid |
| **Cymorth Ieuenctid** | Jane Peffers – Uwch Reolwr, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid |
| **Meic** | Elin Gwynedd - Pennaeth y Gangen Grymuso Plant a Phobl Ifanc, Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant |
| **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd** | Helen Freese – Rheolwr y Rhaglen Gweithredu ac Ymgysylltu, Cymorth i Blant a Theuluoedd, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant |
| **CCUHP** | Nick Keating – arweinydd cenedlaethol maes polisi a deddfwriaeth CCUHP |
| **Cyfranogiad Pobl Ifanc** | Jane Harries – arweinydd cenedlaethol ar faterion cyfranogiad pobl ifanc |
| **Marchnata a Chyfathrebu** | Sharon Doleman – yn goruchwylio rheolaeth contract CLIC<br>Jackie O'Donnell |
| **Asiantaethau a grwpiau (x 2 gyfweliad)** | |
| **Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol** | Paul Glaze – Arweinydd ar faterion polisi pobl ifanc |
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** | Tim Opie – Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes (Ieuenctid) |

| Cynrychiolwyr y grwpiau partner (x 7 cyfweliad): | |
|---|---|
| **Cyngor y Gweithwyr Gwybodaeth Ieuenctid – Arweinwyr Cenedlaethol** | David Holtham (Caerdydd)<br>Rose Davies (Sir Benfro) |
| **Coleg Cymunedol YMCA Cymru** | Margaret Jones – yn gysylltiedig â Datblygu Hyfforddiant CLIC |
| **Loud and Proud – Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd** | John Bond – Darpariaeth Ieuenctid<br>Yn gysylltiedig â Datblygu Gwybodaeth CLIC |
| **Achub y Plant** | Trudy Aspinall – Swyddog Polisi Hawliau Plant<br>Yn gysylltiedig â Gwybodaeth CCUHP a Safonau Gwybodaeth o Ansawdd CLIC |
| **Cyngor Ieuenctid Casnewydd/Y Siop Wybodaeth** | Nazia Ali<br>Yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth CLIC – adrannau ar fforymau ieuenctid a chyfathrebu; wedi mynychu gofal preswyl fel gweithiwr cymorth ar gyfer pobl ifanc |
| **Swyddog Gwybodaeth Ieuenctid Blaenau Gwent** | Gavin Townsend<br>Yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth CLIC; wedi mynychu gofal preswyl fel gweithiwr cymorth ar gyfer pobl ifanc |

**Atodiad 2 Llwybrau Holi Allweddol: Staff Comisiynu a Rheoli, y Rhanddeiliaid Cenedlaethol a'r ALlau lle cyflawnwyd yr Astudiaethau Achos**

Cyfweliadau â staff comisiynu CLIC, y contractwyr a'r rhanddeiliaid cenedlaethol

Roedd y cyfweliadau hyn yn gofyn am wybodaeth bellach am:

- strwythur y rhaglen a'r gweithgareddau oddi mewn iddi; sut maent yn cael eu cyflawni a sut mae trefniadau rheoli'r contract yn gweithio;
- cyflawniad a deilliannau'r rhaglen hyd yn hyn o'u cymharu â'r disgwyliadau; y rhesymau y tu ôl i unrhyw gynnydd sy'n arafach na'r disgwyl; rhwystrau a heriau; y cyflawniad disgwyliedig erbyn diwedd y rhaglen;
- sut mae adnoddau a staff yn cael eu dyrannu i wahanol weithgareddau; sut mae CLIC yn cael ei gynnal a'i gadw'n gyfoes;
- eu dealltwriaeth o effeithiolrwydd y rhaglen wrth ymgysylltu pobl ifanc a chyflawni'r allbynnau a'r deilliannau disgwyliedig ar gyfer pobl ifanc, yn ogystal ag ar gyfer ymarferwyr;
- y gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn, beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim cystal a pham, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau penodol o'r pethau sydd wedi gweithio'n dda a pham;
- y cyd-destun polisi ehangach ac anghenion pobl ifanc, sut mae hyn wedi newid, ac unrhyw newidiadau y disgwylir eu gweld yn y dyfodol; ac am
- eu dealltwriaeth am unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yn nhermau gwybodaeth, gweithrediad y wefan/templed lleol, a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr a fyddai'n bwydo datblygiad a chyflawniad yn y dyfodol.

Ardaloedd yr Awdurdodau Lleol lle cyflawnwyd yr Astudiaethau Achos - ceir crynodeb o'r llwybrau ymholi allweddol ar gyfer pob set o gyfweliadau yn y blwch isod.

| |
|---|
| **Rheolwyr a staff sy'n gyfarwydd â'r adnoddau ar-lein a ddefnyddir i gyfeirio pobl ifanc at wasanaethau** ac yn enwedig y rhai sydd ynghlwm wrth drafod a gweithredu templed lleol CLIC.<br>Roedd y cyfweliadau hyn yn holi am:<br>▪ safbwyntiau ar yr adnoddau ar-lein cenedlaethol; eu cwmpas; eu gweithrediad; pa mor gyfoes ydyn nhw; y bwlch y maen nhw'n ei lenwi; sut maen nhw'n cymharu â'r |

ffynonellau eraill a enwyd;

- i ba raddau y mae CLIC yn bodloni eu hanghenion i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed;
- y ffynonellau eraill a ddefnyddir a'r rhesymau am hyn;
- y sail resymegol dros gymryd rhan neu beidio â chymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r templed lleol;
- sut maen nhw wedi gweithio gyda'r contractwr a pha mor llwyddiannus fu hynny wrth greu'r wefan leol; cynnydd y rhai heb wefannau lleol cyflawn; cynnwys pobl ifanc;
- safbwyntiau ar ansawdd a gweithrediad y wefan leol a rôl y contractwr wrth ymateb i broblemau a darparu cymorth ac ymgynghoraeth;
- beth sydd wedi cael ei gyflawni a pha dystiolaeth sydd yna o gynnydd yn y defnydd o wybodaeth a chyngor cenedlaethol/lleol neu o ddefnydd newydd gan bobl ifanc ac ymarferwyr o ganlyniad i CLIC; a,
- beth yw eu profiadau nhw eu hunain o ddefnyddio'r adnoddau i ddarparu cymorth ar gyfer pobl ifanc, rheini ac ymarferwyr.

**Cyfweliadau ag ymarferwyr**

Roedd y cyfweliadau hyn yn holi am:

- eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am CLIC ac unrhyw welliannau lleol ym maes gwybodaeth a chyngor ar gyfer pobl ifanc;
- eu hymwybyddiaeth am CLIC ac i ba raddau y mae CLIC yn cael ei hyrwyddo a'i ddefnyddio;
- eu safbwyntiau am sut mae CLIC yn cymharu â ffynonellau eraill ac i ba raddau y defnyddir ffynonellau eraill;
- eu defnydd o CLIC a'u profiadau o'i gynnwys a'i swyddogaethau mewn perthynas â'u hanghenion; eu defnydd o ffynonellau/gwefannau eraill a'r bwlch y mae CLIC wedi ei lenwi/gwerth CLIC;
- tystiolaeth o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi eu hennill a beth yw manteision hynny o ran ansawdd eu gwaith; a,
- thystiolaeth am unrhyw effaith gadarnhaol y mae hyn wedi ei chael.

**Grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda phobl ifanc**

Cyflwynwyd y grwpiau ffocws ar ffurf "sgwrs gyda [...] sydd am glywed am...". Ymhlith y pynciau trafod roedd: defnydd y cyfranogwyr o wybodaeth a chyngor, y dibenion/anghenion a ddiwallwyd; eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth am CLIC ac adnoddau ar-lein eraill, sut cawson nhw wybod am CLIC, eu defnydd o CLIC, gwerth yr wybodaeth wrth iddynt wneud penderfyniadau neu gymryd camau, i ba raddau y mae hyn wedi galluogi iddynt weithredu neu wedi ychwanegu at yr wybodaeth a'r cyngor arall roedden nhw wedi eu cael, eu boddhad â'r gwahanol fathau o gynnwys a'r swyddogaethau.

Addasodd yr ymchwilwyr y cwestiynau a'r pwyntiau trafod yn ôl y grŵp oedran a'r sefyllfa.

## Atodiad 3 Arolwg CLIC Ar-lein - defnyddwyr a phobl ifanc nad ydynt yn defnyddio'r gwefannau

1. CLIC yw'r gwasanaeth cenedlaethol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru. Canolbwynt **CLIC** yw gwefannau rhyngweithiol sy'n denu cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ac yn darparu erthyglau, lluniau, a fideos ar draws ystod o bynciau.

   Ydych wedi clywed am unrhyw rai o'r gwefannau CLIC canlynol:

| | **YDW** | **NAC YDW** |
|---|---|---|
| CLIC Ar-lein Cenedlaethol | | |
| Defaid (yn Ynys Môn) | | |
| Bwsted (ym Mhen-y-bont ar Ogwr) | | |
| Youth4U (yng Nghaerffili) | | |
| The Sprout (yng Nghaerdydd) | | |
| Ieuenctid Sir Gâr (yn Sir Gaerfyrddin) | | |
| Conwy Ifanc (yng Nghonwy) | | |
| Fflintyr Ifanc (yn Sir y Fflint) | | |
| Merthyr Noise (ym Merthyr Tudful) | | |
| NPT Shake (Castell-nedd Port Talbot) | | |
| Young Newport (yng Nghasnewydd) | | |
| TOWIP (ym Mhowys) | | |
| Wicid (Rhondda Cynon Taf) | | |
| Shouttawe (yn Abertawe) | | |
| Swoosh (ym Mro Morgannwg) | | |
| Wrecsam Ifanc (yn Wrecsam) | | |

   YDW i unrhyw rai o'r uchod **EWCH I C2**

   NA i bob un o'r uchod **EWCH I C5**

2. Ydych wedi defnyddio unrhyw rai o wefannau CLIC?

   YDW - **EWCH I CXX**

   NAC YDW – **EWCH I C3**

3. Sut clywsoch gyntaf am wefan(nau) CLIC? **TICIWCH UN**

   Ffrindiau / cyfoedion

   Yr ysgol neu'r coleg / athro neu diwtor

   Clwb Ieuenctid / Gweithiwr ieuenctid

   Llyfrgell

   Canolfan gwaith / canolfan gyrfaoedd

   Poster / Taflen drwy eich drws

   Cylchgrawn CLIC (CLICshot a/neu CLICzine)

Facebook / Twitter / gwefan rhwydweithio cymdeithasol arall
Peiriant chwilio ar y we
Dolen ar y we (drwy wefan arall)
Gwefan neu le arall – dywedwch ble -----------------------------------

4. Os ydych wedi clywed am wefannau CLIC ond heb eu defnyddio, pam hynny? **TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL**

Dydw i ddim yn hoffi defnyddio gwefannau i gael gwybodaeth a chyngor personol
Does dim llawer o fynediad gen i at gyfrifiadur neu mae'n gyfyngedig
Mae'n well gen i gael gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb
Rwy'n hapus gyda'r cyngor a'r help rwy'n eu cael yn barod
Rheswm arall – dywedwch pam …………………………..

5. Ble rydych chi'n mynd yn gyffredinol i ddod o hyd i wybodaeth i'ch helpu i wneud penderfyniadau am eich cynlluniau at y dyfodol a phethau sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd? **TICIWCH DDAU AR Y MWYAF**

Ffrindiau/cyfoedion
Rhiant / gwarcheidwad
Yr ysgol neu'r coleg / athro neu diwtor
Clwb Ieuenctid / Gweithiwr ieuenctid
Llyfrgell
Canolfan gwaith / canolfan gyrfaoedd
Y Ddraig Ffynci (gwefan)
Llais Disgyblion Cymru (gwefan)
Meic (llinell gyngor)
Gwefan neu le arall – dywedwch ble: ------------------------------------------

6. Mae gwefannau CLIC wedi'u dylunio i ganiatáu i bobl fel chi, ynghyd â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl fel chi, lwytho erthyglau, lluniau a fideos i fyny, a denu cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Pa rai o'r canlynol fyddai **fwyaf** defnyddiol i chi? **TICIWCH DDAU AR Y MWYAF**

Gallu gweld fideos ac erthyglau sydd wedi'u postio gan **sefydliadau** sy'n darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol

Gallu gweld fideos / erthyglau / sylwadau sydd wedi'u postio gan **bobl o'ch oedran chi** ar ystod o bynciau

Gallu llwytho'ch fideos, erthyglau a sylwadau **eich hun** i fyny am bynciau sy'n bwysig i chi

Gallu rhannu a chyfnewid barn ar ystod o bynciau gyda **phobl o'ch oedran chi**

Gallu dysgu am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol lle gallwch gael gwybodaeth a chyngor

7. Fyddai unrhyw rai o'r nodweddion isod yn eich gwneud yn **fwy tebygol** o ddefnyddio gwefannau CLIC?

| | **BYDDAI** | **NA FYDDAI** |
|---|---|---|
| Gallu gweld fideos ac erthyglau sy'n darparu gwybodaeth a chy cyffredinol | | |
| Gallu gweld fideos, erthyglau a sylwadau sydd wedi'u postio gan bobl **o'ch oedran chi** ar ystod o bynciau | | |
| Gallu llwytho'ch fideos, erthyglau a sylwadau eich hun i fyny ar bynciau sy'n bwysig i chi | | |
| Gallu rhannu a chyfnewid barn ar ystod o bynciau gyda **phobl o'ch oedran chi** | | |
| Gallu dysgu am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol lle gallwch gael gwybodaeth a chyngor | | |

8. Beth yw'r **ffordd orau** o hyrwyddo gwybodaeth a chyngor i bobl fel chi? **TICIWCH DDAU AR Y MWYAF**

Yr ysgol neu'r coleg / athro neu diwtor

Clwb Ieuenctid / Gweithiwr ieuenctid

Llyfrgell

Canolfan gwaith / canolfan gyrfaoedd

Poster / Taflen drwy eich drws

Cylchgrawn CLIC (CLICshot a/neu CLICzine)

Facebook / Twitter / gwefan rhwydweithio cymdeithasol arall

Peiriant chwilio ar y we

Gwefan neu le arall – dywedwch ble -----------------------------------

CXX Sut clywsoch gyntaf am wefan(nau) CLIC? **TICIWCH UN**

Ffrindiau / cyfoedion

Yr ysgol neu'r coleg / athro neu diwtor

Clwb Ieuenctid / Gweithiwr ieuenctid

Llyfrgell

Canolfan gwaith / canolfan gyrfaoedd

Poster / Taflen drwy eich drws

Cylchgrawn CLIC (CLICshot a/neu CLICzine)

Facebook / Twitter / gwefan rhwydweithio cymdeithasol arall

Peiriant chwilio ar y we

Gwefan neu le arall - dywedwch ble -----------------------------------

CXX Pam rydych chi wedi defnyddio gwefan(nau) CLIC? **TICIWCH UN**

Dim rheswm arbennig – chwilfrydig i edrych o gwmpas y wefan(gwefannau)

I ddarllen mwy am rywbeth penodol

I gael help pellach gyda rhywbeth penodol

I roi barn am erthygl neu bwnc arbennig a rhannu profiadau a barn gyda phobl eraill drwy'r wefan(gwefannau)

CXX Pa mor gynorthwyol yw gwefan(nau) CLIC o ran darparu gwybodaeth a chyngor ar y materion sydd bwysicaf i chi? **TICIWCH UN**

Ddim o gymorth o gwbl – NAIDLEN Ca – Esboniwch pam

O rywfaint o gymorth – NAIDLEN Cb (gweler isod)

O gymorth mawr – NAIDLEN Cb (gweler isod)

NAIDLEN Cb – Pa elfennau o wefan(nau) CLIC, os unrhyw rai, sydd wedi bod o'r cymorth mwyaf i chi? **TICIWCH DDAU AR Y MWYAF**

- Cael gwybodaeth am ystod o bynciau mewn un lle
- Cael gwybodaeth a fideos ar bethau penodol sy’n gyfoes ac yn hawdd i’w deall
- Cael dolenni i sefydliadau eraill sy’n gallu darparu mwy o wybodaeth a chyngor
- Y gallu i ddarllen erthyglau a sylwadau sydd wedi’u llwytho i fyny gan bobl eraill sy’n defnyddio’r wefan
- Y gallu i bostio eich sylwadau eich hun ar bynciau penodol a rhannu’r rhain gyda phobl eraill sy’n defnyddio’r wefan

CXX Pa mor aml rydych chi’n defnyddio gwefan(nau)? **TICIWCH UN**

Tro cyntaf
Bob dydd
Unwaith yr wythnos
Unwaith y mis
Llai nag unwaith y mis

CXX Ers pryd rydych chi wedi bod yn defnyddio gwefan(nau) CLIC? **TICIWCH UN**

Llai na mis
1 – 3 mis
4 – 6 mis
7 – 12 mis
Dros flwyddyn

CXX O ble yn gyffredinol rydych chi’n cyrchu gwefan(nau) CLIC? **TICIWCH UN**

Fy nghyfrifiadur fy hun
Cyfrifiadur fy nheulu
Cyfrifiadur cyhoeddus (er enghraifft yn yr ysgol, llyfrgell, canolfan gwaith, canolfan gyrfaoedd)
Ffôn symudol neu ffôn clyfar

CXX Ble arall rydych chi'n mynd i ddod o hyd i wybodaeth i'ch helpu i wneud penderfyniadau am eich cynlluniau at y dyfodol a phethau sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd? **TICIWCH DDAU AR Y MWYAF**

Dim unman arall
Ffrindiau / cyfoedion
Rhiant / gwarcheidwad
Yr ysgol neu'r coleg / athro neu diwtor
Clwb Ieuenctid / Gweithiwr ieuenctid
Llyfrgell
Canolfan gwaith / canolfan gyrfaoedd
Y Ddraig Ffynci (gwefan)
Llais Disgyblion Cymru (gwefan)
Meic (llinell gyngor)
Gwefan neu le arall – dywedwch ble: ----------------------------------------

CXX Beth yw'r **ffordd orau** o hyrwyddo gwefan(nau) CLIC i bobl fel chi? **TICIWCH DDAU AR Y MWYAF**

Yr ysgol neu'r coleg / athro neu diwtor
Clwb Ieuenctid / Gweithiwr ieuenctid
Llyfrgell
Canolfan gwaith / canolfan gyrfaoedd
Poster / Taflen drwy eich drws
Cylchgrawn CLIC (CLICshot a/neu CLICzine)
Facebook / Twitter / gwefan rhwydweithio cymdeithasol arall
Peiriant chwilio ar y we
Gwefan neu le arall - dywedwch ble ----------------------------------

CXX Ar ôl defnyddio gwefan(nau) CLIC, ydych chi erioed wedi:

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Defnyddio gwybodaeth ar y wefan yma i'ch helpu i benderfynu **beth i'w wneud** am rywbeth? | | |
| Chwilio ar wefannau eraill y daethoch ar eu traws drwy'r wefan yma i gael mwy o wybodaeth a chyngor? | | |
| Cysylltu'n uniongyrchol â sefydliad arall y daethoch ar ei draws drwy'r | | |

| | | |
|---|---|---|
| wefan yma i gael mwy o wybodaeth a chyngor? | | |
| Defnyddio gwybodaeth o wefannau/sefydliadau eraill y daethoch ar eu traws drwy'r wefan yma i'ch helpu i benderfynu 'beth i'w wneud' am rywbeth? | | |
| Mynychu digwyddiad ar ôl gweld hysbyseb amdano ar y wefan yma? | | |

CXX Sut mae gwefan(nau) CLIC yn cymharu â gwybodaeth a chyngor arall ar-lein rydych chi wedi'u defnyddio o'r blaen? **TICIWCH UN**

Dydw i ddim wedi cyrchu gwybodaeth a chyngor arall ar-lein
Ddim yn gwybod
Gwaeth – **NAIDLEN C8b:** Ym mha ffordd nad yw'r wefan yma cystal â'r rhai rydych chi wedi'u defnyddio o'r blaen?
Yr un peth
Gwell – **NAIDLEN C8a:** Ym mha ffordd mae'r wefan yma yn well na'r rhai rydych chi wedi'u defnyddio o'r blaen?

CXX Mae gwefan(nau) CLIC wedi'i dylunio i ganiatáu i bobl fel chi, ynghyd â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl fel chi, lwytho erthyglau, lluniau a fideos i fyny, a denu cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Pa rai o'r nodweddion canlynol sydd **fwyaf** apelgar i chi? **TICIWCH DDAU AR Y MWYAF**

Gallu gweld fideos ac erthyglau sydd wedi'u postio gan **sefydliadau** sy'n darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol
Gallu gweld fideos / erthyglau / sylwadau sydd wedi'u postio gan **bobl fel chi** sy'n defnyddio'r wefan yma
Gallu cael eitemau 'newyddion' cyfoes am wahanol bynciau a materion sy'n bwysig i chi
Gallu llwytho'ch fideos / erthyglau / sylwadau **eich hun** i fyny i'w rhannu â phobl eraill sy'n defnyddio'r wefan yma
Gallu pleidleisio drwy 'bolau piniwn' ar bynciau a materion penodol
Gallu dysgu am ddigwyddiadau a gweithgareddau lleol lle gallwch gael gwybodaeth a chyngor

CXX Ydych chi wedi gwneud unrhyw rai o'r canlynol tra ar wefan(nau) CLIC:

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Gweld fideos / erthyglau sydd wedi'u postio gan **sefydliadau** sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor? | | |
| Gweld fideos / erthyglau / sylwadau sydd wedi'u postio gan **bobl fel chi** sy'n defnyddio'r wefan(gwefannau)? | | |
| Llwytho'ch fideos / erthyglau / sylwadau **eich hun** i fyny i'w rhannu â phobl eraill sy'n defnyddio'r wefan(gwefannau)? | | |

| | | |
|---|---|---|
| Pleidleisio gan ddefnyddio'r 'polau piniwn' ar bynciau a materion penodol? | | |

CXX Ydych chi wedi 'cofrestru' i fod yn aelod o wefan(nau) CLIC?

YDW

NAC YDW

**Tywys pawb i gwblhau'r cwestiynau demograffeg isod**

9. Ydych chi'n:

Wrywaidd / Bachgen

Benywaidd / Merch

10. Beth yw eich oedran?

Dan 11

11-13

14-16

17-19

20-22

23-25

Dros 25

11. Ticiwch yr ardal lle rydych chi'n byw:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Sir Gaerfyrddin | Gwynedd | Sir Benfro | Bro Morgannwg |
| Blaenau Gwent | Ceredigion | Merthyr Tudful | Powys | Wrecsam |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Conwy | Sir Fynwy | Rhondda Cynon Taf | Arall (nodwch) |
| Caerffili | Sir Ddinbych | Castell-nedd Port Talbot | Abertawe | |
| Caerdydd | Sir y Fflint | Casnewydd | Tor-faen | |

12. Beth yw eich grŵp ethnig?

| | |
|---|---|
| A | Cymro/Cymraes / Sais/Saesnes / Albanwr/Albanes / Gwyddel/Gwyddeles o  Ogledd Iwerddon / Prydeiniwr/Prydeinwraig |
| B | Gwyddel/Gwyddeles |
| C | Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig |
| D | Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifiwch |
| E | Gwyn a Charibïaidd Du |
| F | Gwyn a Du Affricanaidd |
| G | Gwyn ac Asiaidd |
| H | Unrhyw gefndir ethnig Cymysg / lluosog arall, disgrifiwch |
| I | Indiaidd |
| J | Pacistanaidd |
| K | Bangladeshaidd |
| L | Tsieineaidd |
| M | Unrhyw gefndir Asiaidd arall, disgrifiwch |
| N | Affricanaidd |
| O | Caribïaidd |
| P | Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall, disgrifiwch |
| Q | Arabaidd |
| R | Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch |
| | Ddim yn gwybod |
| | Gwrthod dweud |